lgps | Local Government Pension Scheme

Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

Cronfa Bensiwn Dyfed

Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2025-2026



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Cynnwys

Rhagair Gan Y Cadeirydd 3
Cyflwyniad 5
Adran 1 – Adroddiad Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol 7
Rheoli'r Gronfa ac Ymgynghorwyr 7
Rheoli Risg 9
Perfformiad Ariannol 9
Adran 2 – Y Polisi Buddsoddi ac Adroddiadau Perfformiad 10
Buddsoddiadau'r Gronfa 10
BlackRock 16
Schroders 21
Partners Group 25
Partneriaeth Pensiwn Cymru 29
PIRC Limited (Pension and Investment Research Consultants) 37
Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol 39
Adran 3 – Gweinyddu'r Gronfa 42
Adran 4 – Adroddiad Actiwaraidd 56
Adran 5 - Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Dyfed 58
Adran 6 – Datganiad Cyfrifon 62
Adran 7 – Polisïau a Strategaethau 111
Adran 8 - Geirfa 113
Cysylltu a'r Gronfa 115


Rhagair Gan Y Cadeirydd

Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2025-26. Mae wedi bod yn flwyddyn brysur a phleserus iawn unwaith eto i'r Gronfa.

Un o brif flaenoriaethau'r Pwyllgor Pensiwn yw lleihau dwysedd carbon y Gronfa a'i fonitro'n barhaus. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni'r amcan hwnnw.

Ers gosod nod yn 2020 i leihau dwysedd carbon y Gronfa yn unol â chytundeb hinsawdd Paris, rydym wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni hyn. Y metrig a ddefnyddiwyd oedd Dwysedd Carbon Cyfartalog wedi'i Bwysoli (WACI) daliadau ecwiti rhestredig y Gronfa. Dewiswyd hyn oherwydd bod ecwiti rhestredig yn cynrychioli rhyw ddwy ran o dair o fuddsoddiadau'r Gronfa, ac oherwydd nad oes data dibynadwy a chyson ar gael am y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau asedau eraill y mae'r Gronfa yn buddsoddi ynddynt.

Gosododd y Pwyllgor linell sylfaen ym mis Medi 2020 ac mae wedi mesur WACI daliadau ecwiti bob diwedd blwyddyn ers hynny. Dangosir y canlyniadau yn y siart isod :-



Fel y dengys y siart, mae'r Gronfa wedi gwneud cynnydd cyson wrth leihau WACI daliadau ecwiti, sydd wedi gostwng dros 50% ers llinell sylfaen Medi 2020, sy'n ostyngiad blynyddol o dros 14%, sef mwy na dwywaith y gyfradd ostwng sydd ei hangen i gyrraedd y nodau allyriadau carbon sy'n cyd-fynd â chytundeb Paris.

Mae'r gostyngiadau hyn yn WACI y Gronfa wedi'u gyrru'n bennaf gan benderfyniadau gweithredol y Pwyllgor i ddyrannu mwy o asedau i strategaethau carbon is ("Dyraniad Asedau Strategol y Pwyllgor") a chan reolwyr y strategaethau buddsoddi eu hunain yn lleihau dwysedd carbon y strategaethau hyn ("WACI rheolwyr"), er bod elfen fach o newid bob amser yn cael ei hachosi gan berfformiad cymharol strategaethau buddsoddi gwahanol, gan fod WACI yn gyfartaledd wedi'i bwysoli ar sail asedau ("symudiadau'r farchnad").

Dros y blynyddoedd, mae penderfyniadau allweddol y Pwyllgor, sydd wedi lleihau dwysedd carbon, wedi cynnwys y canlynol:-

- defnyddio'r portffolios ecwiti rhanbarthol carbon uwch (e.e. Marchnadoedd Datblygol a Chanada, ond hefyd Japan a'r DU i raddau) i gyllido dyraniadau newydd i strategaethau marchnad breifat, fel seilwaith a chredyd preifat.
- dyrannu i strategaethau ecwiti byd-eang carbon is newydd, fel strategaeth oddefol carbon isel BlackRock a strategaeth ecwiti cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).
- newid strategaeth ecwiti Twf Byd-eang fawr iawn PPC i feincnod ecwiti byd-eang sy'n cyd-fynd â chytundeb Paris.

Yn ogystal, mae'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth leihau WACI yn eu portffolios, wedi'u harwain gan bolisïau Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn olaf, mae dwysedd carbon sylfaenol marchnadoedd wedi gostwng bron i chwarter ers llinell sylfaen y Gronfa yn 2020, yn rhannol o ganlyniad i berfformiad cryf iawn y sector technoleg carbon cymharol isel, felly byddai'n briodol ychwanegu na fyddai'n syndod gweld rhywfaint o arafu yn y maes hwn yn y dyfodol, os gwelir bod y brwdfrydedd dros ddealltwriaeth artiffisial wedi'i orliwio, neu os yw'r gwaith o adeiladu canolfannau data yn cynyddu ôl troed carbon y busnesau hyn.

I roi diweddariad byr ar faes pwysig arall, roedd actiwari'r Gronfa, Mercer, wedi cwblhau a llofnodi Prisiad Actiwaraidd 2025 yn ystod y flwyddyn. Rhoddir rhagor o fanylion gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn adran Cyflwyniad yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rwy'n falch o adrodd bod gwarged a lefel gyllido'r Gronfa wedi gwella unwaith eto, gan barhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd mewn prisiadau actiwaraidd blaenorol.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r timau gweinyddu pensiynau a buddsoddiadau am eu gwaith caled parhaus, eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn. Mae eu hymrwymiad yn chwarae rhan hanfodol wrth reoli'r Gronfa yn llwyddiannus a darparu gwasanaethau o safon uchel i'n haelodau a'n rhanddeiliaid.

Hoffwn hefyd ddiolch i'm cyd-aelodau o'r Pwyllgor am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus, yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn am y gwaith craffu a herio gwerthfawr y maent yn ei ddarparu. Mae eu cyfraniad yn rhan bwysig o fframwaith llywodraethu'r Gronfa ac yn helpu i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol a amlygwyd drwy gydol yr adroddiad hwn.



Cynghorydd Elwyn Williams

Cadeirydd y Pwyllgor Pensiwn


Cyflwyniad

Fel y soniodd y Cadeirydd yn ei ragair, bu'n flwyddyn arbennig o brysur i'r Gronfa. Yn y tudalennau canlynol, byddaf yn ceisio rhoi crynodeb o'r gweithgareddau, y datblygiadau a'r cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn.

Llofnodwyd Adroddiad Prisio Actiwaraidd 2025 gan actiwari'r Gronfa, Mercer, ar 31 Mawrth 2026. Gwnaed llawer iawn o waith drwy gydol y flwyddyn gan y timau gweinyddu a buddsoddi i ddarparu'r data a'r wybodaeth angenrheidiol i sicrhau bod y prisiad wedi'i gwblhau'n gywir ac o fewn yr amserlen ofynnol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r ddau dîm am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth gyflawni'r darn sylweddol hwn o waith. Roedd eu hymdrechion yn allweddol wrth sicrhau bod y prisiad yn cael ei gwblhau yn llwyddiannus ac wrth gynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan y Gronfa.

Cyflwynir canlyniadau prisiad actiwaraidd 2025 a chymhariaeth â phrisiad 2022 isod. Rwy'n falch o adrodd bod y lefel gyllido a'r gwarged wedi cynyddu ers y prisiad blaenorol, a bod asedau'r Gronfa yn parhau i fod yn fwy na'i rhwymedigaethau gan gynnal gwarged iach.



Heb fynd yn rhy bell y tu hwnt i gyfnod adrodd 2025-26, hoffwn nodi, ar ôl cwblhau Prisiad Actiwaraidd 2025, fod y Gronfa wedi comisiynu adolygiad o'i Dyraniad Asedau Strategol (DAS). Dyma adeg briodol i ailasesu'r DAS, gan fod canlyniadau'r prisiad yn rhoi'r darlun diweddaraf o sefyllfa gyllido'r Gronfa a'r gofynion yn y dyfodol.

Bydd yr adolygiad yn helpu i sicrhau bod strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn parhau i gyd-fynd â'i hamcanion hirdymor a'i gofynion cyllido. Edrychaf ymlaen at roi diweddariad pellach ar ganlyniad y gwaith hwn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Parhaodd y tîm gweinyddol i weithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn, nid yn unig gan weinyddu buddion pensiwn ar gyfer aelodaeth gynyddol, sydd bellach yn fwy na 58,000 o aelodau, ond gan lywio amgylchedd rheoleiddio sy'n newid yn barhaus ac yn gynyddol gymhleth. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r tîm wedi parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i aelodau a chyflogwyr, gan sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r holl ofynion rheoleiddio.

Mae'r tîm gweinyddol wedi parhau i weithio'n ddiwyd drwy gydol y flwyddyn ar yr ailgyfrifiadau oedd yn ofynnol o ganlyniad i ddyfarniad McCloud, sydd wedi gofyn am filoedd o adolygiadau ac ailgyfrifiadau sy'n effeithio ar fuddion pensiynwyr a hawliau pensiwn aelodau gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y tîm hefyd ymdrech sylweddol i baratoi ar gyfer Rhaglen y Dangosfwrdd Pensiynau, gan sicrhau bod y Gronfa yn barod i fodloni ei gofynion o ran cysylltu a "mynd yn fyw" erbyn y dyddiad penodedig. Yn ogystal, cyflwynwyd rheoliadau newydd yn ymwneud ag absenoldeb heb dâl a thâl mamolaeth ym mis Ebrill a oedd yn gofyn am newidiadau pellach o ran systemau, prosesau, a newidiadau gweinyddol.

Un o'r prif ddiweddariadau a amlygwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd oedd ymgynghoriad Llywodraeth y DU, *Fit for the Future*. Canlyniad yr ymgynghoriad hwn, a'r newidiadau deddfwriaethol dilynol, oedd gofyniad i bob cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol weithredu fel cwmni rheoli buddsoddiadau annibynnol a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Gan nad dyma'r model gweithredu a fabwysiadwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru pan sefydlwyd y trefniadau cyfuno yn wreiddiol, bu'n rhaid rhoi newidiadau sylweddol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddio newydd.

Yn ystod 2025-26, parhaodd y gwaith yn gyflym i sefydlu'r cwmni newydd, Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru. Yn ogystal â phenodi Prif Swyddog Gweithredol, mae Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC wedi penodi i'r swyddi Swyddogaeth Uwch-reolwyr sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac mae'n parhau i weithio'n ddiwyd tuag at fodloni'r gofynion llym ar gyfer awdurdodiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Mae creu cwmni rheoli buddsoddiadau newydd o'r gwaelod i fyny i fodloni safonau rheoleiddio mor uchel wedi bod yn dasg gymhleth a sylweddol. Drwy gydol y broses hon, mae'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi gweithio'n ddiwyd ac yn gydweithredol i gyflawni'r cynnydd sylweddol a wnaed hyd yma. Yn bwysig, mae'r gwaith hwn wedi'i wneud ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau o ddydd i ddydd, sef gweinyddu ein Cronfeydd Pensiwn priodol. Hoffwn ddiolch i bawb dan sylw am eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad wrth gyflawni'r prosiect pwysig hwn.

Wrth edrych y tu hwnt i'r cyfnod adrodd, ac yn amodol ar gwblhau proses awdurdodiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn llwyddiannus, rydym yn disgwyl gweld lansiad ffurfiol Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn ystod 2026-27.

I gloi, hoffwn ategu'r sylwadau a wnaed gan y Cadeirydd yn ei ragair a diolch yn ddiffuant unwaith eto i'r timau gweinyddu pensiynau a buddsoddiadau am eu gwaith caled, eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad drwy gydol y flwyddyn. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn am eu cefnogaeth barhaus, eu hymrwymiad a'u her adeiladol. Mae pob un ohonynt yn cyfrannu at lywodraethu effeithiol a rheolaeth lwyddiannus y Gronfa.

Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyngor Sir Gar



Adran 1 – Adroddiad Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol

Rheoli'r Gronfa ac Ymgynghorwyr

Gweinyddir Cronfa Bensiwn Dyfed gan Gyngor Sir Caerfyrddin (yr awdurdod gweinyddu) ac yn unol â chyfansoddiad y Cyngor Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed sydd â'r cyfrifoldeb strategol cyffredinol am reoli'r Gronfa. Pennir rheolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgor gan Bolisi Llywodraethu y Gronfa.

Yn ystod 2025-26 aelodau'r Pwyllgor oedd:

- Cynghorydd Elwyn Williams - Cadeirydd y Pwyllgor
- Cynghorydd Dai Thomas - Aelod o'r Pwyllgor
- Cynghorydd Philip Warlow - Aelod o'r Pwyllgor
- Cynghorydd Neil Lewis - Dirprwy Aelod o'r Pwyllgor

Bu swyddogion canlynol Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhai o gyfarfodydd y Pwyllgor hefyd a/neu weithredu fel ymgynghorwyr:

- Mr Chris Moore, FCCA - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
- Mr Randal Hemingway, CPFA - Pennaeth Gwasanaethau Ariannol
- Mr Anthony Parnell, FCCA - Rheolwr Pensiwn a Buddsoddiadau Gyllidol
- Mr Kevin Gerard, MIPPM - Rheolwr Pensiynau

Mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed wedi mabwysiadu y Cod Ymarfer ar Sgiliau a Gwybodaeth Pensiynau y Sector Gyhoeddus. Mae'r Cod yn gosod y gwybodaeth a'r sgiliau sydd angen ar bob un sy'n ymwneud a llywodraethu cynlluniau pensiwn fel yr argymellwyd gan yr Arglwydd Hutton yn ei adroddiad ar bensiynau y sector gyhoeddus.

Bu'r Pwyllgor a'r swyddogion mewn amrywiol gyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau yn ymwneud â materion gweinyddu a buddsoddi. Darparwyd y rhain gan reolwyr y gronfa, ymgynghorwyr, y swyddogion a chymdeithasau llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Mae presenoldeb cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi ar gyfer pob aelod o'r Pwyllgor yn cael ei ddangos dros y dudalen.

Presenoldeb cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi 2025-26	Cyng. Elwyn Williams	Cyng. Dai Thomas	Cyng. Philip Warlow	Cyng. Neil Lewis
Hawliau pleidleisio	✓	✓	✓	
Presenoldeb cyfarfodydd 2025-26:				
Cyfarfodydd y Pwyllgor 23 Mehefin 2025	✓	✓	✓	
Cyfarfodydd y Pwyllgor 22 Medi 2025	✓	✓	✓	✓
Cyfarfodydd y Pwyllgor 10 Tachwedd 2025	✓	✓	✓	
CYB 11 Tachwedd 2025	✓	✓	✓	✓
Cyfarfodydd y Pwyllgor 24 Chwefror 2026	✓	✓	✓	
Cyfarfodydd y Pwyllgor 11 Mawrth 2026	✓	✓	✓	✓

Digwyddiadau hyfforddi 2025-26:				
Cyfarfod Busnes (LAPFF) Ebrill 2025				✓
Cynhadledd Buddsoddi yng Nghymru (Schroders) Ebrill 2025		✓	✓	
Diwrnod Rheolwyr Marchnad Breifat Partneriaeth Pensiwn Cymru	✓			
Cynhadledd Awdurdod Lleol (PLSA) Mehefin 2025			✓	
Sesiwn Hyfforddiant (PPC) Mehefin 2025	✓	✓	✓	
Cyfarfod Busnes (LAPFF) Gorffennaf 2025				✓
Sesiwn Hyfforddiant (PPC) Medi 2025	✓	✓	✓	
CCB & Cyfarfod Busnes (LAPFF) Hydref 2025				✓
Hyfforddiant Sylfaenol Hydref 2025	✓	✓		
Hyfforddiant Sylfaenol Tachwedd 2025	✓	✓		
Sesiwn Briffio (Russell Investments) Tachwedd 2025	✓	✓	✓	✓
Sesiwn Briffio (BlackRock) Tachwedd 2025	✓	✓	✓	✓
Sesiwn Hyfforddiant (PPC) Tachwedd 2025	✓	✓	✓	
Hyfforddiant Sylfaenol Rhagfyr 2025	✓	✓		
Cynhadledd Flynyddol (LAPFF) Rhagfyr 2025			✓	✓
Cynhadledd Llywodraethu (LGA) Ionawr 2026	✓	✓	✓	✓
Cyfarfod Busnes (LAPFF) Chwefror 2026				✓
Seminar Buddsoddi (LGC) Mawrth 2025		✓		

Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol: Mr Adrian Brown (Apex Group plc) - mae'n cynghori'r Pwyllgor ar bob agwedd ar reoli buddsoddiadau mewn cyfarfodydd chwarterol a chyfarfodydd ad hoc yn ôl yr angen.

Rheolwyr Buddsoddiadau:	Partneriaeth Pensiwn Cymru, BlackRock, Schroders, Partners Group
Ymgynghorwyr Cyfreithiol:	Eversheds
Cwmni Mesur Perfformiad:	PIRC Limited (Pension and Investment Research Consultants)
Actiwari:	Marsh (a elwid gynt yn Mercer)
Gwarchodwr:	Northern Trust
Bancwyr:	Barclays Bank Plc
Darparwyr AVC:	Prudential, Standard Life a UTMOST
Archwilydd Allanol:	Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rheoli Risg

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed, yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg effeithiol. Rheoli risg yw'r broses y mae'r Cyngor yn ei dilyn i nodi a rhoi sylw'n systematig i risgiau sy'n gysylltiedig â'i weithgareddau.

Mae rheoli risg yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae gan y Cyngor strategaeth rheoli risg ffurfiol sy'n cael ei hadolygu a'i datblygu'n rheolaidd mewn ymateb i newidiadau yn y Cyngor a'r tu allan iddo.

Fel sy'n ofynnol gan y strategaeth rheoli risg, mae'r Gronfa'n defnyddio'r offeryn cofrestru risg i nodi, blaenoriaethu, rheoli a monitro risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Dyfed. Gellir gweld y gofrestr hon ar wefan Cronfa Bensiwn Dyfed.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido (Adran 7) a'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi Adran 7) yn egluro risgiau allweddol y Gronfa a sut y maent yn cael eu nodi, eu lleihau, eu rheoli a'u hadolygu. Mae cyngor ynghylch buddsoddi'n cael ei roi gan Mr Adrian Brown, yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, ac mae Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed yn cwrdd i adolygu perfformiad a gweithgarwch rheolwr y gronfa o leiaf bob chwarter.

Perfformiad Ariannol

Incwm a Gwariant

Mae'r tabl isod yn dangos incwm a gwariant gwirioneddol 2025-26 o'u cymharu â'r gyllideb.

	Gwirioneddol 2024-25 £'000	**Cyllideb 2025-26 £'000**	**Gwirioneddol 2025-26 £'000**	**Amrywiant 2025-26 £'000**
Incwm				
Cyfraniadau Aelodau	28,286	30,168	29,925	(243)
Cyfraniadau Cyflogwyr	78,605	81,994	81,509	(485)
Trosglwyddiadau i fewn	8,544	8,500	11,676	3,176
Incwm o'r Buddsoddiadau	56,130	31,614	60,190	28,576
Cyfanswm Incwm	**171,565**	**152,276**	**183,300**	**31,024**
Gwariant				
Budd-daliadau sy'n daladwy	(123,911)	(127,506)	(128,130)	(624)
Trosglwyddiadau allan	(9,402)	(7,800)	(9,486)	(1,686)
Treuliau rheoli	(2,430)	(2,800)	(2,968)	(168)
Treuliau rheoli buddsoddiadau	(9,836)	(14,170)	(8,016)	6,154
Cyfanswm Gwariant	**(145,579)**	**(152,276)**	**(148,600)**	**3,676**
Newid yng Ngwerth y Buddsoddiadau ar y farchnad	73,802	-	386,095	-
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Gronfa	**99,788**	**-**	**420,795**	**-**

Adran 2 – Y Polisi Buddsoddi ac Adroddiadau Perfformiad

Buddsoddiadau'r Gronfa

Polisi Buddsoddi

Mae'r Gronfa yn gosod datganiad eang o'r egwyddorion y mae wedi mabwysiadu er mwyn sefydlu ei strategaeth buddsoddi a chyllido yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi (Adran 7). Mae'r ISS hefyd yn gosod polisiau'r Gronfa ynglyn a buddsoddi cyfrifol a materion cymdeithasol ac amgylcheddol eraill.

Mae'r Polisi Buddsoddi a'r ymagwedd at rheoli risg i'r Gronfa ar y cyfan ac ynglyn a rheolwyr buddsoddi wedi eu amlinelli yn y ISS. Mae crynodeb o sut mae'r gweinyddiaeth o'r buddsoddiadau yn cael ei reoli, pwy sy'n delio gyda phob elfen o'r portffolio, sut mae hawliau pleidleisio wedi eu harfer hefyd i'w dod o hyd yn y ISS. Yr dogfen ISS ar gael ar ein wefan.

Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor sy'n anelu at ddarparu cronfa bensiwn gynaliadwy ar gyfer yr holl randdeiliaid ac mae ganddi ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er budd pennaf, hirdymor cyflogwyr y Gronfa ac aelodau'r cynllun.

Mae Buddsoddi Cyfrifol yn rhan sylfaenol o strategaeth fuddsoddi gyffredinol y Gronfa fel y'i cyflwynwyd yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hwn. Hynny yw, sicrhau'r enillion mwyaf posib yn amodol ar lefel dderbyniol o risg yn ogystal â chynnig mwy o sicrwydd cost i gyflogwyr, a lleihau cost hirdymor y cynllun. Cred y Gronfa fod ystyried ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Corfforaethol (ESG) yn sylfaenol yn hyn o beth, yn enwedig felly pan maent yn debygol o effeithio ar yr amcan buddsoddi cyffredinol.

Gellir gweld y Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn Adran 7 o'r adroddiad hwn neu ar y wefan.

Aelodaeth o Sefydliadau Cronfeydd Pensiwm

Mae'r Gronfa yn cefnogi ac yn aelod o'r Pensions UK, Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF), Rhwydwaith Pensiwn CIPFA, Bwrdd Ymgynghorol (SAB) Cynllun y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Phwyllgor Pensiynau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGPC).

Pleidleisio

Cyfarwyddir rheolwyr i bleidleisio yn unol â Pholisi Stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru a chanllawiau pleidleisio LAPFF. Mae'r polisi a'r canllawiau yn nodi egwyddorion y dylid eu dilyn wrth bleidleisio.

Newidiadau Rheoli

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd y Gronfa £25m i fuddsoddiad coedwigaeth gyda Gresham House. O'r ymrwymiad hwn buddsoddwyd £24.8m yn ystod 2025-26 ac mae £200k i'w fuddsoddi yn y dyfodol.

Dyrannu Asedau

Mandad	Dull	Rheolwr	Meincnod (%)	Gwirioneddol (%)
Ecwitis		**Dyraniad**	**60.00**	**68.69**
Byd-eang	Weithredol	PPC (Waystone)		31.19
Ecwiti Cynaliadwy	Weithredol	PPC (Russell Investment)		5.18
DU	Oddefol	BlackRock		12.40
Rhanbarthol Eraill	Oddefol	BlackRock		8.05
Cronfa Ecwiti ESG y Byd	Oddefol	BlackRock		11.87
Llog Sefydlog		**Dyraniad**	**10.00**	**10.00**
Credyd Byd-eang	Weithredol	PPC (Russell Investment)		10.00
Eiddo		**Dyraniad**	**15.00**	**12.57**
Eiddo	Weithredol	Schroders		11.69
Eiddo	Weithredol	Partners Group		0.88
Seilwaith		**Dyraniad**	**5.00**	**2.09**
Seilwaith	Weithredol	PPC (GCM Grosvenor & Capital Dynamics)		2.09
Credyd Preifat		**Dyraniad**	**5.00**	**2.35**
Credyd Preifat	Weithredol	PPC (Russell Investment)		2.35
Aml-asedau		**Dyraniad**	**5.00**	**3.87**
Strategic Alternative Income Fund	Weithredol	BlackRock		3.29
Coedwigaeth	Weithredol	Gresham House		0.58
Arian		**Dyraniad**	**0.00**	**0.43**
Arian	Weithredol	BlackRock, Schroders & Partners Group		0.43
Cyfanswm			**100.00**	**100.00**

Mae'r tabl uchod yn dangos bod dyraniad gwirioneddol y Gronfa i ecwitïau yn uwch na'r meincnod. Mae'r Pwyllgor Pensiwn yn adolygu'r dyraniadau gyda'r bwriad o ailgydbwyso'r buddsoddiadau yn unol â'r meincnodau.

Mae'r tabl isod yn dangos y newid yng ngwerth y gronfa o ddechrau'r flwyddyn hyd at ddiwedd y flwyddyn ac mae'n cael ei rannu yn ôl dosbarth asedau. Bu cynnydd o 11.6% yng ngwerth y Gronfa rhwng 2024-25 a 2025-26:

	Gwerth ar 31/03/25	Gwerth ar 31/03/26
	£'000	£'000
Ecwitis y DU	425,821	492,982
Ecwitïau Byd-eang a Thramor	2,130,139	2,238,588
Bondiau Llog Sefydlog	336,993	397,603
Eiddo	404,300	500,059
Asedau amgen	131,559	153,917
Seilwaith	56,448	82,914
Credyd Preifat	69,806	93,511
Arian	7,279	15,913
Incwm i'w Derbyn	135	1,048
Cyfanswm	**3,562,480**	**3,976,535**

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm asedau cyfun y Gronfa:

	Asedau Cyfun £'000	Asedau Dan Reolaeth Gyfun £'000	Asedau sydd heb eu cyfuno £'000	Cyfanswm £'000
Ecwitïau	1,446,503	1,285,067	0	2,731,570
Bondiau	397,603	0	0	397,603
Eiddo Tirol	239,822	0	260,237	500,059
Asedau amgen	23,132	0	130,785	153,917
Seilwaith	82,914	0	0	82,914
Credyd Preifat	93,511	0	0	93,511
Arian parod	0	0	16,961	16,961
Cyfanswm	**2,283,485**	**1,285,067**	**407,983**	**3,976,535**

Mae'r tabl isod yn dangos asedau cyfun y Gronfa yn y DU:

	Asedau Cyfun £'000	Asedau Dan Reolaeth Gyfun £'000	Asedau sydd heb eu cyfuno £'000	Cyfanswm £'000
Ecwitïau Rhestredig y DU	0	492,982	0	492,982
Eiddo Tirol y DU	239,822	0	229,629	469,451
Asedau amgen y DU	23,132	0	98,088	121,220
Seilwaith y DU	24,147	0	0	24,147
Credyd Preifat y DU	20,572	0	0	20,572
Cyfanswm	**307,673**	**492,982**	**327,717**	**1,128,372**

Perfformiad Buddsoddi

Roedd cyfanswm perfformiad y Gronfa yn uwch na chyfartaledd cyffredinol yr Awdurdod Lleol dros bob cyfnod fel y dangosir isod.

Cyfnodau hyd at 31/03/26	Elw (%)	Chyfartaledd (%)	Perfformio'n well / tan berfformio (%)	Safle
1 flwyddyn	12.40	9.60	2.80	12
3 mlynedd *	8.80	7.40	1.40	18
5 mlynedd *	5.90	5.80	0.10	35
10 mlynedd *	8.20	7.60	0.60	13
20 mlynedd *	7.10	6.60	0.50	9
30 mlynedd *	7.80	7.10	0.70	4

* Elw blynyddol

Perfformiad unigol rheolwyr y Gronfa

Mae'r tablau canlynol yn dangos perfformiad bob rheolwr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026.

Partners Group

Mesurir perfformiad y buddsoddiadau mewn eiddo preifat yn ôl y Gyfradd Elw Fewnol, sef ffigwr a fydd yn anwadal hyd nes y bydd y Gronfa'n cyrraedd aeddfedrwydd. 4.5% yw cyfradd elw fewnol bresennol y portffolio. Mae hwn yn elw dros amser ar sail llif arian ac felly nid yw'n fodd ystyrlon o fesur perfformiad hyd nes y bydd yr holl gyfalaf a gyfrannwyd a'r enillion wedi cael eu dychwelyd i'r buddsoddwr. Tan hynny bydd gyfradd elw fewnol yn codi ac yn gostwng fel y bydd yr arian yn llifo i mewn ac allan. Mae'r portffolio buddsoddiadau'n parhau i gydymffurfio â disgwyliadau'r Grŵp o ran ei berfformiad.

Mae'r tabl isod yn dangos y llifoedd arian hyd at 31 Mawrth 2026. Roedd prisiad y portffolio eiddo yn uwch na cost gwreiddiol y buddsoddiad:

Portffolio Buddsoddiadau	
Ymrwymiad	£99.15 miliwn
Lefel ymrwymiad - uniongyrchol	24.21%
Lefel ymrwymiad - eilradd	30.98%
Lefel ymrwymiad - cynradd	47.04%
Wedi'u fuddsoddi	£92.93 miliwn
Lefel buddsoddi	93.72%

Partners Group Red Dragon, L.P.	
Ymrwymiadau	£97.00 miliwn
Cyfraniadau cyfalaf	£70.46 miliwn
Cyfraniadau cyfalaf (mewn % o ymrwymiadau)	72.64%
Ymrwymiadau heb gyllid	£26.54 miliwn
Dosbarthiadau	£54.11 miliwn
Gwerth Ased Net	£35.18 miliwn
Adenillion net (1 flwyddyn)	1.50%
Adenillion net (o'r dechrau tan nawr)	4.50%

Schroders

Tanberfformiodd y rheolwr yn erbyn y meincnod dros y cyfnodau o un, tair a phum mlynedd sef -3.10%, -1.60% a -0.70% yn y drefn honno.

Perfformiad i 31/03/26	Elw (%)	Meincnod (%)	Perfformio'n well / tan berfformio
1 flwyddyn	1.20	4.30	(3.10)
3 mlynedd*	1.70	3.30	(1.60)
5 mlynedd*	2.30	3.00	(0.70)

* Elw blynyddol

BlackRock

Dangosir perfformiad a meincnod pob cronfa dros y cyfnodau o un, tair a phum mlynedd isod. Sefydlwyd Cronfa Ecwiti ESG y Byd yn ystod y flwyddyn, ac felly dim ond data o'r dechrau tan nawr sydd ar gael.

Perfformiad i 31/03/26		Elw (%)	Maincnod (%)	Perfformio'n well / tan berfformio
Cronfa Ecwiti ESG y Byd	O'r dechrau tan nawr	(2.04)	(1.32)	(0.72)
Cronfa Mynegai Ecwiti Ewrop Aquila Life ac eithrio'r DU	1 flwyddyn	17.24	16.01	1.23
	3 mlynedd *	11.13	10.84	0.29
	5 mlynedd *	9.56	9.39	0.17
Cronfa Mynegai Ecwiti y DU Aquila	1 flwyddyn	21.71	21.54	0.17
	3 mlynedd *	13.36	13.33	0.03
	5 mlynedd *	11.15	11.11	0.04
Is-gronfa Mynegai Marchnadoedd Datblygol iShares	1 flwyddyn	27.50	26.81	0.69
	3 mlynedd *	12.54	12.40	0.14
	5 mlynedd *	4.64	4.63	0.01

* Elw blynyddol

BlackRock UK Strategic Alternative Income Fund (SAIF)

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae'r Gronfa wedi dyrannu £150m i'r buddsoddiad aml-asedau hwn. Ar 31 Mawrth 2026 roedd y lefel buddsoddi yn 100%, a'r enillion net ers ei dechrau oedd 3%.

Buddsoddiadau'r portffolio	
Ymrwymwyd	£150.00m
Buddsoddwyd	£150.00m
Ymrwymiadau heb eu hariannu	£0.00m
Lefel Buddsoddi	100.00%
Dosbarthiadau	£38.96m
Gwerth Asedau Net	£130.78m
Enillion Net (o'r dechrau tan nawr)	3.00%

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cronfa Byd-eang

Tanberfformiodd y Gronfa yn erbyn y meincnod dros y cyfnod o un flwyddyn, y cyfnod o dair blynedd ac ers ei dechrau yn Chwefror 2019 sef -3.60%, -3.50% a -1.90% yn y drefn honno.

Perfformiad i 31/03/26	Elw Net (%)	Meincnod (%)	Perfformio'n well / tan berfformio
1 flwyddyn	13.90	17.50	(3.60)
3 mlynedd	10.00	13.50	(3.50)
O'r dechrau tan nawr	9.70	11.60	(1.90)

Cronfa Credyd Byd-eang

Tanberfformiodd y Gronfa yn erbyn y meincnod dros y cyfnod o un flwyddyn, y cyfnod o dair blynedd ac ers ei dechrau yn Awst 2020 sef -0.20%, -0.10% a -0.20% yn y drefn honno.

Perfformiad i 31/03/26	Elw Net (%)	Meincnod (%)	Perfformio'n well / tan berfformio
1 flwyddyn	4.30	4.50	(0.20)
3 mlynedd	4.60	4.70	(0.10)
O'r dechrau tan nawr	(0.10)	0.10	(0.20)

Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Tanberfformiodd y Gronfa yn erbyn y meincnod dros y cyfnod o un flwyddyn ac ers ei dechrau ym Mehefin 2023 sef -4.20% a -4.70% yn y drefn honno.

Perfformiad i 31/03/26	Elw Net (%)	Meincnod (%)	Perfformio'n well / tan berfformio
1 flwyddyn	13.30	17.50	(4.20)
O'r dechrau tan nawr	10.10	14.80	(4.70)

BlackRock

Mae'r ffigurau a ddangosir yn ymwneud â pherfformiad yn y gorffennol. Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn ddangosydd dibynadwy o ran canlyniadau presennol neu ganlyniadau yn y dyfodol ac ni ddylai fod yr unig ffactor i'w ystyried wrth ddewis cynnyrch neu strategaeth.

Nid yw'r canlyniadau yn adlewyrchu didynnu ffioedd rheoli/cynghori a threuliau eraill; bydd ffioedd rheoli/cynghori a threuliau eraill yn lleihau adenillion cleient.

Nid yw adenillion perfformiad mynegai yn adlewyrchu unrhyw ffioedd rheoli, costau trafodion na threuliau. Nid yw mynegeion yn cael eu rheoli ac ni ellir buddsoddi'n uniongyrchol mewn mynegai.

Adenillion y Farchnad 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026

Adenillion (%)	12 mis hyd at 31 Mawrth 2026	
	Cyfrif (%)	Mynegai (%)
Cronfa Mynegai Ecwiti y DU Aquila	21.71	21.54
Cronfa Mynegai Ecwiti Ewrop Aquila Life	17.24	16.01
Cronfa Mynegai Marchnadoedd Datblygol iShares	27.50	26.81
Cronfa Ecwiti Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquilla Life	-2.04*	-1.32*
Cyfanswm y Gronfa	**20.24**	**-**

**Mae'r data a ddangosir o ddyddiad cychwyn y gronfa, ar ôl 31/03/2025.*
Ffynhonnell: BlackRock 2026.

Perfformiad BlackRock

Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd Prif Bortffolio Cronfa Bensiwn Dyfed wedi adennill 20.24%. Traciodd y cronfeydd a reolir yn oddefol y mynegeion y cânt eu rheoli yn unol â hwy. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd Prif Bortffolio Cronfa Bensiwn Dyfed wedi adennill 20.24%. Cyflawnodd strategaethau mynegai ecwiti adenillion cryf absoliwt ar draws ecwitïau'r DU, Ewrop a Marchnadoedd Datblygol, yn unol â'u meincnodau priodol yn fras, a thanberfformiodd Cronfa Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquila Life yn gymedrol o ran ei mynegai dros y cyfnod.

Rhagolygon y Farchnad Fyd-eang

Cyflawnodd marchnadoedd byd-eang adenillion cadarnhaol dros y flwyddyn ariannol diwethaf er gwaethaf cyfnodau o anwadalwch yn sgil newidiadau o ran disgwyliadau polisïau ariannol, tensiynau geowleidyddol a thwf economaidd anwastad. Ysgogwyd ecwitïau'r Unol Daleithiau gan stociau cysylltiedig ag AI a thechnoleg cap mawr , ac elwodd marchnadoedd y DU ac Ewrop ar gryfder yn y banciau a'r sectorau amddiffyn a gofal iechyd. Perfformiodd

marchnadoedd datblygol yn well na marchnadoedd datblygedig, yn sgil twf yn y galw am led-ddargludyddion oherwydd AI yng Ngogledd Asia, a chynyddodd ecwitïau Japan yn sgil disgwyliadau ar gyfer twf a pharhau i ddiwygio trefniadau llywodraethu corfforaethol.

Roedd marchnadoedd bondiau byd-eang yn anwadal iawn yn sgil chwyddiant, polisi'r banc canolog a datblygiadau geowleidyddol. Yn gyffredinol gostyngodd adenillion bondiau yn ystod cyfnodau o straen yn y farchnad wrth i fuddsoddwyr flaenoriaethu asedau mwy diogel, er bod pryderon ynghylch chwyddiant a chynaliadwyedd ariannol wedi arwain at adenillion uwch. Erbyn diwedd 2025, roedd y Gronfa Ffederal, Banc Canolog Ewrop a Banc Lloegr i gyd wedi lleihau cyfraddau llog wrth i chwyddiant a thwf arafu. Ar ddechrau 2026, mabwysiadwyd ymagwedd fwy gofalus oherwydd ansicrwydd newydd o ran chwyddiant a thensiynau yn dwysáu yn y Dwyrain Canol.

Roedd marchnadoedd eiddo y DU yn parhau i fod yn gymharol wydn er gwaethaf teimlad busnes gwannach a chefndir macroeconomaidd mwy ansicr. Mae eiddo tirol yn parhau i elwa o nodweddion incwm deniadol, tangyflenwad strwythurol mewn sectorau allweddol ac ailbrisio sylweddol ers 2022. Roedd galw buddsoddwyr cryfaf mewn sectorau a gefnogir gan dueddiadau strwythurol hirdymor, gan gynnwys logisteg, eiddo preswyl, gofal iechyd, tai myfyrwyr a chanolfannau data. Roedd y galw am asedau o ansawdd uchel mewn ardaloedd â chyflenwad cyfyngedig hefyd yn parhau'n gymharol gryf.

Amgylcheddol, Cymdeithasol, Llywodraethu (ESG)

Mae dull buddsoddi eang BlackRock wedi'i wreiddio yn ein dyletswydd ymddiriedol ac wedi'i lywio gan dair egwyddor: rydym yn dechrau drwy ddeall amcanion buddsoddi'r cleient; rydym yn ceisio'r adenillion gorau wedi'u haddasu o ran risg o fewn cwmpas y mandad y mae'n ei roi i ni; ac mae ein gwaith yn seiliedig ar ymchwil, data a dadansoddeg. Rydym yn defnyddio'r un dull ar gyfer cynaliadwyedd a'r gwaith o drawsnewid i economi carbon isel. Gan y gall risgiau hinsawdd a risgiau eraill o ran cynaliadwyedd fod yn risgiau buddsoddi, lle bo'n briodol, rhaid i'n prosesau ar draws cwmnïau eu hystyried fel pob mesur risg sylweddol arall.

Rydym yn gwneud hyn ar draws ein portffolios gweithredol mewn marchnadoedd cyhoeddus a phreifat. Yn dibynnu ar y dull buddsoddi, gall mesurau cynaliadwyedd helpu i lywio diwydrwydd dyladwy, proses llunio portffolio, a/neu brosesau monitro ein platfformau gweithredol ac asedau amgen, yn ogystal â'n dull o reoli risg. Mewn portffolio mynegai, yr amcan buddsoddi yw olrhain mynegai meincnod a bennwyd ymlaen llaw. Mae BlackRock yn ymgysylltu â darparwyr mynegai trydydd parti i gyfrannu at ddyluniad eu mynegeion er mwyn ateb galw cleientiaid. Mae BlackRock hefyd yn darparu datgeliad tryloyw ynghylch nodweddion portffolios mynegai.

Buddsoddi Cyfrifol

Yn BlackRock, stiwardiaeth buddsoddi yw un o'r ffyrdd yr ydym yn cyflawni ein cyfrifoldebau ymddiriedol fel rheolwr asedau i'n cleientiaid. Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn BlackRock wedi'i ganoli o fewn y tîm Stiwardiaeth Buddsoddi o dros 76 o arbenigwyr a lwyddodd i bleidleisio ynghylch 150,000+ o gynigion gyda 12,000+ ar draws 53 o farchnadoedd bob blwyddyn. O safbwynt BlackRock, gall rheolaeth gadarn ar faterion cynaliadwyedd sy'n berthnasol i fusnes gyfrannu at berfformiad ariannol hirdymor cynaliadwy cwmni. Gall ymgorffori'r ystyriaethau hyn yn yr ymchwil buddsoddi, llunio portffolio, a'r broses stiwardiaeth wella adenillion hirdymor wedi'u haddasu o ran risg i'n cleientiaid.

Pleidleisio yw ein ffurf fwyaf cyffredin o ymgysylltu â chwmnïau, gan ddarparu sianel ar gyfer adborth i'r bwrdd a rheolwyr am ganfyddiadau buddsoddwyr o'u perfformiad a'u harferion llywodraethu.

Mae BlackRock yn pleidleisio'n flynyddol mewn mwy na 16,000 o gyfarfodydd cyfranddalwyr, gan gymryd agwedd fesul achos at yr eitemau a roddir i bleidlais cyfranddalwyr. Mae ein dadansoddiad yn cael ei lywio gan ein canllawiau pleidleisio drwy ddirprwy a ddatblygwyd yn fewnol, ein hymrwymiadau cyn pleidleisio, ymchwil, a'r ffactorau sefyllfaol mewn cwmni penodol. Ein nod yw pleidleisio ym mhob cyfarfod cyfranddalwyr o gwmnïau y mae ein cleientiaid wedi buddsoddi ynddynt. Mewn achosion lle mae rhwystrau sylweddol i bleidleisio, megis blocio cyfranddaliadau neu ofynion am bŵer atwrnai, byddwn yn adolygu'r penderfyniadau i asesu graddau'r cyfyngiadau ar bleidleisio yn erbyn y buddion posibl.

Cronfa Carbon Isel

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn fuddsoddwr yng Nghronfa Ecwiti Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Aquila Life, sy'n olrhain Cyfanswm Adennill Net y Byd MSCI. Strategaeth addasedig yw hon ag eithriadau penodol sydd â'r nod o wneud y mwyaf o Sgôr Gwybodaeth Gynaliadwy BlackRock, gan dargedu cynnydd ymhlyg 2 radd neu is, lleihau allyriadau carbon a gwella refeniw gwyrdd yn amodol ar gyllideb risg.

Mae'r Gronfa yn ceisio darparu cyfanswm adenillion ar eich buddsoddiad (a gynhyrchir trwy werth yr asedau a ddelir a/neu'r incwm o'r asedau hynny) sydd, mewn amgylchiadau cyffredin, yn weddol debyg i broffil adenillion Mynegai Byd MSCI (y "Mynegai"). Yn ogystal, mae'n cynnal proffil risg (h.y. gwerthusiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r portffolio) sy'n debyg i broffil risg y Mynegai yn fras (ac eithrio lle mae cymhwyso meini prawf ESG y Gronfa, fel y disgrifir isod, yn arwain at wyriad o'r proffil adenillion neu'r proffil risg o'r Mynegai).

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Bleidleisio ac Ymgysylltu o ran Carbon Isel

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi symud o Gronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel y Byd ACS BlackRock i Gronfa Ecwiti Mewnwelediadau ESG y Byd PPC - Acquila Life, strategaeth bwrpasol sydd wedi'i datblygu ar gyfer PPC. Gan fod cyfrifoldebau pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer y mandad hwn yn cael eu dirprwyo i Robeco, nid yw BlackRock yn gallu darparu gwybodaeth bleidleisio ar gyfer y gronfa.

Y Gronfa Incwm Amgen Strategol

Gostyngodd Cyfanswm Chwyddiant (MPD) i 2.8% yn y 12 mis hyd at Ebrill 2026, ond mae gwrthdaro geowleidyddol parhaus wedi arwain at ddisgwyliadau o bwysau chwyddiant yn y misoedd i ddod i'r DU. O ganlyniad, daliodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc yn sefydlog ar 3.75% ym mis Ebrill 2026. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Gronfa Incwm Amgen ("y Gronfa") wedi parhau i sicrhau adenillion incwm deniadol yn gysylltiedig â chwyddiant. Dros y 12 mis diwethaf, arhosodd adenillion incwm ar +6.8% net yn Ch4'25 o gymharu â +6.9% net yn Ch4'24. Mae dull hyblyg, aml-strategaeth ac amrywiol iawn y Gronfa wedi galluogi ei buddsoddwyr i fanteisio ar gyfleoedd deniadol ar draws amrywiol gyfundrefnau marchnad yn ogystal â bod yn addas i lywio drwy gyfnod o chwyddiant, cyfraddau uwch ac ansicrwydd economaidd.

Perfformiad

Mae'r ffigurau a ddangosir yn ymwneud â pherfformiad yn y gorffennol. Nid yw perfformiad yn y gorffennol yn ddangosydd dibynadwy o ran canlyniadau presennol neu ganlyniadau yn y dyfodol ac ni ddylai fod yr unig ffactor i'w ystyried wrth ddewis cynnyrch neu strategaeth.

Mae hyn wedi'i lunio yn unol â'r fformat y gofynnwyd amdano gan Gronfa Bensiwn Dyfed.

Chwarter dros chwarter, o Ch4’25, cyflawnodd y Gronfa gyfanswm adennill net o -1.1%, gyda +1.7% ohono o incwm. Yn ystod 2025, cynhyrchodd y Gronfa gyfanswm adennill net o -5.5%, gyda +6.8% ohono o incwm. Mae pob cyfnod wedi'i gwblhau'n llawn ar Ch4'25. Ers Ch4'25, roedd SAIF wedi buddsoddi tua £1.7bn ar draws buddsoddiadau uniongyrchol a buddsoddiadau cronfeydd.

Mae tenor amcangyfrifedig llif arian y Gronfa'n dal i fod tua 9 mlynedd. Mae tua 75% o'r buddsoddiadau wedi'u lleoli yn y DU ac mae tua 68% yn gysylltiedig â chwyddiant naill ai'n benodol (h.y. trwy adolygiadau RPI/CPI) neu'n ymhlyg (trwy gyfraddau cyfnewidiol).

Fel roedd ar 31 Rhagfyr 2025, roedd SAIF yn dal 132 o fuddsoddiadau ar sail edrych drwodd ar draws 52 o fuddsoddiadau uniongyrchol a dau ymrwymiad cronfa.

Lleoli

£1.53 biliwn oedd cyfanswm y cyfalaf a ymrwymwyd yn SAIF ar ddiwedd 2025. Fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2025, roedd y Gronfa wedi gosod ymrwymiadau o bob un o'r 6 chyfnod. Mae gan y gronfa gyfanswm o 52 o Ddaliannau Uniongyrchol a 2 fuddsoddiad cronfeydd. Mae SAIF wedi cyflawni perfformiad cryf, gan berfformio 3.7% yn well na Stociau Gilt y DU ers ei sefydlu (2017).

Yn ystod 2025, defnyddiodd SAIF tua £12.0m o gyfalaf cynyddol a ymrwymwyd yn flaenorol ar draws sawl buddsoddiad. Ar wahân gadawodd y gronfa saith prosiect yn ystod 2025 sy'n rhychwantu Credyd Preifat, Dyled Seilwaith, Dyled Eiddo Tirol, ac Ecwiti Eiddo Tirol.

Rhagolygon

Mae cyfuniad o ffactorau - gan gynnwys tensiynau geowleidyddol parhaus, y broses barhaus o ailraddnodi perthnasoedd masnach byd-eang, a pharhad chwyddiant ar draws marchnadoedd datblygedig - wedi parhau i effeithio ar deimlad buddsoddwyr a phenderfyniadau dyrannu cyfalaf.

Parhaodd gweithgarwch economaidd y DU i adfer yn raddol, a disgwylir twf CDG cymedrol yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae'r llwybr chwyddiant yn parhau i fod yn anwastad ar draws marchnadoedd datblygedig. Mae'r DU ac Ardal yr Ewro wedi dilyn llwybrau chwyddiant cwbl wahanol trwy gydol y flwyddyn, gyda chwyddiant y DU yn gymharol fwy gwydn - wedi'i ysgogi'n rhannol gan gynnydd mewn prisiau rheoledig a threthiant.
Er bod disgwyl i'r pwysau i fyny hyn leihau dros amser, gan gefnogi culhau gwahaniaethau chwyddiant rhwng y rhanbarthau a dychwelyd yn raddol at darged chwyddiant 2% Banc Lloegr dros y tymor hwy, mae llawer o'r sefydlogrwydd macroeconomaidd disgwyliedig ar ddechrau 2026 wedi'i gwestiynu yn sgil y cynnydd yn y gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol. Mae anwadalrwydd cynyddol ym mhrisiau ynni a risgiau newydd o ran y cyflenwad bellach yn peri risg sylweddol o ran cynyddu chwyddiant a lleihau twf, gan gymhlethu'r rhagolygon polisi.

Tamryn Rowlands, Gyfarwyddwr

Schroders

Trosolwg

Mae Schroders wedi bod yn rheoli mandad ar wahân o eiddo tirol Dyfed ers mis Mawrth 2010. Yr amcan perfformiad yw perfformio 0.75% y flwyddyn yn well na'r meincnod (Mynegai Cronfa Eiddo Chwarterol MSCI / AREF UK – Cyfartaledd â Phwysoliad yr Holl Gronfeydd Penagored Cytbwys) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd. Ym mis Gorffennaf 2025, terfynwyd Cytundeb Rheoli Buddsoddiadau (IMA) Dyfed a'i ddisodli gan 'Cytundeb Rheoli Buddsoddiadau Trosiannol' (TIMA) i adlewyrchu trosglwyddiad buddsoddiadau'r gronfa sydd ar ddod i Gronfa Amrywiol Eiddo Tirol y DU Partneriaeth Pensiwn Cymru Schroders Capital (Cronfa Amrywiol y DU SCWPP). Dilëwyd y paramedrau buddsoddi a'r amcan perfformiad.

Prisiad portffolio Dyfed ar 31 Mawrth 2026 a oedd yn cynnwys y daliad yng Nghronfa Amrywiol y DU SCWPP yn ogystal â daliadau gweddilliol oedd £471.6 miliwn.

Rhagolygon y Farchnad Eiddo

Dros y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth 2026, cynyddodd gwerthoedd cyfalaf eiddo tirol y DU a fesurwyd gan Fynegai Chwarterol MSCI UK 0.6%, dan arweiniad gwelliannau yn y sectorau manwerthu (1.9%) a diwydiannol (1.7%), tra bod gwerthoedd preswyl a swyddfeydd yn lleihau. Mae'r cynnydd mewn gwrthdaro yn y Dwyrain Canol wedi cyflwyno ansicrwydd sylweddol i ragolygon marchnad macroeconomaidd ac eiddo tirol y DU, ac mae'r adferiad newydd a'r momentwm cadarnhaol a welwyd yn nifer y trafodion yn 2025, codi arian a symudiadau gwerth, mewn perygl o arafu. Fodd bynnag, mae buddsoddwyr yn fwyfwy cyfarwydd â gweithredu o dan ansicrwydd uwch a gallai unrhyw sefydlogi mewn amodau macro gefnogi adferiad cymharol gyflym mewn gweithgarwch. Yn ogystal, gallai eiddo tirol ddenu mewnlifiadau "hafan ddiogel" dethol, yn enwedig i asedau o ansawdd uchel mewn marchnadoedd craidd.

Ar draws cronfeydd anuniongyrchol bu tuedd barhaus o resymoli a chydgrynhoi cronfeydd craidd cytbwys sy'n cael eu gyrru gan Gynlluniau Pensiwn Buddion Diffiniedig sy'n diddymu swyddi wrth iddynt leihau risg eu portffolios (e.e. diddymu Lothbury Property Trust; ac uno Federated Hermes Property Unit Trust i L&G Managed Property Fund). Mae nifer o gronfeydd eraill yn parhau mewn trefniadau gohirio neu wedi'u hatal, wrth i'r rheolwyr ddelio â lefelau hanesyddol uchel o adbryniadau. Wrth fynd ymlaen, rydym yn disgwyl i'r Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gydgrynhoi eu buddsoddiadau mewn llai o ddaliadau mwy sy'n debygol o yrru mwy o uno cronfeydd, caffaeliadau a gweithdrefnau dirwyn i ben.

Perfformiad Portffolio Eiddo Tirol Dyfed

Dychwelodd portffolio Dyfed 1.2% net o'r holl ffioedd a chostau dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026. Y gronfa sy'n perfformio orau oedd Cora (cronfa swyddfa yng nghanol Llundain sy'n canolbwyntio ar wella cymwysterau ESG). Y gronfa fwyaf gwanhaol oedd UK Retirement Living Fund oherwydd bod cyflymder gwerthu yn arafach na'r disgwyl wrth i farchnad breswyl y DU barhau i wynebu anawsterau.

Trafodion / Strategaeth Portffolio

Roedd y gweithgarwch caffael dros y deuddeg mis diwethaf hyd at 31 Mawrth 2026 yn gyfanswm o oddeutu £1.9 miliwn o gyllid a dynnwyd i lawr i'r Social Supported Housing Fund a'r UK Retirement Living Fund Ym mis Rhagfyr 2025, symudodd y cleient £100 miliwn o arian parod i'r mandad a fuddsoddwyd yng nghronfa Schroders Sterling Liquidity ar gais y cleient. Dros y cyfnod o ddeuddeg mis derbyniwyd tua £38.1 miliwn o adbryniadau, dosbarthiadau cyfalaf ac enillion dirwyn i ben gan wahanol gronfeydd. Yn ogystal, trosglwyddwyd y daliad o oddeutu £19.8 miliwn yn Federated Hermes Property Unit Trust hefyd i L&G UK Managed Property Fund fel rhan o'r uno ar lefel y gronfa.

Yn Ch1 2026, aeth Cronfa Fuddsoddi Amrywiol y DU SCWPP yn fyw a throsglwyddwyd 11 cronfa a £45.9 miliwn o arian parod o fandad Dyfed i'r gronfa. Ar 31 Mawrth roedd daliad y cleient yng Nghronfa Fuddsoddi Amrywiol y DU SCWPP yn werth £239.8 miliwn (prisiad pris NAV). Bydd portffolio gweddilliol Dyfed sy'n cynnwys cronfeydd nad ydynt wedi'u cyfuno oherwydd nad ydynt yn cyd-fynd â'r strategaeth (e.e. cronfeydd dyled, cronfeydd effaith) neu sy'n gronfeydd sydd yn y broses o ddirwyn i ben, yn parhau i gael ei gadw ar sail gofal a chynnal a chadw nes y bydd y cleient yn cyfarwyddo fel arall. Roedd y portffolio gweddilliol yn werth £231.7 miliwn ar 31 Mawrth 2026 (gan gynnwys buddsoddiad y cleient yn Schroders Sterling Liquidity Fund). Byddwn yn parhau i adrodd ar gynnydd y portffolio gweddilliol ynghyd â Chronfa Fuddsoddi Amrywiol y DU SCWPP yn ein hadroddiadau chwarterol.

Ymrwymiad Schroders i fod yn Sero Net

Gosododd Schroders Capital darged portffolio gyfan yn 2019 i gyflawni carbon sero net erbyn 2050 ar draws ein buddsoddiadau eiddo tirol fel rhan o'n hymrwymiad i'r **Ymrwymiad Hinsawdd y Better Building Partnership .** Yn 2020 fe wnaethom ddatblygu ein **Llwybr Carbon Sero Net (NZC)**, wedi'i alinio â Fframwaith Llwybr NZC y Better Buildings Partnership (BBP). Er mwyn hwyluso'r gwaith o gyrraedd y targed hwn, fe wnaethom ddatblygu llwybrau lleihau ynni a dwysedd carbon ar lefel asedau a chronfeydd wedi'u halinio â llwybrau seiliedig ar wyddoniaeth[1] 1.5°C y Monitor Eiddo Tirol Risg Carbon (CRREM) yn 2021 ar gyfer cyfran o'n portffolio a gynhelir yn uniongyrchol. Diwygiwyd y rhain yn 2023 i gyfrif am fethodoleg CRREM wedi'i diweddaru. Yn ystod 2024, gwnaethom ail-lunio gwaelodlin cynhwysfawr o'n hasedau tirol uniongyrchol a lefel gyllid, perfformiad carbon sero net a phennu targedau dros dro. Roedd y broses hon yn cynnwys sawl methodoleg a gwelliannau data megis ehangu cwmpas yr allyriadau a ddalwyd, amcangyfrif o ddata coll yn seiliedig ar ddefnydd ynni, a diweddariadau i fframweithiau lefel sector a chanllawiau ar gyfer dadansoddi carbon sero net. Arweiniodd hyn at dargedau Carbon Sero Net diwygiedig a nodi argymhellion ymyrraeth datgarboneiddio.

Mae portffolio eiddo tirol Dyfed yn cynnwys cronfeydd trydydd parti a reolir yn allanol a chronfeydd a reolir gan Schroder. Mae ein gallu i ddylanwadu ar berfformiad a chael data hinsawdd a charbon sero net perthnasol yn amrywio ar draws y cronfeydd hyn. Ar gyfer cronfeydd a reolir gan Schroder, mae gan Schroders Capital reolaeth dros reoli a gweithredu adeiladau ac felly gall ddylanwadu a chefnogi'r flaenoriaeth a'r ymagwedd at yr hinsawdd a

[1] CRREM Byd-eang. Y Monitor Eiddo Tirol Risg Carbon (CRREM) yw'r brif fenter fyd-eang ar gyfer sefydlu targedau ar gyfer allyriadau carbon gweithredol ("mewn defnydd") ar gyfer buddsoddiadau eiddo tirol sefydlog sy'n gyson ag uchelgeisiau cytundeb Paris. Rhyddhaodd CRREM lwybrau datgarboneiddio yn gyhoeddus sy'n cyfleu'r uchelgais o gyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5°C a 2°C erbyn diwedd y ganrif i lwybrau rhanbarthol a math eiddo penodol y gall asedau eiddo tirol a phortffolios meincnodi eu hunain yn eu herbyn.

chynaliadwyedd ehangach trwy alinio'r cronfeydd hynny â **Pholisi Buddsoddi Cynaliadwy Schroders Capital ar gyfer Eiddo Tirol.** Rydym yn annog defnyddio archwiliadau carbon sero net ac adolygiadau cynnydd ar lefel gronfa, lle mae angen cyfateb yn agos â'n methodolegau safonol a'n hymagweddau asesu (yn cynnwys alinio â senarios CRREM 1.5C). Ar gyfer y cronfeydd hyn, rydym yn cael adroddiadau GRESB a setiau data ategol, sy'n cael eu coladu'n ganolog a'u defnyddio ar gyfer monitro data perfformiad, ardystiadau adeiladau a pherfformiad EPC ymhlith dangosyddion risg eraill.[2]

Mewn perthynas â chronfeydd trydydd parti a reolir yn allanol, lle efallai nad oes gyda ni reolaeth weithredol o'r asedau, mae ein hymagwedd at sefydlu aliniad buddsoddiadau â llwybrau Carbon Sero Net wedi'i chyfyngu i geisio dylanwadu ar bartneriaid buddsoddi a buddsoddwyr trwy ymgysylltu a chydweithio. Trwy Arolygon ESG rydym yn ceisio deall cyfran y buddsoddiadau sy'n cyd-fynd â tharged Carbon Sero Net i gyrraedd llwybrau 1.5C, a'r fframweithiau a'r amserlenni a ddefnyddir i osod y rhain (e.e. CRREM, Menter Targed Seiliedig ar Wyddoniaeth (SBTi)).

Mae'r allbynnau o ymatebion yr Arolwg ESG ac adroddiadau GRESB yn golygu y gallwn adrodd ar allyriadau Cwmpas 1,2 a 3 (sy'n gysylltiedig ag ynni tenantiaid) ar gyfer cyfran o'r portffolio, wedi'i bwysoli yn ôl gwerth buddsoddi. Nid ydym ar hyn o bryd yn casglu allyriadau Cwmpas 3 ehangach (h.y. allyriadau sy'n ffoi, allyriadau ymgorfforedig, dŵr, gwastraff ac ati) Nid yw hyn yn adrodd nodweddiadol ar gyfer buddsoddiadau eiddo tirol. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i adolygu ein hallbynnau adrodd yn erbyn arferion gorau lefel sector i sicrhau ein bod yn cyd-fynd â disgwyliadau cleientiaid a'r farchnad. Rydym yn aelodau o sawl grŵp sector eiddo tirol sy'n canolbwyntio ar asesu ac adrodd hinsawdd a charbon sero net gan gynnwys y Sefydliad Tir Trefol (ULI), BBP, Grŵp Buddsoddwyr Unigol ar Newid Hinsawdd (IIGCC), Cyngor Busnes y Byd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (WBCSD) a GRESB, ac sy'n cyfrannu at ymgynghoriadau fframwaith i sicrhau ein bod yn para'n gyfredol. Rydym wedi ymrwymo i ddiffiniad Ymrwymiad Hinsawdd BBP o 'wrthsefyll yr hinsawdd.[3]

Ar gyfer cyfrifo Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) a datgelu data hinsawdd sy'n gysylltiedig ag allyriadau, rydym yn dilyn yr egwyddorion fel y nodir yn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr a'r Bartneriaeth ar gyfer Egwyddorion Cyfrifyddu Carbon ('PCAF')[4]. Darperir y metrigau sydd ar gael isod ar 31 Rhagfyr 2025 (diwedd y chwarter cyn trosglwyddo daliadau i Cronfa Fuddsoddi Amrywiol Graidd y DU PPC).

[2] Mae GRESB yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan genhadaeth ac a arweinir gan fuddsoddwyr sy'n darparu data Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) gweithredadwy a thryloyw i farchnadoedd ariannol. Mae GRESB yn darparu fframwaith cyson i fesur perfformiad ESG cwmnïau a chronfeydd eiddo tirol.

[3] Ymrwymiad Hinsawdd BBP | Better Buildings Partnership

[4] PCAF, https://carbonaccountingfinancials.com/

Proffil Allyriadau Carbon	
Gwerth Portffolio Ch4 2025	**£472,585,054**
Arian Parod	**£149,434,128**
Gwerth Portffolio ac eithrio Arian Parod Ch4 2025[1]	**£323,150,925**

Union Allyriadau[2]		**Union Allyriadau a rhai Amcangyfrifedig[3]**	
% o'r portffolio lle adroddwyd allyriadau	31.1%	% o'r portffolio sy'n cael ei gynnwys drwy allosodiad	36.3%
£ o'r portffolio lle adroddwyd allyriadau	£100,451,332	£ o'r portffolio lle adroddwyd allyriadau	£117,154,007
Cwmpas 1 allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	19	Cwmpas 1 allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	21
Cwmpas 2 allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	68	Cwmpas 2 allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	77
Cwmpas 3 allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	1129	Cwmpas 3 allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	1457
Cyfanswm allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	1216	Cyfanswm allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO_2e)	1555
Ôl Troed Carbon (tCO_2e/£m)	12.1	Ôl Troed Carbon (tCO_2e/£m)	13.3
Allyriadau heb eu hadrodd[4]			
% o'r portffolio sydd heb ei gynnwys	63.7%		
£ o'r portffolio lle nad adroddwyd allyriadau	£205,996,918		

Sylwch fod ein dadansoddiad yn dibynnu ar ddata a adroddir i ni gan drydydd partïon ac nad yw wedi'i archwilio. Mae'r holl ddata allyriadau a adroddwyd o gyflwyniadau cronfa GRESB 2024 ac mae'n cynrychioli'r set ddata flynyddol ddiweddaraf sydd ar gael

[1] Mae'r holl gyfrifiadau yn seiliedig ar werth portffolio ac eithrio arian parod.

[2] Rydym yn lluosi canran perchnogaeth y cleient ym mhob un o'i fuddsoddiadau cronfa sylfaenol ag allbwn allyriadau carbon y gronfa briodol mewn tunelli fel yr adroddwyd gan bob Rheolwr Cronfa. Caiff allbwn pob cronfa ei grynhoi i greu cyfanswm allyriadau.

[3] Lle nad oes gennym 3% o ddata mewn unrhyw un gronfa, rydym wedi allosod y data hyd at 100% o ddata drwy dybio bod yr asedau hynny sydd â data ar goll yn cynhyrchu'r un allyriadau â chyfartaledd yr holl asedau lle mae data wedi'i adrodd.

[4] Cronfeydd lle nad oes gennym ddata nwyon tŷ gwydr yw'r rhain.


Naomi Green - Rheolwr y Gronfa

Partners Group


Trosolwg

Mae Partners Group Red Dragon LP yn buddsoddi mewn ystod eang o gyfleoedd eiddo tirol Ewropeaidd y gellir eu cyrchu trwy brif fuddsoddiadau, buddsoddiadau eilaidd a buddsoddiadau uniongyrchol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd y portffolio heb ei wireddu yn cynnwys saith buddsoddiad uniongyrchol, naw o drafodiadau eilaidd a deg prif ymrwymiad, gan ddangos portffolio amrywiol o ran mathau o fuddsoddiadau, sectorau a rhanbarthau daearyddol (gweler y graffeg isod). Mae'r portffolio yn y cam creu a gwireddu gwerth ac mae'n parhau i ddyrannu i Gronfa Bensiwn Dyfed.

Asedau'r portffolio yn ôl gwlad



Asedau'r portffolio yn ôl sector



Gweithgarwch ymadael

Dros y 12 mis blaenorol hyd at chwarter cyntaf 2026, mae'r rhaglen wedi gwneud dyraniadau o 2.3 biliwn GBP ac wedi gwireddu dau fuddsoddiad yn llawn ym mis Rhagfyr 2025, gan gynnwys, Sveafastigheter Fersen (0.94x), ar ôl gwerthu ei ased olaf - Solaris Center, sef datblygiad defnydd cymysg ag arwynebedd llawr gwaelod o 43'000 metr sgwâr yn Talinn, Estonia - yn dilyn proses werthu hir a ddechreuodd ddiwedd 2024. Yn yr un mis, gwireddodd y rhaglen hefyd ei buddsoddiad yn Paloma Real Estate Fund I (1.68x), sef rhaglen vintage 2015 sy'n cynnwys buddsoddiadau gwerth ychwanegol yn y DU.

Derbyniodd y rhaglen hefyd adenillion o'r buddsoddiadau eraill yn ei phortffolio yn ystod y cyfnod o 12 mis. Ym mis Ebrill 2025, dyrannodd European Budget Hotel Platform (Marmor Co-Investment) gyfalaf pellach oedd yn deillio o ad-dalu ei nodyn benthyciad gwerthwr ar ôl gwerthu'r ased i'w sylfaenydd a'i brif gyfranddaliwr. Ym mis Mehefin 2025, dyrannodd Sbaen PRS 1 adenillion ar ôl ail-ariannu ei bortffolio. Ym mis Medi 2025, dyrannodd Scandinavian Fund Portfolio (Racso) yr adenillion oedd yn weddill o ddadfuddsoddi rhannol ym mhortffolio menter ar y cyd LAK Real Estate (a ddaliwyd drwy NREP Nordic Strategies Fund III), sef platfform defnydd cymysg sy'n cynnwys logisteg, swyddfeydd, gwestai ac asedau preswyl ger Maes Awyr Helsinki. Ym mis Rhagfyr 2025, dyrannodd Osae Real Estate Partners Fund I adenillion o werthu'r Grand Hôtel Vivienne 43 ystafell wely yn ail arrondissement Paris.

Yn ystod chwarter cyntaf 2026, dyrannodd Italian Residential Portfolio (Italian PRS) adenillion yn dilyn ail-ariannu a gwerthu'r rhan fwyaf o'r 54 o fflatiau Corso Magenta, sef adeilad preswyl

5'084 metr sgwâr yn Milan. Derbyniodd y rhaglen adenillion hefyd yn dilyn ail-ariannu dyled UK Logistics Portfolio (Dove), sef portffolio o asedau diwydiannol ysgafn yn y DU. Yn ogystal, gwnaeth NREP Nordic Strategies Fund II, cronfa vintage 2016 sy'n buddsoddi mewn eiddo tirol gwerth ychwanegol yn Sgandinafia a buddsoddiadau corfforaethol, ddyraniad ar ôl gwerthu ei bortffolio preswyl yn Denmarc.

Buddsoddiadau newydd

Ni wnaeth y rhaglen unrhyw ymrwymiadau newydd yn ystod y 12 mis diwethaf, o gofio bod y portffolio yn dirwyn i ben. Ni alwodd y rhaglen am gyfalaf yn y 12 mis cyn chwarter cyntaf 2026.

Sylwadau ynghylch perfformiad

Trosolwg o'r Farchnad Eiddo Tirol Preifat

Parhaodd y farchnad eiddo tirol fyd-eang â'i hadferiad yn ystod chwarter cyntaf 2026, wedi'i gefnogi gan welliant o ran gweithgarwch trafodion, er bod momentwm wedi arafu o gymharu â'r adlam cryfach a welwyd ddiwedd 2025. Mae'r cymedroli hwn yn adlewyrchu cefndir macroeconomaidd mwy cymhleth, gyda phrisiau ynni cynyddol a chwyddiant parhaus yn cyflwyno anwadalrwydd newydd i'r disgwyliadau o ran cyfraddau llog. Mae datblygiadau geowleidyddol diweddar wedi ychwanegu at yr ansicrwydd hwn, gan gyfrannu at oedi wrth ddarganfod prisiau ac, mewn rhai achosion, o ran gweithgarwch trafodion. O ganlyniad, er bod prisiadau wedi sefydlogi yn gyffredinol a bod y galw gan feddianwyr yn parhau i fod yn wydn ar draws rhai rhannau, mae'r adferiad yn fwyfwy dethol ac anwastad ar draws rhanbarthau a sectorau. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r amgylchedd presennol yn atgyfnerthu pwysigrwydd defnyddio cyfalaf mewn modd disgybledig, gyda buddsoddwyr yn blaenoriaethu sectorau sydd â sbardunau cryf o ran y galw strwythurol.

Codi arian eiddo tirol

Roedd swm codi arian eiddo tirol preifat yn gyfanswm o 44.0 biliwn USD yn chwarter cyntaf 2026, sy'n ostyngiad sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, er bod y gymhariaeth hon yn cael ei dylanwadu gan sylfaen uchel yn y flwyddyn flaenorol a elwodd o sawl codiad arian mawr. Yn fwy cyffredinol, mae symiau codi arian yn parhau i fod yn is nag uchafbwyntiau cylchoedd blaenorol, er y cafwyd adferiad rhannol yn 2025, gan adlewyrchu detholusrwydd parhaus buddsoddwyr.

Newidiodd y strategaeth ddyrannu yn ystyrlon yn ystod y chwarter, gyda strategaethau gwerth ychwanegol yn cyfrif am oddeutu 56% o'r cyfalaf a godwyd, tra bod strategaethau oportiwnistaidd wedi gostwng yn sylweddol o lefelau'r flwyddyn flaenorol. Roedd strategaethau dyled yn parhau i fod yn elfen bwysig, gan bwysleisio'r galw parhaus am asedau sy'n canolbwyntio ar incwm. Ar lefel sectorau, cronfeydd sy'n canolbwyntio ar ddiwydiant a gipiodd y gyfran fwyaf o gyfalaf, gan gyfrif am bron i hanner cyfanswm yr arian a godwyd, tra bod dyraniadau i'r sectorau preswyl a lletygarwch - elfennau craidd y sector byw - yn parhau i fod yn sylweddol. Mae'r tueddiadau hyn yn adlewyrchu ffocws ehangach ar sectorau a gefnogir gan alw strwythurol hirdymor, yn enwedig y sector byw a'r sector diwydiannol, sydd wedi sbarduno'r rhan fwyaf o'r gwerth a grëwyd mewn eiddo tirol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Er bod y symiau yn is yn gyffredinol, roedd yr amodau codi arian wedi gwella o ran ansawdd. Mae tua dwy ran o dair o'r cronfeydd a gaewyd yn ystod y cyfnod wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau, a chafwyd gostyngiad yn y cyfnod cyfartalog y mae'r gronfa yn gwneud cyfalaf i

oddeutu 19 mis o gymharu ag oddeutu 24 mis yn 2024/25. Mae hyn yn arwydd o amgylchedd codi cyfalaf mwy effeithlon, ond mwy detholus, lle mae llwyddiant yn cael ei bennu fwyfwy gan fynediad at gyfleoedd gwahaniaethol a galluoedd o ran gweithredu. Ar yr un pryd, mae'r amgylchedd presennol sydd wedi'i gyfyngu o ran cyfalaf yn creu cyfleoedd deniadol mewn buddsoddiadau eilaidd eiddo tirol, lle mae Partners Group yn cynnal piblinell fyd-eang gref a gefnogir gan y galw am hylifedd, bylchau ariannu mewn cynlluniau busnes, anghenion hylifedd wrth ymadael i gronfeydd sy'n dod i aeddfedrwydd, a dyledion sydd ar fin dod i aeddfedrwydd a fyddai'n achosi dadleoli strwythurau cyfalaf ac ail-brisio asedau sylfaenol o ansawdd da.

Gweithgarwch buddsoddi eiddo tirol

Parhaodd gweithgarwch trafodion eiddo tirol byd-eang i adfer yn chwarter cyntaf 2026, gydag asedau sy'n cynhyrchu incwm yn dod i gyfanswm o oddeutu 214 biliwn USD, sef cynnydd o tua 20% o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r adferiad hwn yn parhau i fod yn anwastad ar draws y rhanbarthau, gydag America - yn enwedig yr Unol Daleithiau - yn parhau i arwain gweithgarwch, wedi'i gefnogi gan welliant o ran cysoni prisiau a chyfranogiad ehangach y sector. Cofnododd Asia a'r Môr Tawel welliant mwy cymedrol yn gyffredinol, gyda chryfder wedi'i ganolbwyntio mewn marchnadoedd dethol fel Singapore, tra bod Ewrop yn llusgo yng nghanol ansicrwydd macroeconomaidd a sensitifrwydd parhaus i'r disgwyliadau o ran cyfraddau llog.

Ar lefel sectorau, mae'r adferiad anwastad hwn yn cael ei lunio gan dueddiadau cynyddol wahanol o ran perfformiad. Mae'r sector diwydiannol yn parhau i fod yn un o'r marchnadoedd mwyaf cymhellol mewn eiddo tirol byd-eang, tra bod y sector preswyl a lletygarwch yn parhau i elwa o ddeinameg ddemograffig ffafriol ac anghydbwysedd strwythurol o ran y cyflenwad a'r galw. Gyda'i gilydd, mae'r sectorau hyn wedi bod yn brif sbardunau creu gwerth ar draws eiddo tirol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac maent yn parhau i fod yn brif ffocws i fuddsoddwyr. Ar yr un pryd, wrth i beta cyffredinol marchnadoedd ddod yn anoddach i'w nodi, mae cyfalaf yn cael ei grynhoi fwyfwy yn y meysydd â mwy o argyhoeddiad, gyda pherfformiad wedi'i sbarduno'n llai gan sensitifrwydd cyffredinol y farchnad ac yn fwy gan ddewis a gweithredu asedau.

Mae'r newid hwn yn arbennig o amlwg yn y sector diwydiannol, lle mae perfformiad wedi'i wasgaru fwyfwy ar draws marchnadoedd, asedau a phroffiliau tenantiaeth. Er bod strwythurau cryf, fel e-fasnach, ad-drefnu'r gadwyn gyflenwi, a symud gweithgarwch yn ôl adref, yn parhau i gefnogi'r galw ar draws rhanbarthau, mae'r canlyniadau yn dod yn fwy dibynnol ar ddeinameg y farchnad leol a nodweddion asedau penodol. O ganlyniad, gall fformatau mwy gronynnol â sawl tenant gynnig gwytnwch gwahanol o ran incwm, ond gall asedau logisteg mwy fod yn fwy agored i grynhoad tenantiaid ac elfennau cylchol sy'n sbarduno galw.

Yn fwy cyffredinol, mae'r amgylchedd hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd tanysgrifennu disgybledig a gweithredu yn sbardunau allweddol perfformiad o ran eiddo tirol.

Ffynonellau: Adroddiad Codi Arian PERE Ch1 2026; MSCI Real Capital Analytics, Tueddiadau Cyfalaf Byd-eang Ch1 2026; Ymchwil Partners Group.

Datblygu portffolio

Ar 31 Mawrth 2026, Gwerth Asedau Net y rhaglen yw 35.2 miliwn GBP. O fewn y cyfnod, parhaodd lluosrif buddsoddiad net Partners Group Red Dragon yn sefydlog ar 1.30x yn y 12 mis diwethaf. Mae tanysgrifennu darbodus a rheolaeth weithredol Partners Group yn parhau i gefnogi creu gwerth yn ei fuddsoddiadau portffolio, wrth werthuso cyfleoedd dadfuddsoddi yn barhaus.

ESG mewn Eiddo Tirol yn Partners Group – Cyflawni uchelgeisiau sero net

Yn Partners Group, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgorffori ffactorau amgylcheddol, ochr yn ochr â ffactorau cymdeithasol, llywodraethu a masnachol, yn ein fframwaith buddsoddi a rheoli risg cyffredinol. Rydym wedi datblygu offer a phrosesau penodol i sicrhau bod ystod o ffactorau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio'n drylwyr drwy gydol cylch bywyd ein buddsoddiadau, o gyrchu hyd at berchnogaeth.

Fel buddsoddwr cyfrifol, mae Partners Group wedi bod yn asesu ac yn rheoli risgiau ac effeithiau cysylltiedig â'r hinsawdd mewn perthynas â'r buddsoddiadau a wnaed ar ran ein cleientiaid ers blynyddoedd lawer. Fel cwmni, rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at allyriadau carbon sero net ar draws ein sefydliad cyfan a rheoli ein portffolio buddsoddi tuag at nodau Cytundeb Paris. Mabwysiadodd Partners Group y Fframwaith Buddsoddi Sero Net (NZIF), sef meincnod pwysig o ran cydymffurfio ag amrywiol reoliadau cynaliadwyedd. Fe wnaethom sefydlu Targedau Cysoni Asedau hirdymor ar gyfer ein portffolio Ecwiti Preifat, Seilwaith a Chredyd yn unol ag egwyddorion NZIF. Bydd Targedau Cysoni Asedau Eiddo Tirol yn cael eu datblygu yn 2026.

Katherine Wildey, Client Solutions

Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 gyda'r nod o sicrhau:

- arbedion maint
- trefn gref o ran llywodraethu a gwneud penderfyniadau
- llai o gostau a gwerth gwych am arian, a
- gwell capasiti a gallu i fuddsoddi mewn seilwaith


Mae PPC yn un o'r wyth cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol sy'n bodoli'n genedlaethol, ac mae'n gyfuniad o'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae gan yr wyth cronfa hanes hir, llwyddiannus o gydweithio, gan gynnwys tendr cydweithredol ar gyfer un darparwr ecwiti goddefol i gronfeydd Cymru, sy'n rhagddyddio menter gyfuno'r Llywodraeth.

Mae rheoli buddsoddiadau ar y cyd yn cynnig y potensial i arbed ar ffïoedd buddsoddi, cyfleoedd i ehangu portffolios buddsoddi, gwell trefn o ran pleidleisio ac ymgysylltu, yn ogystal â mynediad at wybodaeth ac arfer gorau a rennir. Er bod PPC yn gyfrifol am ddarparu atebion buddsoddi cydweithredol, mae pob awdurdod cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu ei strategaeth fuddsoddi ei hun.

Mae model gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i ddylunio i fod yn hyblyg ac i roi gwerth am arian. Penodwyd Gweithredwr cronfa allanol gan PPC ac mae'n defnyddio ymgynghorwyr allanol i gael yr arbenigedd gorau i gefnogi'r modd y mae'r Gronfa'n cael ei rhedeg. Y Gweithredwr yw Waystone Management (UK) Limited (Waystone) ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Russell Investments i ddarparu atebion rheoli buddsoddiadau effeithiol a darparu perfformiad cryf heb gynnwys ffioedd i'r holl Awdurdodau Cyfansoddol.

Llywodraethu

Mae PPC yn manylu sut mae'n ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu trwy ei Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) a gymeradwywyd gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ym mis Mawrth 2017. Mae'r IAA yn diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Aelodau, Pwyllgorau a Swyddogion ac mae'n cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid, mae PPC wedi sefydlu strwythur llywodraethu cadarn:



Wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yw:

- Cyngor Sir Caerfyrddin (Awdurdod Cynnal)
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Yr Awdurdodau Cyfansoddol sydd ar frig strwythur llywodraethu PPC. Maent yn cadw rheolaeth ar yr holl waith mae PPC yn ei wneud ac yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC, yn ogystal â'i Gredoau a'i Amcanion.

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn goruchwylio ac yn adrodd ar PPC ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd sy'n aelod cyfetholedig o'r cynllun (nad yw'n pleidleisio).

Mae'r Gweithgor Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu ac mae'n cynnwys ymarferwyr a swyddogion Adran 151 o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn Awdurdod Cynnal ar gyfer PPC, ac yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd Cymreig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae Waystone (Gweithredwr) yn cynnal ystod eang o wasanaethau ar gyfer PPC, sy'n cynnwys hwyluso dulliau buddsoddi ac is-gronfeydd, adrodd am berfformiad, gweithredu trosglwyddo a monitro rheolwyr a thrafodaethau am ffioedd. Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith sy'n pennu dyletswyddau contractiol y Gweithredwr ac yn rheoli'r berthynas rhwng y Gweithredwr a Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion, gyda chefnogaeth Hymans Robertson, yn goruchwylio'r gwaith mae Waystone yn ei wneud ar ran PPC. Mae Waystone yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol drwy:

- Ymgysylltu uniongyrchol – presenoldeb mewn cyfarfodydd pwyllgor pensiwn blynyddol
- Ymgysylltu anuniongyrchol – gydag Awdurdodau Cyfansoddol gyda'i gilydd drwy'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a'r Gweithgor Swyddogion.

Mewn cydweithrediad â Waystone, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau datrysiadau rheoli buddsoddiad i PPC ac maent yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu dulliau buddsoddi.

Northern Trust yw'r Gronfa ar gyfer dull ACS PPC ac mae'n darparu nifer o wasanaethau gan gynnwys benthyca gwarannau, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth ac adrodd.

Hymans Robertson yw Ymgynghorydd Goruchwylio PPC ac mae ei rôl yn cwmpasu goruchwylio a rhoi cyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau.

Burges Salmon yw ymgynghorwyr cyfreithiol PPC, ac maent yn darparu cyngor cyfreithiol mewn perthynas â chronfeydd a reoleiddir yr FCA, trefniadau treth a llywodraethu, gan gynnwys cynorthwyo â phrosesau caffael cymhleth.

Mae Robeco UK wedi'i benodi'n ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC ac mae'n gyfrifol am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio PPC ac ymgymryd â gweithgaredd ymgysylltu ar ran PPC.

Credoau PPC yw'r sail ar gyfer fframwaith llywodraethu PPC ac maent wedi cael eu defnyddio i lywio holl weithgarwch a phenderfyniadau'r PPC, gan gynnwys ei hamcanion a'i pholisïau.

Mae PPC, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu set o bolisïau llywodraethu. Ym mhob achos mae polisïau a gweithdrefnau PPC wedi'u datblygu i ategu gweithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Gellir gweld polisïau, cofrestri a chynlluniau allweddol PPC ar wefan PPC.

Mae Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i PPC ers ei sefydlu yn 2017. Cynhaliwyd amryw weithgareddau i weithio tuag at uchelgais PPC o ddod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. I ddechrau, roedd y ffocws ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol ac ers hynny mae PPC wedi llunio ei Bolisi Risg Hinsawdd ei hun ac wedi gweithio gyda'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio. Mae Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC wedi'i sefydlu i gymryd perchnogaeth o ffrydiau gwaith a chamau gweithredu sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol sy'n ofynnol i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed ym mholisïau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

Mae Cynllun Busnes a Llawlyfr Llywodraethu PPC a'r holl bolisïau eraill y manylir arnynt yn y siart uchod i'w gweld ar wefan PPC:

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

Risg

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da, ac mae PPC wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn sy'n ceisio nodi a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i reoli'r risgiau hyn. Datblygwyd Polisi Risg PPC yn y fath fodd fel y gellir rhagweld a delio â risgiau mewn modd cyflym, effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i PPC a'i randdeiliaid.

Mae PPC yn cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Is-grŵp Risg penodol sy'n adrodd yn ôl i'r Gweithgor Cyllid a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu bob chwarter.

Hyfforddiant

Mae gan PPC ei bolisi hyfforddi ei hun ac mae'n datblygu cynllun hyfforddi blynyddol sydd wedi'i gynllunio i ategu cynlluniau hyfforddi presennol yr Awdurdod Cyfansoddol. Bydd Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi lleol tra bydd cynllun hyfforddiant PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cyfuno cronfeydd PPC. Hefyd darperir hyfforddiant sefydlu i holl aelodau newydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Cynnydd cyfuno hyd yn hyn

Nod Partneriaeth Pensiwn Cymru yw darparu atebion buddsoddi sy'n galluogi'r Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain o ran arbedion cost sylweddol, gan barhau i gyflawni perfformiad buddsoddi ar gyfer eu rhanddeiliaid. Mae PPC wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r amcan hwn, o lansio'r tair is-gronfa ecwiti weithredol gyntaf yn 2019 hyd at lansio'r rhaglenni Buddsoddi Marchnadoedd Preifat cychwynnol yn 2023. Ochr yn ochr â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, mae hyn yn golygu bod PPC bellach wedi cyfuno 75% o'r asedau.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd cyfanswm asedau Awdurdodau Cyfansoddol PPC yn £28.8bn, ac mae £23.5bn o hyn yn y gronfa; gweler y manylion isod:

Dosbarth o Asedau	**Rheolir gan**	**Dyddiad lansio**	**31 Mawrth 2026 £000**	**%**
Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang	Russell Investments	Chwefror 2019	3,777,538	13.1
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	Russell Investments	Chwefror 2019	3,518,894	12.2
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	Russell Investments	Medi 2019	898,662	3.1
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	Russell Investments	Hydref 2021	358,345	1.2
Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	Russell Investments	Mehefin 2023	1,714,186	6.0
Cronfa Credyd Byd-eang	Russell Investments	Gorffennaf 2020	1,348,780	4.7
Cronfa Bond Llywodraeth Fyd-eang	Russell Investments	Gorffennaf 2020	515,955	1.8
Cronfa Credyd y DU	Waystone Management (UK) Ltd	Gorffennaf 2020	888,276	3.1
Cronfa Credyd Aml-asedau	Russell Investments	Gorffennaf 2020	974,694	3.4
Cronfa Bond Elw Absoliwt	Russell Investments	Medi 2020	812,857	2.8
Seilwaith	GCM Grosvenor, IFM, CBRE ac Octopus	Mawrth 2023	926,220	3.2
Credyd Preifat	Russell Investments	Ebrill 2023	424,331	1.5
Ecwiti Preifat	Schroders Capital	Hydref 2023	245,641	0.9
Eiddo	Schroders, CBRE	February 2026	1,181,140	4.1
Buddsoddiadau Goddefol	BlackRock	Mawrth 2016	5,881,749	20.5
Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto			5,278,710	18.4
Cyfanswm Buddsoddiadau ar draws pob un o'r 8 Cronfa Bensiwn			**28,745,978**	**100**

Rhannu asedau buddsoddi rhwng Cronfa Bensiwn Dyfed a PPC:

	31 Mawrth 2026 £000	**%**
Cronfa Tyfu Byd-eang	1,240,514	31.2
Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	205,990	5.2
Cronfa Credyd Byd-eang	397,603	10.0
Seilwaith	82,914	2.1
Chredyd Preifat	93,511	2.3
Asedau Amgen	23,132	0.6
Eiddo	239,822	6.0
Ecwitïau Goddefol	1,285,066	32.3
Buddsoddiadau heb eu cyfuno eto	407,983	10.3
Cyfanswm Asedau Buddsoddi	**3,976,535**	**100**

Costau Cyfuno

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel yr Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn gyfrifol am ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol a chydgysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd y CPLIL yng Nghymru. Mae cyllideb Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i chynnwys yng Nghynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru a chaiff ei chymeradwyo'n flynyddol gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Cynnal a'r Ymgynghorwyr Allanol (y costau rhedeg) yn cael eu hariannu'n gyfartal (oni bai bod prosiectau penodol wedi'u cytuno ar gyfer Cronfeydd unigol) gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cael eu hailgodi arnynt yn flynyddol. Y swm a ailgodwyd ar Gronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 oedd £272k, gweler y tabl isod. Yn ystod 2025-26 cyflawnodd Cronfa Bensiwn Dyfed arbedion o ran ffioedd y rheolwr buddsoddi o £4.4m drwy gyfuno â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (2024-25: £3.7m).

Yn ogystal â'r costau rhedeg, mae costau trosglwyddo hefyd sy'n gysylltiedig â throsglwyddo asedau i'r gronfa, a gellir categoreiddio'r costau hyn o ran costau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae costau uniongyrchol yn cynnwys costau penodi rheolwr trosglwyddo i ymgymryd â'r trosglwyddo, ynghyd ag unrhyw oruchwyliaeth ychwanegol o'r broses hon a wneir o safbwynt ymchwil ac adfyfyrio. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys costau penodol ac ymhlyg, megis comisiynau, lledaeniad ac effaith a chostau cyfle a elwir yn Ddiffyg Gweithredu. Gellir priodoli costau trosglwyddo'n uniongyrchol i'r asedau sy'n cael eu trosglwyddo ac felly cânt eu didynnu o'u gwerth asedau net yn hytrach na chodi tâl uniongyrchol i'r Gronfa.

Ceir manylion y costau a ysgwyddir gan Gronfa Bensiwn Dyfed mewn perthynas â PPC isod.

2024-25 £000	**Costau cyfuno Partneriaeth Pensiwn Cymru**	**2025-26 £000**
23	Costau'r Awdurdod Cynnal	24
218	Costau Ymgynghorwyr Allanol	248
241	**Cyfanswm**	**272**

Costau Rheoli Buddsoddiadau Parhaus a Dyraniad a Pherfformiad Asedau

Mae'r tabl isod yn dangos y costau rheoli buddsoddiadau a rannwyd rhwng y rhai a ddelir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (gan gynnwys yr ecwitïau goddefol) a'r rhai a ddelir y tu allan i Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

	Cronfa Asedau				**Cronfa Di-asedau**				**Cyfanswm y Gronfa**	
	Uniongyrchol £000au	**Anuniongyrchol £000au**	**Cyfanswm £000au**	**bps**	**Uniongyrchol £000au**	**Anuniongyrchol £000au**	**Cyfanswm £000au**	**bps**	**£000au**	**bps**
Ffioedd Rheoli	206	2,457	2,663	7	1,013	1,050	2,063	51	4,726	58
Costau cronfa asedau a rannwyd	272	0	272	1	0	0	0	0	272	1
Costau trafodion	0	2,751	2,751	8	0	256	256	6	3,007	14
Y Ddalfa	0	229	229	1	41	0	41	1	270	2
Arall	0	13	13	1	0	0	0	0	13	1
Cyfanswm	**478**	**5,450**	**5,928**	**18**	**1,054**	**1,306**	**2,360**	**58**	**8,288**	**76**

Dyraniad a Pherfformiad Asedau

Categori Ased	**Gwerth Agoriadol**		**Gwerth wrth Gau**		**Perfformiad (1 flwyddyn)**	**Mynegai**
	£000au	**%**	**£000au**	**%**	**%**	**%**
Asedau Cyfun						
Goddefol DU	425,821	12.0	492,982	12.4	21.71	21.54
Goddefol Ewropeaidd	52,222	1.5	51,995	1.3	17.24	16.26
Goddefol Marchnadoedd Datblygol	210,131	5.9	267,909	6.7	27.50	26.81
Carbon Isel y Byd ACS	404,034	11.3	0	0.0	n/a	n/a

Cronfa Ecwiti ESG y Byd	0	0.0	472,180	11.9	n/a	n/a
Twf Byd-eang	1,142,787	32.1	1,240,514	31.2	13.72	17.47
Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	181,911	5.1	205,990	5.2	13.24	17.47
Gweithredol Incwm Sefydlog	336,993	9.4	397,603	10.0	4.29	4.45
Seilwaith	56,448	1.6	82,914	2.1	3.00	n/a
Credyd Preifat	69,806	1.9	93,511	2.3	1.87	n/a
Asedau Amgen	0	0	23,132	0.6	n/a	n/a
Eiddo	0	0	239,822	6.0	n/a	n/a
Asedau Cyfun	**2,880,153**	**80.8**	**3,568,552**	**89.7**		
Asedau heb eu cyfuno eto						
Eiddo	404,300	11.4	260,237	6.6	n/a	n/a
Asedau amgen	131,559	3.7	130,785	3.3	3.86	n/a
Ecwitïau Gweithredol	139,054	3.9	0	0.0	n/a	n/a
Arian Parod	7,414	0.2	16,961	0.4	n/a	n/a
Asedau heb eu cyfuno	**682,327**	**19.2**	**407,983**	**10.3**		
Cyfanswm Asedau	**3,562,480**	**100**	**3,976,535**	**100**		

Amcanion 2026-27

Yn ystod 2025-26, cyflwynodd PPC ei phumed Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol gan lwyddo i gadw ei statws llofnodwr o ran Côd Stiwardiaeth y DU. Cyhoeddodd PPC ei hail Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (AWCR) a, gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan cyntaf, lansiodd ei chronfa ecwiti goddefol byd-eang bwrpasol ei hun gyda BlackRock, yn ogystal â lansio'r rhaglenni buddsoddi Eiddo Tirol cyntaf. Mae PPC hefyd wrthi'n cwblhau ei Hadroddiad Effaith Cymru gyfan cyntaf, a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2026-27.

Enillodd PPC wobrau Arloesi Buddsoddi LGC a LAPF eleni, i gydnabod dull PPC sy'n canolbwyntio'n lleol o ran buddsoddi effaith leol yng Nghymru – gan ysgogi twf economaidd, cefnogi busnesau bach a chanolig a chreu cyfleoedd cyflogaeth hirdymor. Cafwyd adborth rhagorol gan y ddau banel beirniadu. Dywedodd un y canlynol, "Our winner provided a best-in-class example of concrete, innovative, place-based investing with rigour and keen focus on returns required to meet fiduciary requirements" ac roedd y llall yn canmol creadigrwydd PPC

wrth gysylltu buddsoddiad sefydliadol â'r economi go iawn, gan ei ddisgrifio fel model sy'n gallu ehangu a allai ysbrydoli mentrau tebyg mewn mannau eraill, a'i bod yn enghraifft wych o arloesi gyda chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd pendant. Mae buddsoddi effaith leol yn parhau i fod yn un o amcanion allweddol PPC yn 2026-27.

Yn dilyn Ymgynghoriad Addas ar gyfer y Dyfodol 2024, mae'r Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC i barhau i fod yn gronfa fuddsoddi annibynnol i Gymru. Mae hyn yn creu cyfle unigryw i sefydlu canolfan ragoriaeth sylweddol mewn buddsoddiadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, gan greu cyfleoedd gyrfa gwerthfawr wrth wella sector gwasanaethau ariannol Cymru. Mae symud ymlaen i weithredu'r achos busnes wedi bod yn ffocws allweddol i PPC dros y deuddeg mis diwethaf. Sefydlwyd Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP IM Co) ym mis Awst 2025, a chafodd Rob Lamb ei benodi'n Brif Weithredwr ym mis Medi 2025. Cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ym mis Tachwedd 2025 ac mae'r holl Swyddogaethau Uwch-reolwr angenrheidiol wedi'u penodi. Cyflwynwyd cynllun busnes cychwynnol Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar 10 Mawrth, ac wedi hynny cafodd ei gymeradwyo gan yr holl Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r cwmni yn barod i weithredu cyn gynted ag y caiff gymeradwyaeth gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Benthyca Gwarannau

Dechreuodd benthyca gwarannau ym mis Mawrth 2020. Rhennir refeniw ar sail 85:15 rhwng Partneriaeth Pensiwn Cymru a Northern Trust ac mae'r holl gostau ar gyfer rhedeg y rhaglen benthyca gwarannau yn cael eu tynnu o gyfran Northern Trust o raniad y ffi. Mae lleiafswm o 5% o swm enwol pob daliant ecwiti unigol yn cael ei ddal yn ôl ac mae uchafswm o 25% o gyfanswm Asedau Dan Reolaeth ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Cafodd gwasanaeth adalw dirprwyol ei weithredu ym mis Rhagfyr 2023.

Cyfanswm LF Cymru yn ystod 2025-26 oedd £2,017,927 (gros) / £1,715,305 (net) gyda £415,345,172 ar fenthyg ar 31 Mawrth 2026.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Ffurflen Flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru a gyhoeddir ar wefan Partneriaeth Pensiwn Cymru - Cronfa Bensiwn Cymru | Cartref (partneriaethpensiwncymru.org)

PIRC Limited (Pension and Investment Research Consultants)

Sut wnaeth y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol berfformio?

- Mae'r enillion yn cael eu heffeithio gan ffactorau gwleidyddol ac economaidd byd-eang ac felly nid ydyn nhw'n cael eu cyflawni'n gyson.
- Fodd bynnag, mae cronfeydd wedi profi 30 mlynedd o ganlyniadau cadarnhaol yn y 38 diwethaf.
- Fodd bynnag, mae'r cronfeydd wedi gweld canlyniadau cadarnhaol mewn 30 o'r 38 mlynedd diwethaf.
- Dros y cyfnod mae cronfeydd wedi cyflawni enillion cyfartalog o 8% y flwyddyn.
- Mae canlyniadau tymor hwy wedi cael hwb gan yr enillion cryf yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae'r gronfa gyfartalog wedi cyflawni enillion o tua 7% dros y rhan fwyaf o gyfnodau tymor hwy.
- Mae'r holl gronfeydd wedi cyflawni enillion ymhell cyn chwyddiant dros bob cyfnod.

Y Flwyddyn Ddiwethaf

- Cafodd perfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf ei yrru gan y canlyniadau cryf a gyflawnwyd gan ecwiti.
- Cafodd bondiau effaith ar enillion cyffredinol.
- Mae buddsoddiadau eraill hefyd yn cyflawni enillion ymhell is na rhai ecwiti.
- Daeth eiddo ag enillion cymedrol am yr ail flwyddyn.

Canlyniadau Tymor Hirach

- Mae'r canlyniadau gorau dros y tymor hwy wedi'u cyflawni gan ecwitïau.
- Mae ecwitïau'r DU wedi tanberfformio portffolios ecwiti byd-eang yn sylweddol dros y tymor hwy.
- Mae bondiau wedi cael effaith ddramatig ar berfformiad yn achos y rhan fwyaf o gronfeydd. Mae'r adenillion isel sydd ar gael yn sgil dyroddiadau llywodraeth wedi ysgogi newid sylweddol i ddyled breifat.
- Mae seilwaith ac ecwiti preifat wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad cyffredinol y rhan fwyaf o gronfeydd tra bod dewisiadau eraill wedi cyflawni canlyniadau gwael ar gyfartaledd.

Strwythurau Cronfeydd

- Er eu bod wedi gostwng dros y degawd diwethaf, ecwitïau yw elfen fwyaf bron pob cronfa o hyd, a hynny o bell ffordd.
- Dim ond newid cymedrol sydd wedi bod ar lefel uchel i strwythur asedau dros yr 9 mlynedd diwethaf. Yn hytrach mae'r newid wedi bod o fewn y prif ddosbarthiadau asedau wrth i gronfeydd barhau i amrywio i fwy fyth o fathau o asedau a phortffolios.
- Mae'n fwyfwy anodd deall beth mae cronfeydd yn ceisio'i gyflawni o'r amrywio a sut mae mesur llwyddiant hynny.

Perfformiad Cronfa Bensiwn Dyfed

- Roedd enillion y Gronfa o 12.4% ymhell yn uwch na'r cyfartaledd, gan ei osod yn y 12fed canradd am y flwyddyn.
- Roedd perfformiad ecwiti yn gryf, gan ddod yn y 27ain canradd ac ychwanegu 1% at yr enillion cymharol.

- Mewn blwyddyn lle roedd ecwiti yn cyflawni'r enillion gorau o bell ffordd, cafodd dyraniad cymharol uchel y Gronfa i'r maes hwnnw effaith gadarnhaol fawr, gan ychwanegu bron i 2% at y canlyniad cyffredinol.

Perfformiad Tymor Hwy

- Mae'r Gronfa ymhell ar y blaen o'r cyfartaledd, ac mae yn y chwartel uchaf ym mron pob cyfnod ac yn y degradd uchaf dros y tymor hwy.
- Mae dyraniad asedau'r Gronfa - yn enwedig ei dyraniad uchel i ecwiti wedi bod yn ffactor pwysig yn y perfformiad rhagorol.

	3 Blynedd	5 Mlynedd	10 Mlynedd	20 Mlynedd	30 Mlynedd
Cronfa Bensiwn Dyfed (%)	8.8	5.9	8.2	7.1	7.8
Cymedrol (%)	7.4	5.8	7.6	6.6	7.1
Safle	18	35	13	9	4
Chwyddiant MPD (%)	2.0	4.6	3.4	2.9	2.4

Risg ac Adenillion – Y Pum Mlynedd Diwethaf

- Dros y pum mlynedd diwethaf mae'r Gronfa wedi profi anwadalrwydd uwch na'r cyfartaledd ond mae wedi trosi hynny'n enillion uwch na'r cyfartaledd – canlyniad effeithlon iawn.

Karen Thrumble, PIRC Limited (Pension and Investment Research Consultants)

Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

Cafodd marchnadoedd buddsoddi byd-eang, dros y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026, eu llunio gymaint gan ddigwyddiadau ar ddechrau a diwedd y flwyddyn â digwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Dechreuodd y flwyddyn gyda thariffau "Diwrnod Rhyddhad" yr Arlywydd Trump a wnaeth daro marchnadoedd ecwiti yn ôl dros 10%, ac mae eu cymedroli dilynol wedi gosod yr olygfa ar gyfer adlam cryf iawn o ran asedau risg, ac mae rhyfel yr Unol Daleithiau / Israel ar Iran, a ddechreuodd ar 28 Mawrth, wedi achosi cynnydd sylweddol yn y disgwyliadau o ran chwyddiant a chyfraddau llog ers diwedd y flwyddyn. Rhwng yr adegau hyn, mae tueddiadau macroeconomaidd ysgafn wedi sbarduno marchnadoedd cyffredinol gadarnhaol. Parhaodd twf (yn araf yn Ewrop, ond yn gryfach yn yr Unol Daleithiau, lle mae enillion corfforaethol wedi parhau i dyfu'n gyflym, wedi'u sbarduno gan wariant cyfalaf ar ddeallusrwydd artiffisial a thoriadau treth sy'n cefnogi defnydd) ac roedd y disgwyliadau o ran chwyddiant yn tueddu tuag i lawr yn araf, gan fod effeithiau'r tariffau wedi'u hamsugno'n well na'r disgwyl; ac, o ganlyniad, mae'r banciau canolog wedi gallu torri cyfraddau llog yn raddol.

Ond gyda phrisiadau marchnadoedd ecwiti yn agos at uchafbwyntiau hanesyddol yn y rhan fwyaf o ranbarthau y tu allan i'r DU a marchnadoedd datblygol, a chyllid llywodraethau o dan straen yn y rhan fwyaf o wledydd datblygedig, bu cyfnodau o nerfusrwydd. Yn benodol, roedd y marchnadoedd yn poeni am gau rhai cronfeydd dyled preifat mawr, gan achosi pryder am risgiau posibl yn y farchnad sy'n tyfu'n gyflym; a chafwyd cywiriad yn y sector technoleg yn dilyn pryderon am y symiau enfawr o gyfalaf sy'n cael eu buddsoddi yn y ras deallusrwydd artiffisial/canolfannau data, a bygythiad cystadleuaeth gost is o Tsieina (Deepseek). Yn olaf, yn sgil gwleidyddiaeth afreolus a chyllid llywodraethau sydd o dan straen mae adenillion bondiau 10 mlynedd yn parhau i godi, gan gyrraedd uchafbwynt o 4.6% yn yr Unol Daleithiau, a dros 5% yn y DU, lle mae ansicrwydd gwleidyddol yn ychwanegu premiwm. Mae bondiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, o ganlyniad, bellach yn cynnig adenillion diddorol o dros 2% (ar ôl cynnig adenillion negyddol am y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf!)

Ers diwedd y flwyddyn ym mis Mawrth, fodd bynnag, mae risgiau geowleidyddol wedi dwysáu ymhellach, gyda gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol a diffyndollaeth gynyddol yn cyfrannu at bwysau newydd o ran chwyddiant, a'r Gronfa Ariannol Ryngwladol yn rhagweld y bydd twf byd-eang yn arafu i 3.1% yn 2026 o ganlyniad i hynny. Er bod polisi afreolus yr Unol Daleithiau yn gwneud y rhagolygon yn ansicr, mae marchnadoedd eto yn disgwyl twf real ychydig yn arafach o oddeutu 2% yn yr Unol Daleithiau ac o dan 1% mewn marchnadoedd datblygedig eraill, ac yn uwch mewn marchnadoedd datblygol. Gydag effaith y gwrthdaro yn Iran, mae'r disgwyliadau hirdymor o ran chwyddiant wedi codi i 3-3.5% ar gyfer y DU a'r Unol Daleithiau, a dros 2% ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, gan adael ychydig o gyfle i dorri cyfraddau llog ac, yn wir, risg y bydd rhywfaint o gynnydd. O ystyried y lefelau dyled uchel a chyllidebau tynn llywodraethau, mae'n debygol na fydd cyfraddau hirdymor (sy'n bwysicach o ran llywio prisiadau asedau a rhwymedigaethau) yn gostwng llawer.

Mae chwyddiant a chyfraddau llog ill dau yn cael effaith fawr ar eich Cronfa, gan effeithio ar yr adenillion buddsoddi a chost pensiynau – yr ochr "rhwymedigaethau" fel y'i gelwir.

Yn gyntaf, adenillion buddsoddi: cafodd marchnadoedd ecwiti byd-eang flwyddyn gref arall, er gwaethaf y dechrau anffafriol (tariffau) a'r diwedd (rhyfel Iran), gan ddychwelyd 17.5% yn nhermau GBP, ac maent wedi cryfhau eto yn y cyfnod ers diwedd y flwyddyn. Newid arall oedd

mai'r marchnadoedd datblygol oedd y rhanbarth a berfformiodd orau, i fyny +26.8%, ac yna y DU (+21.5%), tra bo'r Unol Daleithiau ar ei hôl hi, wrth i'r stociau technoleg mawr wastatau oherwydd pryderon am ddwysedd cyfalaf a pharhaodd yr USD i gwympo'n is. Cynhyrchodd bondiau corfforaethol byd-eang adenillion boddhaol o +4.5. Yn olaf, dychwelodd asedau amgen 4.9% a dychwelodd eiddo'r DU 4.3%, wrth i chwyddiant parhaus atal y toriadau disgwyliedig yng nghyfraddau'r DU. O ystyried y rhagolygon ynghylch twf sy'n arafu a'r risg i gyfraddau llog hirdymor yn sgil y gwrthdaro yn Iran, mae'n debyg y dylem ddisgwyl adenillion mwy cymedrol yn y flwyddyn gyfredol.

Yn ail, rhwymedigaethau: eleni, cynhaliwyd prisiad actiwaraidd teirblwydd rheolaidd y Gronfa ar 31 Mawrth 2025. Roedd hyn yn dangos sefyllfa ariannu sylweddol well, ac yn caniatáu gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr ar gyfer y cyfnod 3 blynedd nesaf. Mae hefyd yn cyfiawnhau strategaeth y Gronfa, sef dal pwysau uwch na'r cyfartaledd mewn asedau risg uwch ac adenillion uwch (yn enwedig ecwiti). Mae'r prisiad yn cyflwyno rhagdybiaethau newydd, gan gynnwys cyfradd ddisgownt uwch y Fynegai Prisiau Defnyddwyr, + 2.7% (neu 5.3% ym mis Mawrth '25), sy'n adlewyrchu'r adenillion sy'n ofynnol gan asedau'r gronfa.

Rwy'n falch o ddweud bod Cronfa Bensiwn Dyfed wedi parhau i gynhyrchu llif arian cyfredol digonol i dalu pensiynau, a chyda pherfformiad rhyfeddol o gryf gan farchnadoedd ecwiti, mae'r Gronfa wedi cynhyrchu blwyddyn arall o adenillion cryf, er y cyfraddau hirdymor sy'n codi'n barhaus ar asedau eiddo a marchnadoedd preifat: mae'r Gronfa wedi cynhyrchu adenillion cyffredinol cryf o +12.4% yn ystod y flwyddyn. Mae'r adenillion yn y tymor hirach dal yn uwch na'r 5.7% y flwyddyn sy'n ofynnol dros y tymor hir gan brisiad actiwaraidd Mawrth 2025: 8.8% y flwyddyn dros y 3 blynedd diwethaf, a 8.2% dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn golygu ei bod ar y blaen i'r Gronfa CPLIL gyfartalog (7.4% dros 3 blynedd, 7.6% y flwyddyn dros 10 mlynedd), a'i bod yn dal yn y chwartel uchaf dros y 10 mlynedd.

Mae eich pwyllgor wedi canolbwyntio ar barhau i sicrhau bod y Gronfa yn gallu darparu adenillion hirdymor, cynaliadwy i aelodau, yn ogystal â chydymffurfio â dymuniad y Llywodraeth newydd i ddiwygio'r diwydiant pensiynau, felly byddaf yn ymdrin â phob un o'r rheiny ychydig yn fwy manwl.

Datblygu ein dyraniad asedau tuag at dargedau dosbarth asedau a Charbon. Y llynedd, parhaodd y Pwyllgor i wneud cynnydd wrth symud y portffolio tuag at ei dargedau strategol: cytunodd ar ymrwymiadau ychwanegol i ail gyfran cronfeydd marchnadoedd preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru, sef £75m i gredyd preifat PPC a £50m i seilwaith PPC, er mwyn cynnal y dyraniad ar y targed o 5%, neu'n agos iddo, dros amser; ariannwyd y dyraniad newydd o £100m i eiddo effaith leol PPC yn Ch1, ac mae'n barod i'w fuddsoddi wrth i gyfleoedd godi; ac, wrth i farchnadoedd ecwiti barhau i berfformio'n gryf, fe wnaeth y Pwyllgor ailgydbwyso £60m o ecwiti byd-eang yn Ch1, gan gynyddu'r sefyllfa o ran credyd byd-eang sefydlog hyd at ei ddyraniad o 10%. Mae hyn hefyd yn rhoi hwb i'r llif arian sydd ar gael o fuddsoddiadau, a fydd yn helpu i lenwi'r bwlch a adawyd gan y cyfraniadau llai gan gyflogwyr a grybwyllwyd uchod.

Mae'r Pwyllgor bob amser yn ymwybodol o'i ymrwymiad i leihau dwysedd carbon y Gronfa, ac rwy'n falch o adrodd bod dwysedd carbon ecwiti y Gronfa wedi parhau i ostwng, i lawr 18% eleni, yn bennaf oherwydd gweithredoedd ein rheolwyr gwaelodol. Ond mae eich Pwyllgor wedi

newid y dyraniad o 10% a gedwir yn ecwiti carbon isel Blackrock i strategaeth bwrpasol newydd PPC, sy'n parhau i dargedu carbon isel, a hefyd yn ychwanegu targed ar gyfer allyriadau carbon sy'n edrych ymlaen ac yn targedu cwmnïau â refeniw "gwyrdd" yn gadarnhaol.

Datblygu Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Mae gweithredu diwygiad "Addas i'r Dyfodol" y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi bod yn brif ffocws i'ch Pwyllgor a'ch swyddogion eleni, yn dilyn cymeradwyaeth PPC y llynedd yn un o'r chwe chronfa barhaus. Yn y cyd-destun hwn, rwy'n falch o adrodd bod strwythurau cyfreithiol a llywodraethu Cwmni Rheoli Buddsoddiadau newydd PPC wedi'u sefydlu, ac mae'n agos at sicrhau cofrestriad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ac mae Rob Lamb, y Prif Swyddog Gweithredol, wedi recriwtio i'r prif swyddi. Erbyn mis Mawrth 2026, roedd Cronfa Bensiwn Dyfed wedi trosglwyddo dros 95% o'i hasedau i fuddsoddiadau a reolir gan PPC, gyda'r 4.2% sy'n weddill wedi'u buddsoddi yn asedau'r farchnad breifat (Partners Group a BlackRock SAIF) a reolir gan dîm asedau etifeddol PPC maes o law.

I gloi, mae Cronfa Bensiwn Dyfed mewn sefyllfa gref o hyd, gyda lefel gyllido gadarn a strategaeth fuddsoddi sydd nid yn unig wedi gadael iddi leihau'r cyfraniadau cyflogwr, ond sydd yn cymryd gofal i sicrhau bod y Gronfa yn buddsoddi mewn modd cynaliadwy, er budd yr holl randdeiliaid.

Adrian Brown, Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol

Adran 3 – Gweinyddu'r Gronfa

Cyflwyniad

Mae'r Gronfa Bensiwn yn cael ei rheoli gan Reoliadau a gyhoeddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. O dan ddarpariaethau Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru) 1995, trosglwyddwyd swyddogaeth yr awdurdod gweinyddu i Gyngor Sir Caerfyrddin. Er bod cyfraniadau'r gweithwyr a'r buddion sy'n daladwy yn cael eu pennu gan Reoliadau, mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu hasesu yn actiwaraidd bob tro y prisir gwerth y Gronfa ac mae'r meysydd lle gellir arfer disgresiwn yn amodol ar bolisïau lleol sy'n cael eu pennu gan bob Cyflogwr sy'n rhan o'r Gronfa.

Newidiodd y cynllun o fod yn gynllun cyflog terfynol i fod yn gynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE) ar 1 Ebrill 2014. Os oeddech yn aelod gweithredol o Gynllun 2008 ar 31 Mawrth 2014, byddwch wedi cael eich trosglwyddo'n awtomatig i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 ar 1 Ebrill 2014.

Mae prif ddarpariaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 fel a ganlyn

- Cronni Buddion - O 1 Ebrill 2014 ymlaen, bydd gennych gyfrif pensiwn fesul cyflogaeth, a gredydir yn flynyddol â'r swm pensiwn yr ydych wedi'i gronni o 1 Ebrill tan 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy gwirioneddol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth ac ar gyfradd gronni o 1/49fed. Yna bydd eich cyfrif pensiwn yn cael ei adbrisio'n flynyddol bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Bydd eich aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2014 yn cael ei hamddiffyn ac yn parhau i gael ei chyfrifo ar sail cyflog terfynol adeg eich ymddeoliad, gan gyfeirio at eich cyflog pensiynadwy ar adeg eich ymddeoliad a than ddiffiniad 2008 o gyflog pensiynadwy.
- Cyfandaliad Di-dreth - gall unigolion drawsnewid rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad di-dreth ychwanegol, ar sail £12 am bob £1 o'r pensiwn. Defnyddir y buddion a grynhowyd hyd at (a chan gynnwys) 31 Mawrth 2008 yn awtomatig i dalu Cyfandaliad Di-dreth pan fyddwch yn ymddeol.
- Opsiwn 50/50 - mae gennych yr opsiwn o dalu hanner eich cyfraniad arferol, ac yn gyfnewid am hyn byddwch yn derbyn hanner y pensiwn yn ystod y cyfnod hwn. Ond byddwch yn cadw'r ddarpariaeth lawn o ran salwch a marwolaeth yn ystod y cyfnod hwn.
- Oedran Pensiwn Arferol - bydd eich Oedran Pensiwn Arferol yn gysylltiedig â'ch Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, felly bydd unrhyw newidiadau yn eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn effeithio ar eich Oedran Pensiwn Arferol.
- Pensiwn ychwanegol os byddwch yn ymddeol ar sail afiechyd.
- Marwolaeth mewn Swydd - Cyfandaliad Di-dreth sy'n werth teirgwaith y cyflog blynyddol yn daladwy i'r ystâd. Hefyd mae buddion Priod, Partneriaid Sifil, a Dibynyddion yn daladwy.
- Gall pensiwn partner sy'n cyd-fyw hefyd fod yn daladwy os bodlonir amodau penodol.
- Marwolaeth ar ôl ymddeol - Pensiwn Priod, Pensiwn Dibynyddion ac mewn rhai amgylchiadau Cyfandaliad ar Farwolaeth.
- Trosglwyddo Hawliau Pensiwn naill ai i gynllun cymeradwy cyflogwr newydd neu i gynllun pensiwn personol cymeradwy.

- Mae gan weithwyr sy'n gadael gyda mwy na 2 flynedd o wasanaeth (neu lai na 2 flynedd o wasanaeth pan fo taliad trosglwyddo wedi'i dderbyn) hawl i Bensiwn Cadwedig wedi'i Warchod rhag Chwyddiant sy'n daladwy ar gyrraedd Oedran Ymddeol Arferol.
- Gellir talu cyfraniadau pensiwn ychwanegol i gynyddu'r buddion pensiwn.

Codiadau Pensiwn

Mae pensiynau'n cael eu hadolygu'n flynyddol bob mis Ebrill o dan y Ddeddf Cynyddu Pensiynau fel y pennwyd yn y ddeddfwriaeth Nawdd Cymdeithasol yn unol â'r cynnydd yng nghanran y gwahanol fudd-daliadau gwladol. Maent yn cael eu pennu yn ôl y cynnydd canrannol yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr hyd at y mis Medi blaenorol.

Eleni, cafwyd cynnydd o 3.8% mewn pensiynau o 6 Ebrill 2026 ymlaen, sy'n cynrychioli'r cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros y cyfnod o 12 mis hyd at 30 Medi 2025. Fel rheol mae'r cynnydd mewn pensiynau'n berthnasol i bensiynwyr sy'n 55 oed neu'n hŷn, neu sydd wedi ymddeol ar unrhyw oed ar sail afiechyd neu sy'n derbyn pensiwn eu priod neu bensiwn plentyn. Bydd pensiynwr a ymddeolodd yn ystod y flwyddyn ariannol yn derbyn y gyfran briodol o'r cynnydd.

Mae'r dyddiadau talu Pensiynau Llywodraeth Leol ar gyfer 2026-27 fel a ganlyn

Ebrill 2026	30/04/2026	Hydref 2026	30/10/2026
Mai 2026	29/05/2026	Tachwedd 2026	30/11/2026
Mehefin 2026	30/06/2026	Rhagfyr 2026	24/12/2026
Gorffennaf 2026	31/07/2026	Ionawr 2027	29/01/2027
Awst 2026	28/08/2026	Chwefror 2027	26/02/2027
Medi 2026	30/09/2026	Mawrth 2027	31/03/2027

Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae'r Gronfa Bensiwn yn parhau i fod yn rhan o'r fenter atal twyll a drefnir gan Swyddfa Archwilio Cymru, lle mae'r data a ddarperir yn cynnwys manylion Pensiwn Galwedigaethol a manylion y Gyflogres, yn Weithwyr Cyflogedig a Phensiynwyr. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chymharu â data cyrff cyhoeddus eraill, sy'n helpu i sicrhau:

- bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o arian cyhoeddus
- na thelir pensiwn i berson sydd wedi marw, a
- bod Pensiwn Galwedigaethol ac incwm trwy gyflogaeth yn cael eu datgan gan y sawl sy'n hawlio Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Y diweddaraf am ddeddfwriaeth

Buddion Partneriaid sy'n Cyd-fyw - Mae rheoliadau'r Cynllun yn nodi y bydd pensiwn goroeswr yn daladwy'n awtomatig i bartner sy'n cyd-fyw heb fod angen i'r aelod o'r cynllun fod wedi cwblhau ffurflen yn ei enwebu i gael pensiwn goroeswr. Er mwyn bod yn gymwys i gael y buddion hyn mae'n rhaid bod yr amodau rheoleiddio canlynol yn berthnasol ichi a'ch partner:

- Gall unigolyn A briodi neu ffurfio partneriaeth sifil gyda B,
- Mae unigolion A a B yn byw gyda'i gilydd fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil,

- Nid yw A na B yn byw gyda thrydydd person fel pe baent yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil, a
- Naill ai mae B yn ddibynnol yn ariannol ar A neu mae A a B yn dibynnu ar ei gilydd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth a meini prawf cymhwyso drwy un ai gysylltu â'r adain bensiynau neu drwy'r wefan. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud newidiadau pellach i fuddion goroeswyr er mwyn sicrhau bod gofynion cydraddoldeb yn cael eu bodloni. Pan fydd canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi, byddwn yn cysylltu â'r aelodau y bydd hyn yn effeithio arnynt.

Cyfraddau Cyfrannu y Gweithiwr

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 wedi diwygio'r dull o asesu eich cyfradd gyfrannu o dâl pensiynadwy 'cyfwerth ag amser llawn' i'ch 'tâl pensiynadwy **gwirioneddol'.** Mae cyfraniadau pensiwn hefyd yn daladwy ar oramser. Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw pennu cyfradd enillion a chyfraniadau'r aelodau, ynghyd â rhoi gwybod i'r Gronfa am hyn. Lle bo gan aelod fwy nag un swydd gyda Chyflogwr, bydd angen asesiad ar wahân ar gyfer pob swydd.

Y canlynol yw'r bandiau enillion a'r cyfraddau cyfrannu a fydd yn berthnasol o fis Ebrill 2026 ymlaen:

Tabl Cyfraniadau ar gyfer 2026-27			
Band	**Cyflog Pensiynadwy Gwirioneddol ar gyfer swydd**	**Y Gyfradd Gyfrannu ar gyfer y Swydd honno**	
		Prif Adran	Adran 50 / 50
1	Hyd at £18,400	5.5%	2.75%
2	£18,401 i £29,000	5.8%	2.9%
3	£29,001 i £47,300	6.5%	3.25%
4	£47,301 i £59,800	6.8%	3.4%
5	£59,801 i £84,000	8.5%	4.25%
6	£84,001 i £119,100	9.9%	4.95%
7	£119,101 i £140,400	10.5%	5.25%
8	£140,401 i £210,700	11.4%	5.7%
9	£210,701 neu fwy	12.5%	6.25%

Diogeliadau Tanategu Statudol

Mae diogeliadau ar gael os ydych yn nesáu at oedran ymddeol, er mwyn sicrhau y byddwch yn cael pensiwn sy'n gyfwerth o leiaf â'r hyn y byddech wedi'i gael pe na bai'r cynllun wedi newid ar 1 Ebrill 2014. Gelwir y math hwn o ddiogeliad yn 'tanategu'.

Mae hyn yn berthnasol i chi os oeddech:

- yn talu i mewn i'r Cynllun ar 31 Mawrth 2012, ac
- o fewn 10 mlynedd i'ch Oedran Pensiwn Arferol ar 1 Ebrill 2012,
- os nad ydych wedi cael bwlch anghymwysol o fwy na 5 mlynedd yn eich gwasanaeth,
- os nad ydych wedi tynnu allan unrhyw fuddion o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn eich Oedran Pensiwn Arferol ac
- eich bod yn gadael â hawl i gael buddion yn syth.

Bydd yr Adain Bensiynau yn cynnal y cyfrifiad tanategu'n awtomatig pan fyddwch yn gadael y Cynllun. Bydd ailgyfrif buddion pensiwn ar gyfer y rhai sydd eisoes wedi ymddeol yn cael ei brosesu'n awtomatig yn unol â chanllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol. Nid oes angen i chi wneud dim byd.

Rheol 85

Mae Rheol 85 yn diogelu rhywfaint neu'r cyfan o'ch buddiannau rhag y gostyngiad arferol mewn taliadau cynnar. I fod â diogelwch Rheol 85, mae'n rhaid eich bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 30 Medi 2006. Mae Rheol 85 yn fodlon os yw eich oedran ar y dyddiad pan fyddwch yn tynnu eich pensiwn ynghyd â'ch aelodaeth o'r Cynllun (mewn blynyddoedd cyfan) yn dod i gyfanswm o 85 mlynedd neu fwy.

Os oes gennych ddiogelwch Rheol 85, bydd hyn yn dal yn berthnasol o Ebrill 2014 ymlaen.

Yr unig achlysur lle nad yw'r diogelwch hwn yn berthnasol yn awtomatig yw os ydych yn dewis tynnu eich **pensiwn yn wirfoddol ar neu ar ôl 55 oed a chyn 60 oed <u>heb</u>** ganiatâd eich cyflogwr

I gael dealltwriaeth fanylach o'ch sefyllfa bersonol, dylech fewngofnodi i 'Fy Mhensiwn Ar-lein' neu gysylltu â'r adain bensiynau yn uniongyrchol.

Diwygio Treth

Yng Nghyllideb Mawrth 2023 cyhoeddodd y Canghellor y byddai'r Lwfans Oes ar gyfer pensiynau treth freintiedig yn cael ei waredu'n llwyr o 2024/25. Dyma gyfanswm gwerth yr holl fuddion pensiwn y gallwch eu crynhoi heb fod treth yn cael ei chodi arnoch am grynhoi gormod o fuddion. Dylid nodi mai'r mwyafswm arian parod di-dreth gallwch ei gael yw £268,275, ac ar adeg eich ymddeoliad mae'n ofynnol ichi ddatgan yr holl fuddion pensiwn nad ydynt yn rhai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sydd yn cael eu talu ichi neu sydd ar fin cael eu talu, fel y gellir asesu eich mwyafswm Lwfans Oes arian parod di-dreth. Mae rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnoch ar gael ar wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Cofiwch na all staff yr adain bensiynau roi cyngor ariannol na chyngor personol ynghylch treth.

Byddwch yn cofio o fis Ebrill 2023 fod y terfyn Lwfans Blynyddol wedi cynyddu i £60,000 ac mae'r terfyn hwn yn parhau ar gyfer 2026/27. I gyfrif gwerth unrhyw gynnydd blynyddol yn y

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae angen ichi ganfod y gwahaniaeth yng nghyfanswm gwerth unrhyw fuddion a grynhowyd rhwng dau 'gyfnod mewnbwn pensiwn', sef rhwng mis Ebrill a mis Mawrth fel arfer. Gwneir hyn drwy luosi gwerth y cynnydd yn y pensiwn ag 16 ac ychwanegu'r cynnydd yng ngwerth unrhyw gyfandaliad a'r gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Bydd y Datganiad Blynyddol o'ch Buddion ar gyfer 2026 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch effaith y lwfans blynyddol ar y pensiwn y byddwch yn ei gronni yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Wedyn mae'n rhaid ychwanegu canlyniad y cyfrifiad hwn at unrhyw gynnydd mewn hawliau pensiwn a allai ddeillio o unrhyw drefniant pensiwn arall sydd gan unigolyn, er mwyn gweld a yw'r terfyn blynyddol wedi'i groesi.

Pensiynau Cynghorwyr

Nid yw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014 wedi effeithio ar y darpariaethau ar gyfer pensiynau aelodau etholedig gan fod eu trefniant yn parhau:

- ar sail cyflog ailbrisiedig cyfartalog gyrfa
- gyda'r cyfraddau cyfrannu ar 6%
- buddion yn cronni ar sail 1/80fed ar gyfer pensiynau a 3/80fed ar gyfer cyfandaliad di-dreth.

Cyhoeddiadau

Datganiad Polisi Cyfathrebu

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid, a hynny yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posib, yn enwedig mewn amgylchedd pensiynau sy'n newid yn barhaus. Mae 5 o grwpiau penodol y mae angen i'r gronfa gyfathrebu â hwy:

- Aelodau'r Cynllun
- Darpar Aelodau'r Cynllun
- Cyflogwyr sy'n Rhan o'r Cynllun
- Cyrff Eraill:
- Staff y Gronfa

Mae'r ddogfen bolisi yn cyflwyno'r mecanweithiau a ddefnyddir i fodloni'r anghenion cyfathrebu hynny, a chaiff ei hadolygu'n achlysurol. Nod Cronfa Bensiwn Dyfed yw defnyddio'r dull cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer y cynulleidfaoedd sy'n derbyn y wybodaeth. Gellir defnyddio mwy nag un dull o gyfathrebu os bernir bod hynny'n addas a bod hynny'n bodloni holl ofynion y rheoliadau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am y Cynllun a gwybodaeth gysylltiedig. Mae cyflwyno 'Fy Mhensiwn Ar-lein' ar gyfer aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr y cynllun wedi galluogi aelodau i gyrchu gwybodaeth am eu pensiwn yn ddiogel ar-lein a'i diweddaru trwy wefan y Gronfa. Trwy ddatblygu e-gyfathrebu, nod y Gronfa yw gwella'i dull o gyflwyno gwasanaeth, yn ogystal â lleihau costau argraffu a phostio, a'i hôl troed carbon.

Y Strategaeth Weinyddu

Yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mae'r Gronfa Bensiwn wedi llunio Strategaeth Weinyddu. Amcan y strategaeth yw rhoi diffiniad clir o rolau a chyfrifoldebau Cronfa Bensiwn Dyfed a'r cyflogwyr sy'n rhan ohoni o dan y Rheoliadau.

Dangosfwrdd Pensiynau

Mae'r Dangosfwrdd Pensiynau yn fenter newydd gan y Llywodraeth a fydd yn eich galluogi i weld eich holl bensiynau ar-lein, yn ddiogel ac i gyd mewn un lle. Bydd yn rhoi gwybodaeth glir a syml am eich cynilion pensiwn niferus, gan gynnwys eich Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r dangosfwrdd yn dibynnu ar gyfateb data personol i adfer y wybodaeth bensiwn gywir. Rydyn ni'n aros am hysbysiad gan y Rheoleiddiwr Pensiynau am y dyddiad 'mynd yn fyw' ar gyfer y gronfa ac yn parhau â gofynion paru data parhaus. Mae manylion cyswllt cywir, fel cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn symudol yn bwysig ar gyfer cynnal gwiriadau ychwanegol a sicrhau bod y data cywir yn cael ei baru â'r unigolyn cywir. Gallwch ddod o hyd i'ch holl fanylion sylfaenol ar Fy Mhensiwn Ar-lein, os byddwch yn gweld camgymeriad, cysylltwch â ni a diweddaru eich gwybodaeth. Gallwch ddarllen mwy am y Dangosfwrdd Pensiynau yma: www.pensionsdashboardsprogramme.org.uk

Ystadegau Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y Cyflogwyr

Ynghlwm wrth y Datganiad o Gyfrifon yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn ceir rhestr lawn o'r cyflogwyr (ar 31 Mawrth 2026) sydd naill ai'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Dyfed neu'n gysylltiedig â hi. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y cyflogwyr sy'n cael eu Rhestru a'u Derbyn.

	Gweithredol	Wedi darfod	Cyfanswm
Rhestrwyd	24	17	41
Derbyniwyd	33	26	59
Cyfanswm	57	43	100

Aelodaeth o'r Cynllun

Dengys y tabl isod y cynnydd yn aelodaeth y cynllun yn ystod y tair blynedd diwethaf

Nifer aelodau'r gronfa am y 3 blynedd diwethaf

	31/3/2024	31/3/2025	31/3/2026
Gweithredol	19,619	19,583	19,985
Gohiriedig	16,472	16,563	16,448
Pensiynwr	16,721	17,584	18,377
Ymadawr heb benderfynu	2,992	3,189	3,334
	55,804	56,919	58,144

Mae'r tabl isod yn dangos bod y Gronfa wedi perfformio yn erbyn ei meincnod.

Proses CIPFA	Meincnod	% a gwblhawyd yn unol â'r targed cyfreithiol
Marwolaethau - Llythyr cychwynnol yn cydnabod marwolaeth	95%	98.00%
Marwolaethau - Llythyr yn nodi swm buddion dibynnydd	95%	97.50%
Gohirio - cyfrifo a rhoi gwybod am fuddion gohiriedig	95%	98.00%
Dyfynbris o ran ysgariad - Llythyr yn nodi gwerth sy'n cyfateb i arian parod a buddion eraill	95%	98.30%
Setliad ysgariad - Llythyr yn nodi gweithredu gwerth sy'n cyfateb i arian parod a gweithredu gorchymyn rhannu pensiwn	95%	100.00%
Ymunwyr - Anfon hysbysiad ynghylch ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol at aelod o'r cynllun	95%	100.00%
Ad-daliad - Prosesu a thalu ad-daliad	95%	100.00%
Ymddeoliadau - Llythyr yn nodi buddion ymddeoliad gwirioneddol	95%	98.90%
Ymddeoliadau - Llythyr yn nodi amcangyfrif o fuddion ymddeoliad	95%	99.60%
Ymddeoliadau - prosesu a thalu grant ymddeol (cyfandaliad)	95%	99.30%
Trosglwyddiadau i mewn - Llythyr yn nodi dyfynbris ar gyfer trosglwyddiad i mewn	95%	96.20%
Trosglwyddiadau allan - Llythyr yn nodi dyfynbris ar gyfer trosglwyddiad allan	95%	97.80%

Dadansoddiad o ymadawyr yn ystod 2025-26

Categori	2025-2026
Ad-dalu cyfraniadau	319
Trosglwyddiadau i gynlluniau eraill	220
Marwolaeth mewn Swydd	36
Ymddeoliadau ar sail afiechyd	58
Ymddeoliad Cynnar / Arferol	831
Ymddeol yn sgil Dileu Swydd / yn sgil Mesurau Effeithlonrwydd	37
Ymddeoliad Hyblyg	28
Ymddeoliad Hwyr	165
Peidio â bod yn aelod o'r cynllun	229
Buddion a gedwir	793
Ymadawyr eraill*	2,848
Nifer yr aelodau gohiriedig sy'n ailymuno â'r cynllun	188
Cyfanswm	**5,752**

*Mae'r rhan fwyaf o'r achosion hyn yn ymwneud ag aelodau yr ystyrir eu bod yn rhai 'Trosglwyddiadau Diwrnod Nesaf'.

Achosion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd wedi/heb eu cwblhau	2025-2026
Nifer yr achosion sydd wedi'u cwblhau	37,891
Nifer yr achosion sydd heb eu cwblhau	1,313

Sgorau Ansawdd Data a Chynllun Gwella Data

Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o ansawdd data y Gronfa ym mis Rhagfyr 2017 ac o ganlyniad cafodd Cynllun Gwella Data ei greu. Nod y cynllun gwella hwn yn bennaf yw mynd i'r afael â'r prif faterion a nodwyd yn yr adolygiad o Ansawdd Data y Gronfa ac mae'n dangos y camau priodol y mae'r Gronfa yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr adolygiad a sut y bydd yn gwella'r data a gedwir.

Caiff adolygiad o Ansawdd Data ei gynnal bob blwyddyn. Mae'r cynllun gwella wedi cael ei ddiwygio ac mae'n mynd i'r afael â'r prif faterion a nodwyd yn yr adolygiad o Ansawdd Data y Gronfa a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026.

Roedd yr adolygiad o ansawdd data a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026 wedi rhannu'r asesiad o ddata a gedwir yn ddau gategori:

- Data Cyffredin
- Data sy'n benodol i'r Cynllun

Cynhaliwyd profion o'r data a gedwir gan y Gronfa o ran aelodau ei gynllun i nodi a yw'r data yn gyfredol ac yn gywir.

Mae eitemau y Data Cyffredin yn benodol yng nghanllaw y Rheoleiddiwr Pensiynau; fodd bynnag, nid yw eitemau y data sy'n benodol i'r Cynllun yn rhagnodol ond yn gyffredinol mae'r data yn allweddol er mwyn cynnal y Cynllun a bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol. Nid yw'r Rheoleiddiwr Pensiynau yn pennu'r eitemau data ar gyfer data sy'n benodol i'r Cynllun oherwydd bernir ei fod yn adnabyddadwy ac yn berthnasol i bob Cynllun Pensiwn unigol. Fodd bynnag, mae enghreifftiau esboniadol o'r data sy'n ofynnol er mwyn cynnal Cynllun Pensiwn wedi cael eu cyhoeddi gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoddwyd ystyriaeth i'r enghreifftiau hyn wrth nodi data sy'n benodol i'r Cynllun y dylid ei wirio. Gweler isod dabl sy'n nodi sgorau ansawdd data y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gyflwynir i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Maes Data'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	**Data Cyffredin**	**Data sy'n benodol i'r Cynllun**	**Nod**
Sgôr data mis Mawrth 2026	99.0%	99.25%	100%
Sgôr data mis Mawrth 2025	99.3%	99.15%	100%
Sgôr data mis Mawrth 2024	99.1%	99.34%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2023	99.0%	99.10%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2022	99.0%	99.38%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2021	99.2%	99.2%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2020	99.1%	99.2%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2019	98.3%	98.1%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2018	96.5%	95.8%	100%
Sgôr data Rhagfyr 2017	94.5%	85.3%	100%

Cost Gweinyddu fesul aelod (SF3 tabl costau)

Mae'r tabl isod yn cymharu'r costau gweinyddu fesul aelod y cynllun â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan o ran canlyniadau SF3.

Blwyddyn	Cost Cronfa Bensiwn Dyfed fesul aelod	Cyfartaledd Cymru Gyfan
2024-25	£32.79	£40.64
2023-24	£33.82	£36.26
2022-23	£29.86	£33.30
2021-22	£28.06	£32.82
2020-21	£27.62	£30.91
2019-20	£26.36	£32.04
2018-19	£25.14	£30.04
2017-18	£22.71	£27.46
2016-17	£20.73	£28.10
2015-16	£27.45	£28.28
2014-15	£21.66	£28.36
2013-14	£20.94	£30.20

Y Tîm Gweinyddu

Yn ychwanegol at y brif rôl o weinyddu'r Cynllun Llywodraeth Leol a'i ddarpariaethau, mae'r Adain Bensiynau hefyd, trwy gytundeb, yn darparu gwasanaethau tebyg i'r Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddogion Tân sy'n gyfrifol am weinyddu Cynlluniau Pensiwn yr Heddlu a'r Frigâd Dân ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae gan y tîm pensiwn 44 aelod o staff parhaol cyfwerth ag amser llawn i weinyddu'r cynlluniau pensiwn uchod. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, digwyddodd y trosiant staff canlynol; gadawodd 4 aelod o staff y tîm ac ymunodd 7 aelod o staff â'r tîm.

Nifer yr aelodau parhaol o staff sy'n gweithio'n unswydd i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw 28.4 cyfwerth ag amser llawn. Ar 31 Mawrth 2026, roedd 58,144 o aelodau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o Gronfa Bensiwn Dyfed sy'n gyfwerth â 2047 o aelodau'r cynllun fesul aelod o'r tîm gweinyddu pensiynau. Nifer yr achosion a gwblhawyd ar gyfartaledd fesul aelod o'r tîm yn ystod y flwyddyn oedd 1,334.

Eich Adain Bensiynau:

Yn ogystal â gweithredu newidiadau deddfwriaethol trwy amserlenni penodol. bu eich Adain Bensiynau hefyd yn:

- Ymgymryd â chwblhau ymarfer Prisiad Actiwaraidd Mawrth 2025 gan roi gwybod i'r Cyflogwyr am eu cyfraddau cyfrannu newydd.
- Cynyddu nifer y defnyddwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer 'Fy Mhensiwn Ar-lein' drwy annog aelodau'r cynllun i gofrestru yn ystod galwadau ffôn. Mae'r rhaglen gymwysiadau hon yn eich galluogi i gael golwg ar eich cofnodion pensiwn chi ynghyd â'u diweddaru a hynny mewn modd diogel. Bwriad y fenter yw darparu gwybodaeth statudol a gwella'r dull o gyflwyno gwasanaeth ar yr un pryd â lleihau costau argraffu a phostio ac ôl troed carbon y gronfa.

- Wedi sicrhau bod cyflogwyr yn llunio, yn cyhoeddi ac yn parhau i adolygu datganiad polisi ynghylch eu darpariaethau dewisol o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2014.
- Parhau gyda'u rhaglen hyfforddi staff mewnol. Bernir bod y buddsoddiad hwn, ynghyd â'r hyfforddiant i'r Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa, yn allweddol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau effeithiol o ran gweinyddu pensiynau a hynny mewn byd o newidiadau parhaus i reoliadau a chynnydd yn nisgwyliadau rhanddeiliaid.
- Parhau i lunio a dosbarthu Datganiadau Buddion Blynyddol ar gyfer Aelodau Gohiriedig y Cynllun (unigolion sydd wedi gadael y Cynllun ac sydd â hawl i fuddion pensiwn yn y dyfodol) ac Aelodau Gweithredol y Cynllun (y rhai sy'n cyfrannu). Lluniwyd y Datganiadau Buddion Blynyddol ar sail Cronfeydd Pensiwn Cymru gyfan, gan wella cost a chysondeb wrth i Gronfa Bensiwn Dyfed arwain y ffordd.
- Parhawyd â'r ymarfer "Tystysgrif Bywyd" sy'n ymwneud â thaliadau pensiwn a delir â siec, yn ogystal ag ymgymryd â gwiriadau marwolaethau misol yn seiliedig ar bensiynwyr yn y DU.
- Parhawyd i ddefnyddio Western Union er mwyn ymgymryd â gwiriadau marwolaethau pensiynwyr sy'n byw dramor.
- Parhau i lunio ffurf fwy manwl a phersonol ar y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer pob pensiynwr, gan amlinellu'r codiad yn y pensiwn yn sgil y dyfarniadau ynghylch codiadau pensiwn blynyddol.
- Cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol y Comisiwn Archwilio, fel yr amlinellwyd uchod.
- Parhau i ymwneud â chyd-awdurdodau yng Nghymru sydd â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael i greu partneriaethau a rhannu arferion da o ran gweinyddu'r Cynllun.
- Sicrhau bod data cronfa enghreifftiol yn dod i law Adran Actiwari'r Llywodraeth
- Sicrhau, trwy weithdrefn IAS19, fod pob cyflogwr oedd i gydymffurfio â'r gofynion cyfrifo hyn ar gyfer pensiynau wedi derbyn y canlyniadau a'r datgeliadau yr oedd eu hangen arnynt erbyn yr amser yr oedd eu cyfrifon yn cau.
- Parhau gydag ymarferiad cysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig yr oedd rhaid ei gyflawni ar gyfer pob aelod o'r cynllun er mwyn sicrhau nad yw cofnodion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Fodd bynnag, mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn parhau i fod ag ymholiadau ynghylch data sydd heb eu hateb, sydd eto i'w dychwelyd i Gronfa Bensiwn Dyfed.
- Gweithredu i-connect ar gyfer cyflogwyr ychwanegol i hwyluso'r broses o drosglwyddo data yn uniongyrchol o systemau cyflogres y cyflogwr yn uniongyrchol i'r system bensiynau.
- Cyflawnwyd ymarfer ansawdd data ar gyfer cynlluniau pensiwn Llywodraeth Leol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn unol â gofynion Côd Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Pensiwn a'r Rheoleiddiwr Pensiynau am y canfyddiadau. Cafodd Cynllun Gwella Data ei greu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.
- Dechreuwyd ar y gwaith o gysoni'r cofnodion pensiwn o ganlyniad i Ddyfarniad 'McCloud'.

Edrych ymlaen

Mae eich Adain Bensiynau yn rhagweld blwyddyn brysur arall gan ei bod, yn ogystal â'i phrif swyddogaethau, yn bwriadu:

- Cynyddu nifer y defnyddwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer 'Fy Mhensiwn Ar-lein' drwy annog aelodau'r cynllun i gofrestru yn ystod galwadau ffôn.
- Ymateb i ymgynghoriadau ar drefniadau'r cynllun a gweithredu strwythurau sydd wedi newid o ganlyniad i ddeddfwriaeth ddiwygio.
- Parhau i gysylltu â holl gyflogwyr y cynllun i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn cydymffurfio â gofynion cofrestru awtomatig.
- Parhau i ymgymryd â dilysiadau data a gwiriadau cywirdeb ar gyfer data a gyhoeddir gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi mewn perthynas ag ymarferiad cysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig er mwyn sicrhau bod budd-daliadau cywir y wladwriaeth yn cael eu cofnodi a'u talu.
- Parhau i weithio gyda holl gyflogwyr y cynllun er mwyn sicrhau bod data glân a chywir yn cael ei ddarparu'n gyson.
- Cyflawni ymarfer ansawdd data yn unol â gofynion Côd Ymarfer 14 y Rheoleiddiwr Pensiynau a rhoi gwybod i'r Pwyllgor Pensiwn, y Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Rheoleiddiwr Pensiynau am y canfyddiadau. Diweddaru ac adolygu'r Cynllun Gwella Data o ganlyniad i'r ymarfer.
- Gweithredu i-connect ar gyfer cyflogwyr pellach sy'n hwyluso'r broses o drosglwyddo data yn uniongyrchol o systemau cyflogres y cyflogwr yn uniongyrchol i'r system bensiynau.
- Parhau â'r gwaith o gysoni'r cofnodion pensiwn yn dilyn diwygio Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol o ganlyniad i Ddyfarniad 'McCloud'.
- Aros am hysbysiad gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o ddyddiad 'mynd yn fyw' y gronfa a pharhau â'r gofynion paru data parhaus.
- Nodi, olrhain a chysylltu ag aelodau a dibynyddion a allai fod â hawl i fuddion goroeswyr a thaliadau grant marwolaeth ychwanegol o ganlyniad i'r Rheoliadau Mynediad a Thegwch a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2026.

Mae'r cymhlethdodau cynhenid a'r diogeliadau ôl-weithredol sy'n berthnasol i gynlluniau Llywodraeth Leol, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn parhau, a rhagwelir y bydd y rhain yn cynyddu ymhellach oherwydd y gwaith o gymhwyso Dyfarniad McCloud, ynghyd â gweithredu gofynion y Dangosfwrdd Pensiynau.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff sy'n ymwneud â gweinyddu'r Cynllun, a hynny nid yn unig am y gwaith sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond hefyd am eu brwdfrydedd wrth ymdopi â newid a bodloni gofynion sy'n gyson newid o ran y rheoliadau a'r rhanddeiliaid.

Hollol Newydd - Fy Mhensiwn Ar-lein

Ym mis Ionawr 2026 lansiodd Cronfa Bensiwn Dyfed fersiwn newydd o Fy Mhensiwn Ar-lein. Os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny, bydd angen i chi greu cyfrif newydd.

Beth fydd Fy Mhensiwn Ar-lein yn caniatáu imi wneud?

P'un a ydych yn aelod gweithredol o'r Cynllun, yn aelod gohiriedig neu'n bensiynwr, gallwch weld eich manylion sylfaenol a'u diweddaru, cyrchu ffurflenni perthnasol a derbyn pob cyhoeddiad yn ddiymdroi, gan gynnwys y datganiad blynyddol o'ch buddion. Os ydych yn aelod gweithredol, byddwch yn gallu cyfrifo'ch buddion ar adeg sy'n gyfleus ichi er mwyn cynllunio'ch ymddeoliad yn ymarferol.

Os ydych yn bensiynwr, byddwch yn gallu gweld manylion eich pensiwn, gwneud newidiadau o ran manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu eich cyfeiriad, gweld eich cofnod taliadau a'ch côd treth, eich dyddiadau talu, slipiau talu, datganiadau P60 a'ch datganiadau ynghylch y cynnydd yn y pensiwn

Sut ydw i'n cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein?

Ni allai cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein fod yn haws, yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw clicio yma i greu cyfrif. Mae cyfarwyddiadau pellach ar sut i greu cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein i'w cael yma.

Mynediad a Thegwch

Hoffem eich gwneud yn ymwybodol o newidiadau pwysig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2026 yn unol â'r Rheoliadau Mynediad a Thegwch. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u bwriadu i wneud y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn decach, yn fwy cyson, ac yn haws i aelodau trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol, symleiddio'r ochr weinyddol, a sicrhau triniaeth deg i bob aelod.

Dyma'r prif newidiadau y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt:

Absenoldeb Di-dâl Awdurdodedig

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, **bydd cyfraniadau pensiwn yn ystod absenoldebau awdurdodedig o 14 diwrnod neu lai yn ORFODOL**. Bydd y rheolau newydd yn berthnasol i brynu pensiwn a gollwyd yn ystod cyfnodau o absenoldeb di-dâl awdurdodedig sy'n para mwy na 14 diwrnod. Bydd y trefniadau newydd hyn - a elwir yn Drefniadau Pensiwn Ychwanegol Cymhwysol (**QAPAs**) - yn gweithredu'n wahanol i'r broses Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (APCs) bresennol.

O dan y rheolau QAPA newydd (ar gyfer absenoldebau di-dâl sy'n dechrau ar ôl 31 Mawrth 2026):

- Bydd y gost o brynu pensiwn 'coll' yn ôl yn seiliedig ar **gyfraddau cyfrannu arferol yr aelod a'r cyflogwr**, yn hytrach na ffactorau sy'n gysylltiedig ag oedran.
- Bydd gan aelodau **flwyddyn ar ôl dychwelyd i'r gwaith** i wneud cais am QAPA, a dim ond tra byddant yn parhau i fod yn aelod gweithredol yn yr un gyflogaeth.
- Caniateir i gyflogwyr gyfrannu at gost QAPA am **holl gyfnod absenoldeb di-dâl**, hyd yn oed pan fo'r absenoldeb yn para mwy na thair blynedd.
- Bydd pensiwn a brynir trwy QAPA yn adlewyrchu pensiwn arferol a gronnwyd:
    - Bydd yn cyfrif tuag at **fuddion goroeswyr**.
    - **Ni** fydd yn cael ei leihau os yw'r aelod yn ymddeol ar sail dileu swydd neu fesurau effeithlonrwydd.

Bydd y rheolau presennol yn parhau i fod yn berthnasol i absenoldebau di-dâl a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2026:

- Mae'r gost o brynu pensiwn yn ôl yn seiliedig ar **ffactorau sy'n gysylltiedig ag oedran**.
- Rhaid i gyflogwyr ariannu **dwy ran o dair o'r gost** os yw'r aelod yn dewis gwneud hynny o fewn 30 diwrnod o ddychwelyd i'r gwaith (neu gyfnod hirach y mae'r cyflogwr wedi cytuno arno).
- Caiff pensiwn ychwanegol ei **ostwng** ar adeg ymddeol oherwydd dileu swydd neu fesurau effeithlonrwydd cyn yr Oedran Pensiwn Arferol.
- **Nid yw** pensiwn ychwanegol yn cyfrif tuag at bensiynau goroeswyr.

Buddion Goroeswyr

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn darparu buddion gwerthfawr pan fyddwch chi'n marw. Bydd eich priod, eich partner sifil neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw yn derbyn rhan o'ch pensiwn - a hynny fel pensiwn goroeswr. Bydd y pensiwn yn cael ei dalu am weddill ei oes.

O 1 Ebrill 2026, bydd pensiynau goroeswyr yn cael eu cyfrifo'n fwy cyson i sicrhau triniaeth gyfartal waeth beth yw rhyw yr aelod neu'i oroeswr.

Bydd rhai pensiynau goroeswyr yn cynyddu gan y bydd mwy o wasanaeth yr aelod cyn Ebrill 2014 bellach yn cael ei ystyried. Bydd rhai pensiynau goroeswyr yn daladwy am y tro cyntaf - mae hyn yn fwyaf tebygol o effeithio ar oroeswyr gwrywaidd aelodau benywaidd a adawodd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cyn Ebrill 1988.

Mae'r newidiadau yn berthnasol i farwolaethau sy'n dyddio'n ôl i:

- **5 Rhagfyr 2005** ar gyfer priodasau o'r rhyw arall a phartneriaethau sifil o'r un rhyw
- **14 Mawrth 2014** ar gyfer priodasau o'r un rhyw
- **31 Rhagfyr 2019** ar gyfer partneriaethau sifil o'r rhyw arall.

Gallai pensiynau rhai partneriaid sy'n cyd-fyw hefyd gynyddu os bu farw'r aelod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014.

Lle bo angen, bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn ailgyfrifo pensiynau goroeswyr yn awtomatig ac yn talu ôl-ddyledion.

Cam Gweithredu: Os ydych chi'n meddwl y gallai'r newidiadau hyn effeithio arnoch chi, cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed i'w hysbysu.

Grantiau Marwolaeth

Dileu'r terfyn oedran

Mae'r terfyn oedran ar gyfer talu grant marwolaeth ar ffurf cyfandaliad wedi'i ddileu. Erbyn hyn gall grant marwolaeth gael ei dalu hyd yn oed os bydd aelod yn marw ar ôl 75 oed. Bydd y newid hwn yn cael ei ôl-ddyddio i gynnwys marwolaethau o 1 Ebrill 2014.

Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig pan fydd aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn marw ar ôl 75 oed y telir grant marwolaeth. Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gweithio i nodi achosion mewn perthynas ag aelodau a fu farw ar ôl 75 oed ers mis Ebrill 2014. Lle bo angen, byddwn yn cysylltu â'r buddiolwyr neu'r cynrychiolwyr personol i drefnu talu'r grant marwolaeth. Bydd llog am daliad hwyr yn cael ei ychwanegu.

Adran 4 – Adroddiad Actiwaraidd

Mae prisiad tair blynedd 2025 - ar 31 Mawrth 2025 - bellach wedi'i gwblhau a daeth ei ganlyniadau i rym o 1 Ebrill 2026 ar gyfer y prif gyflogwyr, ac mae cyfraddau cyfrannu ar gyfer y cyflogwyr eraill yn dod i rym ym mis Ebrill 2027. Rwyf wedi nodi isod y prif themâu o'r prisiad.

Gwell sefyllfa gyllido a llai o gyfraniadau

Ar y cyfan, mae lefel gyllido'r Gronfa wedi gwella ers prisiad 2022. Mae'r gwelliant hwn o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau rydym ni a'r Awdurdod Gweinyddu wedi bod yn eu monitro'n agos: profiad buddsoddi ffafriol o bortffolio'r Gronfa sy'n ceisio adenillion, cyfraddau llog cyffredinol uwch sy'n lleihau gwerth rhwymedigaethau, a thystiolaeth nad yw gwelliannau marwoldeb tymor hwy yn symud ymlaen mor gyflym ag a dybiwyd yn flaenorol. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn wedi lleihau rhwymedigaethau parhaus y cynllun ac wedi cynyddu'r asedau a ddelir gan gryfhau sefyllfa'r Gronfa.

Nid yw'r gwelliant mewn cyllid yn unffurf ar draws pob cyflogwr - mae'r effaith yn amrywio gyda chyfamod, proffil aelodaeth a phrofiad a strategaeth gyllido pob cyflogwr - ond ar lefel y gronfa gyfan mae'r darlun yn gadarnhaol. I'r rhan fwyaf o gyflogwyr, bydd hyn yn golygu cyfraddau cyfrannu gofynnol is yn y dyfodol a byddwch eisoes wedi cael gwybod am y rhain a'r dyddiad y maent yn dod i rym. Wedi dweud hynny, mae gostyngiadau mewn cyfraniadau yn cael eu trin yn ofalus: mae strategaeth gyllido Cronfa Bensiwn Dyfed wedi'i chynllunio i reoli anwadalrwydd ac i gydbwyso fforddiadwyedd tymor byr â chynaliadwyedd tymor hir. Mae newidiadau sydyn neu fawr i gynlluniau cyfraniadau yn cael eu hosgoi fel bod cyflogwyr, aelodau a'r Gronfa yn parhau i fod ar sylfaen sefydlog.

Dull prisio a darbodaeth

Mae'r prisiad wedi'i gynnal ar sail gadarn a thryloyw, ac mae rhagdybiaethau'n cael eu hadolygu yng ngoleuni profiad economaidd diweddar a thystiolaeth ddemograffig sy'n dod i'r amlwg. Rydym yn parhau i gymhwyso barn actiwaraidd a darbodaeth wrth drosglwyddo allbynnau model i gyfraniadau cyflogwyr. Mae gan fodelau gyfyngiadau - yn enwedig wrth ragweld profiad ariannol a demograffig dros ddegawdau lawer. Felly, mae'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer y prisiad hwn yn cyfuno canlyniadau sy'n deillio o fodel â barn ystyriol i reoli'r risg o optimistiaeth a cheidwadiaeth ormodol.

Marwoldeb ac ystyriaethau demograffig eraill

Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, mae data ar ôl y pandemig a gwaith gan yr Ymchwiliad Marwoldeb Parhaus yn dangos bod cyfradd gwelliant o ran marwoldeb yn y dyfodol yn arafu o gymharu â rhagdybiaethau hanesyddol. Mae'r prisiad yn adlewyrchu rhagdybiaethau ynghylch marwoldeb wedi'u diweddaru ac wedi'u teilwra i broffil a phrofiad sylfaenol Cronfa Bensiwn Dyfed. Mae hyn wedi cyfrannu at ostyngiad mewn rhwymedigaethau

a ragwelir o gymharu â disgwyliadau cynharach, ond mae ansicrwydd demograffig yn parhau i fodoli a bydd yn parhau i gael ei fonitro'n agos mewn prisiadau yn y dyfodol.

Buddsoddi cyfrifol

Mae buddsoddi cyfrifol o ran yr hinsawdd ac ESG yn dal i fod yn ganolog i strategaeth fuddsoddi a chyllido'r Gronfa. Rhoddodd y prisiad ystyriaeth i oblygiadau ariannol ffactorau ESG ac, yn benodol, risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae newid hinsawdd yn risg systemig hirdymor sy'n gallu effeithio ar adenillion asedau, patrymau atebolrwydd a'r amgylchedd economaidd ehangach. Ar gyfer prisiad 2025 rydym wedi ymgorffori ystyriaethau hinsawdd mewn profion senarios a thrafodaethau cyllido fel nad yw'r risgiau hyn yn cael eu hanwybyddu na'u diystyru.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu integreiddio dadansoddi ESG yn barhaus wrth brofi'r sefyllfa gyllido mewn ystod o lwybrau hinsawdd credadwy. Mae risgiau trawsnewid (o symudiadau polisi a marchnad wrth i economïau ddatgarboneiddio) a risgiau ffisegol (o effeithiau uniongyrchol newid hinsawdd) yn ymddangos yn asesiadau risg y Gronfa. Bwriad strategaeth ceisio adenillion carbon isel yr Awdurdod Gweinyddu yw manteisio ar y cyfleoedd ariannol yn sgil y trawsnewid gan reoli'r risgiau cysylltiedig - sef cydbwysedd sy'n cefnogi amcanion cyllido hirdymor a thegwch rhwng cenedlaethau.

Rhagolygon at y dyfodol

Wrth edrych i'r dyfodol, mae Cronfa Bensiwn Dyfed mewn sefyllfa gryfach na llawer o'i chymheiriaid. Mae'r cryfder hwnnw yn sgil llywodraethu darbodus gan swyddogion a phwyllgorau dros y blynyddoedd; dewisiadau buddsoddi synhwyrol a fframwaith actiwaraidd trylwyr a thryloyw. Serch hynny, gall marchnadoedd a demograffeg newid, a hynny'n gyflym weithiau. Mae'r blaenoriaethau craidd yn parhau i fod y canlynol: cynnal solfedd, cefnogi cyfraniadau cyflogwyr sy'n fforddiadwy a sefydlog, a chadw tegwch rhwng yr aelodau presennol ac aelodau'r dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Gweinyddu a'r holl gyflogwyr i sicrhau bod strategaethau cyfrannu'n parhau i fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau pob cyflogwr ac ar gyfer y Gronfa gyfan. Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys: monitro adenillion buddsoddi o gymharu â'r disgwyliadau; adolygu rhagdybiaethau demograffig yn barhaus, ac ymgorffori ESG ac ystyriaethau hinsawdd yn y fframweithiau cyllido a buddsoddi.

I gloi, er bod y lefel gyllido well yn ddatblygiad i'w groesawu, mae darbodaeth a meddwl dros yr hirdymor yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn diogelu'r sefyllfa hon. Mae'r Gronfa mewn sefyllfa dda i reoli'r elfennau anrhagweladwy o flwyddyn i flwyddyn ac i gadw golwg ar y gorwel dros sawl degawd sy'n diffinio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Clive Lewis, Actiwari, Marsh

Adran 5 - Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Dyfed

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a wnaed gan Fwrdd Pensiwn Dyfed yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 i gyflawni ei rôl, i gynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin, i reoli Cronfa Bensiwn Dyfed. Cyfarfu'r Bwrdd 4 gwaith yn ystod y flwyddyn drwy drefniant hybrid lle roedd rhai aelodau yn bresennol yn yr ystafell ac eraill ar-lein.

Sefydlwyd y Bwrdd o Ebrill 2015 o dan drefniadau newydd ar gyfer llywodraethu Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol. Diben y Bwrdd yw cynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin (fel rheolwr y cynllun) i reoli'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac i ddarparu her a rôl oruchwyliol. Mae cylch gorchwyl y Bwrdd ar gael ar wefan y Gronfa.

Mae gan y Bwrdd 3 chynrychiolydd o blith gweithwyr sy'n aelodau o'r cynllun a 3 chynrychiolydd o blith y cyflogwyr ynghyd â Chadeirydd Annibynnol. Mae hyn yn unol â'r rheoliadau sy'n gofyn am gynrychiolaeth gyfartal rhwng gweithwyr a chyflogwyr. Mae manylion am aelodau'r Bwrdd yn cael eu dangos isod. Nid yw'r Bwrdd yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau a chaiff roi cyngor a sylwadau yn unig ynghylch rheolaeth Cronfa Bensiwn Dyfed. Er mwyn i'r trefniant hwn fod yn llwyddiannus mae'n bwysig bod y Bwrdd yn cyflawni'i gyfrifoldebau mewn modd cadarnhaol ac adeiladol.

Nid oedd dim newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Roedd nifer dda, sef 82%, yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, sydd ychydig yn is na'r lefel presenoldeb yn y flwyddyn flaenorol. Nodir manylion presenoldeb Aelodau'r Bwrdd isod.

Yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd, mae gennyf gyswllt rheolaidd â swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod y Bwrdd yn mynd i'r afael â'r materion angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau. Gwahoddir y Cynghorydd Elwyn Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Pensiwn i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn hefyd. Rwyf hefyd yn cael fy ngwahodd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor ac rwy'n cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r materion a drafodwyd ac yn codi unrhyw faterion sy'n peri pryder. Mae hyn yn helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor a system lywodraethu gyffredinol Cronfa Dyfed.

Cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd 4 gwaith yn ystod 2025-26: ym mis Mai, mis Gorffennaf, a mis Hydref 2025 ac ym mis Ionawr 2026. Mae'r gyfres o gyfarfodydd y Bwrdd yn dilyn yr amserlen ar gyfer y Pwyllgor Pensiwn. Mae'r Bwrdd yn dal i ganolbwyntio ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y Gronfa a'i buddiolwyr, ac mae'n cytuno ar flaenraglen waith ar ddechrau'r flwyddyn i sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i gynorthwyo'r Cyngor i roi'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar waith yn Nyfed. Fel rhan o'i rôl goruchwylio a chraffu mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ym mhob cyfarfod ynghylch y canlynol:

- adolygiad o'r gyllideb a phrosesau monitro ariannol cysylltiedig;
- ystyried unrhyw achosion o dorri'r rheolau wrth ddarparu gwasanaethau;
- monitro ac adolygu'r gofrestr risg;
- monitro ac adolygu perfformiad y gwasanaeth gweinyddu pensiynau, gan gynnwys archwilio ystadegau llif gwaith;
- ystyried adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol ar berfformiad buddsoddi a materion dyrannu asedau;
- diweddariadau ar berfformiad a datblygiadau yn ymwneud â Phartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC);

- adolygu a thrafod penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiwn;
- adolygiad o'r rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Pensiwn a'r Bwrdd Pensiwn.

Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen bwysig yn system lywodraethu gyffredinol Cronfa Bensiwn Dyfed, a chafodd y cynnwys a'r modd yr oedd y wybodaeth wedi'i chyflwyno eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn. Ym mhob cyfarfod mae'r Bwrdd yn ystyried unrhyw newidiadau mewn risgiau a aseswyd, ynghyd â rhan o'r gofrestr yn fanwl fel bod pob maes yn cael ei ystyried yn llawn dros gylch blynyddol y cyfarfodydd.

Mae agendâu llawn wedi cael eu llunio ar gyfer pob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Yn ogystal â'r eitemau ar yr agenda a ystyriwyd ym mhob cyfarfod, bu'r Bwrdd hefyd yn trafod materion eraill yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Datblygu cynllun gwaith blynyddol ar gyfer y Bwrdd;
- Cynllun busnes y Gronfa ar gyfer 2025-2028;
- Adolygu adroddiad blynyddol a chyfrifon ac adroddiad archwilio allanol y Gronfa Bensiwn;
- Polisi Seiberddiogelwch y Gronfa;
- Ystyried adroddiadau gan Robeco ar waith ymgysylltu y Gronfa ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG);
- Adroddiad ar ddadansoddiad o ddwysedd carbon buddsoddiadau'r Gronfa;
- Ystyried y datblygiadau sy'n effeithio ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan gynnwys y cynnydd gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru;
- Datganiad Strategaeth Gyllido drafft y Gronfa;
- Materion Archwilio Mewnol a rheoli risg sy'n effeithio ar y Gronfa.

Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried rhybudd o gynnig ynghylch Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa mewn perthynas â Buddsoddi yn y Dwyrain Canol.

Ym mis Ionawr 2026, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad effeithiolrwydd o'i weithgareddau ar sail hunanasesu. Hwyluswyd hwn gan gynrychiolydd allanol. Roedd pob aelod o'r Bwrdd o'r farn bod hwn yn ymarfer cadarnhaol a defnyddiol a chytunwyd ar nifer o argymhellion a chamau gweithredu i helpu i wella perfformiad yn y dyfodol. Bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd gan Gronfa Bensiwn Dyfed gyfanswm o bron £4 biliwn o asedau a 58,144 o aelodau, sy'n cynnwys pensiynwyr, pensiynwyr gohiriedig a chyfranwyr presennol. Mae gwaith gweinyddol a buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn dod yn fwyfwy cymhleth felly mae rhaglen hyfforddi a datblygu strwythuredig yn hanfodol i aelodau unigol a'r Bwrdd ar y cyd gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae datblygu sgiliau a gwybodaeth yn faes sy'n cael sylw gan y Rheoleiddiwr Pensiynau fel rhan o'i rôl yn hyrwyddo safonau uchel o lywodraethu corfforaethol mewn Cronfeydd Pensiwn.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gynnal sesiynau hyfforddiant chwarterol ar-lein ar gyfer holl aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd ar draws 8 cronfa Cymru, ac mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn mynychu sesiynau hyfforddiant a chynadleddau amrywiol. Caiff yr hyfforddiant hwn ei gofnodi gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd i'w adolygu ac ystyried digwyddiadau yn y dyfodol. Mae enghreifftiau o'r flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Seminarau a chynadleddau a fynychwyd gan aelodau unigol y Bwrdd lle rhoddwyd diweddariadau ar faterion cyfredol sy'n effeithio ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Pedair sesiwn hyfforddiant ar-lein a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- Sesiwn briffio ar y Dyraniad Asedau Strategol wedi'i ddiweddaru o fuddsoddiadau'r Gronfa.

Bydd sesiynau hyfforddiant rheolaidd ar bynciau unigol yn dal i gael eu trefnu a bydd sesiynau briffio yn cael eu cynnwys fel rhan o gyfarfodydd y Bwrdd.

Y brif fenter bolisi yn ystod y flwyddyn oedd y gwaith sydd ei angen i weithredu cynigion "Addas ar gyfer y Dyfodol" y Llywodraeth. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod am y gofynion newydd a'r goblygiadau i Gronfa Bensiwn Dyfed. O dan y cynigion hyn, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rheoli'r holl fuddsoddiadau ar ran y Gronfa. Bydd nifer o newidiadau llywodraethu eraill yn cael eu cyflwyno gan gynnwys swydd statudol Uwch-swyddog Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Pherson Annibynnol, yn ogystal â gofynion ar gyfer sawl dogfen strategaeth. Bydd y Bwrdd yn parhau i roi sylw manwl i'r trefniadau newydd wrth iddynt gael eu rhoi ar waith yn ystod 2026-27.

Ynghyd â Chadeiryddion Bwrdd Pensiwn cronfeydd eraill Cymru, rwy'n cynrychioli'r Bwrdd mewn sesiwn briffio a gynhelir bob chwe mis ar gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae cyflwyniadau gan yr awdurdod cynnal (Cyngor Sir Caerfyrddin) a'i bartneriaid, Waystone a Russell Investments, yn rhoi cyfle i Gadeiryddion Bwrdd ofyn cwestiynau a chraffu ar gynnydd mewn perthynas â chyfuno buddsoddiadau yng Nghymru. Mae'r fforwm hwn yn helpu i feithrin cysylltiadau gwaith da rhwng Byrddau a'r awdurdod cynnal a'r Gronfa, ac yn cryfhau system lywodraethu gyffredinol Cronfeydd Pensiwn Cymru.

Aelodau Bwrdd Pensiwn Dyfed 2025-26

- John Jones - Cadeirydd Annibynnol
- Mike Rogers - Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau
- Cyng. Alun Lenny - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau (Cyngor Sir Gâr)
- Mike Evans - Cynrychiolydd Pensiynwyr sy'n Aelodau
- Tommy Bowler - Cynrychiolydd Undeb Llafur
- Cyng. Wyn Thomas - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau (Cyngor Sir Ceredigion)
- Richard Edwards - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau (Cyngor Sir Penfro)

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd 2025-26

	Date of Meeting			
	15-Mai-25	10-Gorffennaf-25	14-Hydref-25	02-Ionawr-26
John Jones	✓	✓	✓	✓
Mike Rogers	✓	✓	x	✓
Cllr. Alun Lenny	✓	x	✓	✓
Mike Evans	x	✓	✓	✓
Tommy Bowler	✓	✓	✓	x
Cllr. Wyn Thomas	✓	✓	✓	✓
Richard Edwards	✓	x	✓	✓

John Jones, Cadeirydd Annibynnol

Adran 6 – Datganiad Cyfrifon

Adroddiad Naratif

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn Dyfed wedi'u nodi ar y tudalennau canlynol ac yn cynnwys gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad a chymhwysedd ariannol y Gronfa am y flwyddyn 2025-26. Maent yn dangos canlyniad y gwaith o stiwardio rheolaeth, sef atebolrwydd y rheolwyr o ran yr adnoddau yr ymddiriedwyd iddynt a chyflwr ei asedau ar ddiwedd y cyfnod.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn wedi cael eu paratoi yn unol a Chôd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26 (y côd), sydd wedi'u sefydlu ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, a ddiwygiwyd i'r sector cyhoeddus. Mae'r cyfrifon hefyd yn cyfeirio tuag at Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn - Datganiad o Arfer a Argymhellir a gyhoeddwyd gan Grŵp Cyfrifwyr Ymchwil i Bensiynau lle mae teimlad fod y datgeliadau yma yn darparu fwy o fanylder.

Y prif gyfrifon ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Cyfrifon hon yw:

- Cyfrif y Gronfa
- Datganiad Asedau Net
- Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghorol.

Datganiad o'r cyfrifoldebau dros y datganiad cyfrifon

Cyfrifoldebau'r Awdurdod

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i weinyddu faterion y cronfeydd pensiwn mewn modd priodol ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw'r swyddog hwnnw.
- Rheoli materion y gronfa bensiwn mewn modd sy'n gwneud y defnydd mwyaf darbodus, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cyfrifoldebau Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad yr Awdurdod o'i Gyfrifon sydd, yn unol â'r arferion cyfrifo priodol fel y'u pennwyd yn Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("y Côd Ymarfer"),

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol:

- Wedi dewis polisïau cyfrifydda addas ac wedyn wedi'u cymhwyso'n gyson;
- Wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a doeth;
- Wedi cadw cofnodion cyfrifydda priodol, amserol a chyfredol;
- Wedi cymryd camau rhesymol er atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall;
- Wedi cydymffurfio â'r côd.

Ardystio'r Cyfrifon

Yr wyf yn ardystio fod y Datganiad Cyfrifon a welir yn rhoi golwg gywir a theg ar sefyllfa ariannol y Chronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026.

Chris Moore FCCA — Dyddiad: 23 Hydref 2026

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol

Cymeradwyaeth Pwyllgor Archwilio

Cymeradwyaeth o'r Datganiad Cyfrifon Gronfa Pensiwn Dyfed ar ôl yr archwiliad.

Cadeirydd y Bwrdd Archwilio — Dyddiad: 4 Tachwedd 2026

Cyfrifon y Gronfa am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2026

2024-25 £'000		Nodyn	2025-26 £'000
	Trafodion gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol a'r Gronfa		
	Cyfraniadau		
	Cyflogwyr		
89,055	Arferol		93,116
6,641	Ychwanegiadau		6,264
(17,091)	Diffyg Gwasanaeth Blaenorol		(17,871)
	Aelodau		
28,196	Arferol		29,639
90	Ychwanegiadau Gwirfoddol		286
8,544	Trosglwyddiadau i fewn o gronfeydd pensiwn eraill	6	11,676
115,435			123,110
	Budd-daliadau sy'n daladwy		
(100,193)	Pensiynau yn daladwy		(105,023)
(21,033)	Cymudiadau a Cyfandaliad Budd-daliadau Ymddeol		(19,462)
(2,685)	Cyfandaliad Budd-daliadau marwolaeth		(3,645)
(9,402)	Taliadau ynglyn ag ymadawyr	7	(9,486)
(133,313)			(137,616)
(17,878)	**Ychwanegiadau (Tynnu Allan) Net o'r Trafodion Gydag Aelodau**		**(14,506)**
(12,266)	Treuliau Rheoli	8	(10,984)
(30,144)	**Ychwanegiadau (Tynnu Allan) Net yn cynnwys Treuliau Rheoli**		**(25,490)**
	Elw ar y Buddsoddiadau		
56,130	Incwm o'r Buddsoddiadau	9	60,190
0	Trethi ar Incwm (Treth Ataliedig Anadferadwy)	10	0
	Newid yng Ngwerth y Buddsoddiadau ar y Farchnad		
39,864	Heb eu Realeiddio	11.2	66,463
33,938	Wedi'u Realeiddio	11.3	319,632
129,932	**Elw Net ar y Buddsoddiadau**		**446,285**
99,788	**Cynydd (Gostyngiad) net mewn asedau net i dalu budddaliadau yn ystod y flwyddyn**		**420,795**
3,475,104	Asedau Net y Cynllun ar Ddechrau'r Flwyddyn		3,574,892
3,574,892	**Asedau Net y Cynllun ar Ddiwedd Y Flwyddyn**		**3,995,687**

Datganiad Asedau Net am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2026

2024-25 £'000		Nodyn	2025-26 £'000
3,555,541	Asedau buddsoddi		3,960,622
0	Buddsoddiadau Tymor Hir		159
7,279	Adnau ariannol		15,913
(340)	Rhwymedigaethau buddsoddi		0
3,562,480		11.1	3,976,694
17,464	Asedau cyfredol	15	22,442
(5,052)	Rhwymedigaethau cyfredol	16	(3,449)
12,412	Asedau/(Rhwymedigaethau) Net Presennol		18,993
3,574,892	**Cyfanswm yr Asedau Net**		**3,995,687**

Cysoniad o'r Symudiadau yn Asedau Net y Gronfa

2024-25 £'000		2025-26 £'000
3,475,104	Asedau Net ar Ddechrau'r Flwyddyn	3,574,892
25,986	Arian Newydd Net a Fuddsoddwyd	34,700
73,802	Elw a cholledion ar werthiad o fuddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	386,095
3,574,892	**Asedau Net ar Ddiwedd y Flwyddyn**	**3,995,687**

Nodiadau ar Gyfrifon y Gronfa Bensiwn Dyfed am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2026

1 Disgrifiad o'r Gronfa

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed (y Gronfa) yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

1.1 Cyffredinol

Llywodraethir y Gronfa gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac fe'i gweinyddir yn unol â'r is-deddfwriaethau canlynol:

- Rheoliadau CPLlL 2013 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLlL (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Diwygiadau) 2014 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau CPLlL (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn buddion diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i ddarparu pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensiynadwy Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion a nifer amrywiol eraill o gyrff rhestredig a chyrff a dderbynnir o fewn ardal ddaearyddol hen awdurdod Dyfed. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a diffoddwyr tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn aelodau o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill.

Goruchwylir y Gronfa gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed (y Pwyllgor).

1.2 Aelodaeth

Mae aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael eu cofrestru'n awtomatig ac maent yn rhydd i ddewis aros yn y cynllun neu wneud eu trefniadau personol eu hunain y tu allan i'r cynllun.

Mae'r cyrff sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys:

- Cyrff rhestredig sef awdurdodau lleol a chyrff cyffelyb y mae eu staff â hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a dderbynnir sef cyrff eraill sy'n cyfrannu i'r Gronfa dan gytundeb derbyn rhwng y Gronfa a'r corff dan sylw. Mae cyrff a dderbynnir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, cyrff elusennol a chyrff eraill cyffelyb neu gontractwyr preifat sy'n cyflawni swyddogaethau awdurdod lleol yn dilyn rhoi gwaith ar gontract allanol i'r sector preifat.

Ar 31 Mawrth 2026 roedd 72 o gyrff cyflogwyr yng Nghronfa Bensiwn Dyfed ac mae'r manylion i'w gweld yn Nodyn 20. Mae manylion aelodaeth y cyrff hyn wedi'u crynhoi isod:

31/03/25		31/03/26
19,583	Nifer o gyfranwyr gweithredol yn y Gronfa	19,985
17,584	Nifer o bensiynwyr	18,377
16,563	Nifer o bensiynwyr gohiriedig	16,448
3,189	Nifer o ymadawyr heb benderfynu	3,334
56,919	**Cyfanswm aelodau**	**58,144**
50	Nifer o gyflogwyr gyda chyfranwyr gweithredol*	50

* Ymunodd Haverfordwest Airport Ltd â'r cynllun a gadawodd Burry Port Marina Ltd yn ystod 2025-26

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa fel y'i cofnodwyd ar 31 Mawrth 2026 ond maent yn dueddol i newid ar ôl diwedd y flwyddyn gan fod datganiadau gan y cyrff cyflogi yn dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw.

1.3 Cyllido

Cyllidir y buddion gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Telir cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Gronfa yn unol â Rheoliadau CPLIL 2013 ac ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 March 2026 roedd y cyfraniadau'n amrywio rhwng 5.5% a 12.5% o'r cyflog pensiynadwy. Cyfatebir cyfraniadau'r gweithwyr gan gyfraniadau'r cyflogwyr a seilir ar brisiad actiwaraidd a gynhelir bob tair blynedd. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2022. Ar hyn o bryd mae cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr yn amrywio rhwng 0% a 35.5% o'r cyflog pensiynadwy, fel y nodir yn Nodyn 20.

1.4 Buddion

Dan CPLIL seilir buddion pensiwn ar y cyflog pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy, fel y crynhoir isod:

Gwaanaeth cyn 1 Ebrill 2008:

- Pensiwn – Pob blwyddyn yn werth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.
- Cyfandaliad – Cyfandaliad awtomatig 3 x y cyflog. Hefyd gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian untro di-dreth. Telir £12 o gyfandalaid am bob £1 o bensiwn a ildir.

Gwasanaeth 31 Mawrth 2008 – 31 Mawrth 2014:

- Pensiwn – Pob blwyddyn yn werth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
- Cyfandaliad – Dim cyfandaliad awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian untro di-dreth. Telir £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir

1 Ebrill 2014 hyd yn hyn:

- Daeth y cynllun yn gynllun cyfartaledd gyrfa, lle bydd aelodau'n cronni buddion yn seiliedig ar eu tâl pensiynadwy yn y flwyddyn honno ar gyfradd gronni o 1/49fed. Caiff gwerth pensiwn a gronnwyd ei godi'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Mae aelodau cymwys wedi cadw diogeliadau "McCloud" hyd at 31 Mawrth 2022.

Darperir ystod o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau salwch a buddion marwolaeth, cyrchwch wefan Cronfa Bensiwn Dyfed i gael rhagor o fanylion – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

2 Sail y paratoi

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn rhoi crynodeb o drafodion y Gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-26 ac yn nodi ei sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn sef 31 Mawrth 2026. Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chôd Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26 a seiliwyd ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n daladwy ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Datgelir gwerth actiwaraidd presennol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo yn y Datganiad gan yr Actiwari Ymgynghorol.

3 Crynodeb o bolisïau cyfrifyddu o bwys

Cyfrif Y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

3.1 Cyfraniadau

Cyfrifir am gyfraniadau arferol yr aelodau a'r cyflogwyr ar sail groniadol yn ôl y gyfradd ganrannol a argymhellwyd gan actiwari'r gronfa yn ystod cyfnod y gyflogres y maent yn berthnasol iddo.

Cyfrifir am gyfraniadau'r cyflogwyr ar gyfer ychwanegiadau a straen ar bensiynau yn y cyfnod y mae'r ymrwymiadau hynny'n codi. Bydd unrhyw swm sy'n ddyledus mewn blwyddyn ond heb ei dalu yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol.

Cyfrifir am y cyfraniadau gan gyflogwyr i gyllido'r diffyg ar y dyddiad penodedig ar gyfer eu talu yn unol â'r atodlen cyfraniadau a bennwyd gan actiwari'r cynllun neu ar y dyddiad derbyn os ydynt yn dod i law cyn y dyddiad penodedig.

3.2 Trosglwyddiadau i gynlluniau eraill ac o gynlluniau eraill

Mae gwerth trosglwyddiadau yn cynrychioli gwerth y symiau a dderbyniwyd ac a dalwyd yn ystod y flwyddyn mewn perthynas ag aelodau sydd naill ai'n ymuno neu'n ymadael â'r Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol, a chânt eu cyfrif yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Cyfrifir am drosglwyddiadau unigol i mewn/allan pryd y'u derbynnir/telir, sydd fel arfer yn digwydd pan dderbynnir/rhyddheir rhwymedigaeth yr aelod.

Rhoddir cyfrif ar ffurf derbyniadau am y trosglwyddiadau i mewn gan yr aelodau hynny sydd am ddefnyddio enillion eu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i brynu buddion y cynllun, ac maent wedi'u cynnwys o dan Drosglwyddiadau i Mewn.

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) ar sail groniadol yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

3.3 Incwm o fuddsoddiadau

3.3.1 Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yn y gronfa fel y mae'n cronni gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol fel dyddiad caffael neu fan cychwyn.

Mae'r incwm yn cynnwys amorteiddio unrhyw ostyngiad neu bremiwm, costau prynu (lle bônt yn faterol) neu unrhyw wahaniaethau eraill rhwng y swm cychwynnol a'r swm adeg aeddfedu a gyfrifwyd ar sail cyfradd llog effeithiol.

3.3.2 Incwm difidendau

Cydnabyddir incwm difidendau ar y dyddiad y mae'r difidend ar gyfranddaliadau yn daladwy. Mae unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol yn y datganiad asedau net.

3.3.3 Dosbarthiad Incwm Cronfeydd ar y Cyd

Cydnabyddir incwm a ddosberthir o gronfeydd ar y cyd ar y dyddiad y'i cyhoeddir. Mae unrhyw swm na dderbynnir erbyn diwedd cyfnod yr adroddiad yn cael ei nodi fel ased ariannol cyfredol yn y datganiad asedau net.

3.3.4 Symudiadau o ran gwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Ystyrir bod newidiadau o ran gwerth net buddsoddiadau ar y farchnad (gan gynnwys eiddo buddsoddi) yn incwm, a'u bod yn cynnwys yr holl elw/colledion cyflawnedig ac anghyflawnedig yn ystod y flwyddyn.

3.4 Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiynau a'r cyfandaliadau sy'n daladwy yn cynnwys yr holl symiau y gwyddys eu bod yn ddyledus ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae unrhyw symiau dyledus na thelir yn cael eu nodi fel rhwymedigaethau cyfredol yn y datganiad asedau net.

3.5 Trethiant

Mae'r Gronfa wedi'i chofrestru yn gynllun gwasanaeth cyhoeddus dan adran 1(1) Atodlen 36 i Ddeddf Cyllid 2004 ac o'r herwydd mae wedi'i heithrio rhag talu treth incwm y DU ar log a dderbynnir a threth enillion cyfalaf ar yr elw ar werthu buddsoddiadau. Codir treth ataliedig arincwm o fuddsoddiadau mewn gwledydd tramor yn y wlad berthnasol oni bai y caniateir rhyddhad. Cyfrifir am dreth na ellir ei adennill fel gwariant y gronfa, fel y cyfyd.

Gan mai Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu, gellir adennill TAW ar holl weithgareddau'r Gronfa. Nid yw'r Cyfrifon a ddangosir yn cynnwys TAW.

3.6 Treuliau Rheoli

Nid yw'r Côd yn mynnu bod dadansoddiad manwl ar gael o gostau gweinyddu cronfa bensiwn. Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, mae'r Cyngor yn datgelu treuliau rheoli ei gronfa bensiwn yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sef Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses 2016.

Cyfrifir am yr holl wariant gweinyddol ar sail groniadol. Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am holl gostau staff y tîm gweinyddol. Yn unol â pholisi'r Cyngor mae'r Gronfa yn gyfrifol am dalu'r gyfran briodol o gostau'r rheolaeth, y swyddfeydd a'r gorbenion cysylltiedig.

Rhoddir cyfrif am yr holl gostau goruchwylio a llywodraethu ar sail gronedig. Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am yr holl gostau staff sydd ynghlwm wrth arolygu a llywodraethu. Caiff y costau rheoli, costau'r swyddfeydd a'r costau cysylltiedig eraill eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn, a chodir ar y gronfa amdanynt ar ffurf treuliau.

Cyfrifir am yr holl wariant ar reoli buddsoddiadau ar sail groniadol.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywio eu penodiadau. Yn fras, seilir y rhain ar yr hyn yw gwerth y buddsoddiadau a reolir ar y farchnad ac felly gallant godi neu ddisgyn yn ôl y newidiadau yng ngwerth y buddsoddiadau.

Mae elfen o ffi un o'r Rheolwyr Buddsoddi yn gysylltiedig â pherfformiad. Roedd costau cysylltiedig â pherfformiad yn £0.30 miliwn yn 2025-26 (2024-25: Ffi o £0.38 miliwn).

Codir yn uniongyrchol ar y gronfa am gostau tîm buddsoddi pensiynau yr Awdurdod ynghyd â chyfran o gostau'r Awdurdod o ran yr amser rheoli a dreulid gan swyddogion ar reoli buddsoddiadau. Cododd yr Awdurdod swm o £1.5 miliwn (£1.3 miliwn yn 2024-25) ar y Gronfa Bensiwn mewn perthynas â gweinyddiaeth a chymorth yn ystod 2025-26.

Datganiad Asedau Net

3.7 Asedau Ariannol

Mae'r asedau ariannol wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr adroddiad. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i'r cytundeb i gaffael yr ased. O'r dyddiad hwn bydd unrhyw enillion neu golledion a berir gan newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod gan y Gronfa.

Pennir gwerth y buddsoddiadau fel y'u nodir yn y datganiad asedau net, fel a ganlyn:

3.7.1 Buddsoddiadau a ddyfynnwyd ar y farchnad

Pennir gwerth buddsoddiad y mae pris ar y farchnad ar gael yn hwylus ar ei gyfer gan y pris prynu uchaf ar y farchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifyddu.

3.7.2 Gwarannau llog sefydlog

Cofnodir gwarannau llog sefydlog yn ôl y gwerth net ar y farchnad.

3.7.3 Buddsoddiadau heb eu dyfynnu

Prisir buddsoddiadau mewn eiddo heb ei ddyfynnu a chronfeydd seilwaith ar y cyd yn ôl gwerth net yr asedau neu bris sengl a roddir gan y rheolwr buddsoddi.

3.7.4 Partneriaethau Cyfyngedig

Seilir y gwerth teg ar werth net yr asedau yn dilyn prisiadau cyfnodol gan y rheiny sy'n rheoli'r bartneriaeth.

3.7.5 Cyfryngau buddsoddi ar y cyd

Prisir cyfryngau buddsoddi ar y cyd yn ôl y pris prynu uchaf amser cau. Os nad yw hwnnw ar gael prisir y buddsoddiadau yn ôl y pris sengl amser cau. O ran cronfeydd cronnus bydd y newid yn y gwerth ar y farchnad hefyd yn cynnwys incwm sy'n cael ei ail fuddsoddi yn y Gronfa.

Mae gan Gronfa Bensiwn Dyfed a'r saith cyfranddaliwr arall gyfran o 12.5% yr un yng Nghwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (Rhif Cwmni 16645479). Fel y cyfryw, bernir nad oes gan unrhyw Gronfa ddylanwad sylweddol, a rhoddir cyfrif am y buddsoddiad hirdymor hwn ar werth teg. Mae'r ased yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl cost a bydd yn cael ei ailbrisio wedyn ar gyfer unrhyw ddiffyg. Rhoddodd y Gronfa gyfraniad o £158,825 yn ystod 2025-26 i ddarparu ar gyfer costau cychwynnol sefydlu'r cwmni.

3.8 Trafodion arian tramor

Caiff difidendau, llog a phryniant a gwerthiant buddsoddiadau mewn arian tramor eu cyfrif yn ôl y cyfraddau ar y farchnad sbot ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid diwedd y flwyddyn ar y farchnad sbot i brisio'r arian gweddill a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad ac unrhyw bryniannau a gwerthiannau tramor sydd heb eu cwblhau ar ddiwedd cyfnod yr adroddiad.

3.9 Arian ac arian cyfwerth

Mae arian yn cynnwys arian parod ac arian y gellir ei godi'n ôl y galw gan gynnwys y symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa.

Buddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosglwyddo yn symiau hysbys o arian yw arian cyfwerth a bychan iawn yw'r risg y bydd ei werth yn newid.

Mae gan y Gronfa ei chyfrifon banc ei hun ers 1 Ebrill 2011 i ddelio gyda thrafodion y Gronfa, yn unol ag adran 6 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd Pensiwn) 2009.

Caiff yr arian gweddill a ddelir gan y Gronfa ei fuddsoddi am gyfnodau byrdymor ar Farchnad Ariannol Llundain gan Cyngor Sir Gaerfyrddin nes y bydd ei angen i dalu ei rhwymedigaethau neu i drosglwyddo arian dros ben i'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer ei ail fuddsoddi.

3.10 Rhwymedigaethau ariannol

Mae'r Gronfa yn cydnabod rhwymedigaethau ariannol yn ôl eu gwerth teg ar ddyddiad yr adroddiad. Caiff rhwymedigaeth ariannol ei gydnabod yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y daw'r Gronfa'n barti i'r ymrwymiad. O'r dyddiad hwnnw bydd unrhyw enillion neu golledion a berir gan newidiadau yn y gwerth teg yn cael eu cydnabod gan y Gronfa.

3.11 Gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Caiff gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo eu hasesu bob tair blynedd gan actiwari'r cynllun yn unol â gofynion IAS19 a'r safonau actiwaraidd perthnasol.

Fel y caniateir dan y Côd, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth presennol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gyfeirio ato yn yr adroddiad actiwaraidd sydd ynghlwm.

3.12 Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'n statudol ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddarparu trefniadau mewnol o ran Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY). Mae gan y Gronfa ddarparwyr ar y cyd: Prudential, Standard Life ac UTMOST, sy'n darparu ystod o ddewisiadau o ran buddsoddi.

Aelodau unigol y Cynllun sydd i bennu faint y maent am gyfrannu (yn amodol ar derfynau a bennwyd gan Gyllid a Thollau EF) ac ar elfennau neu gynnwys y buddsoddiad.

Buddsoddir CGY ar wahân i asedau'r Gronfa ac ni chânt eu cynnwys yn y cyfrifon yn unol ag adran 4(2)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd Pensiwn) 2009 (SI 2009/3093). Fe'i datgelir fel nodyn yn unig – Nodyn 17.

4 Barn gritigol wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu

4.1 Rhwymedigaeth y Gronfa

Caiff rhwymedigaeth y Gronfa ei chyfrif bob tair blynedd gan yr actiwari a benodwyd ac mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r canllawiau arferol ac yn cydymffurfio ag IAS 19. Cytunir gyda'r actiwari ynghylch y rhagdybiaethau sydd i'w defnyddio yn gynsail i'r prisiannau ac maent wedi'u crynhoi yn Nodyn 22. Gall newid yn y rhagdybiaethau beri amrywiad mawr yn yr amcangyfrif.

4.2 Buddsoddiadau mewn Eiddo heb ei Ddyfynnu – Partners Group Red Dragon Limited Partnership

Wrth asesu gwerth teg yr offerynnau ariannol nas masnachwyd, mae'r Bartneriaeth Gyfyngedig yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau'r farchnad a dulliau incwm megis y tro diwethaf y'u hariannwyd, enillion ac aml-ddadansoddiad, dull llif arian disgowntiedig, a phrisio trydydd parti ac mae'n llunio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar amodau'r farchnad a rhagdybiaethau ynghylch y rhai sy'n cyfranogi yn y farchnad, sy'n bodoli ar ddiwedd pob cyfnod adroddiad. Mae'r wybodaeth arall a ddefnyddiwyd wrth bennu gwerth teg yr offerynnau ariannol nas masnachir

yn cynnwys yr adroddiadau ariannol diweddaraf, y llif arian dilynol a monitro mewnol o ddigwyddiadau sbarduno (megis ymadael a Chynigion Cyhoeddus Cychwynnol – IPOs) yn ogystal â newidiadau ym mhrisio buddsoddiadau cymharol ynghyd â thechnegau megis modelau prisio opsiynau, a gwerth ddisgowntiedig amcangyfrifol y llif arian yn y dyfodol. Mae'r arferion hyn yn unol â'r canllawiau rhyngwladol a ddefnyddir yn eang gan y diwydiant. Gwerth y Partners Group Red Dragon Limited Partnership ar 31 Mawrth 2026 oedd £35.2 miliwn. (£36.4 miliwn ar 31 Mawrth 2025).

5 Tybiaethau a Wnaethpwyd am y Dyfodol a Ffynonellau Mawr Eraill Ansicrwydd wrth Amcangyfrif

Yn y Datganiad o Gyfrifon ceir ffigurau amcangyfrifedig sydd wedi'u seilio ar dybiaethau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud am y dyfodol neu sy'n ansicr mewn rhyw ffordd arall. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd mewn i ystyriaeth profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai'r gwir ganlyniadau fod yn sylweddol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'r eitemau yn y Datganiad Asedau Net ar 31 Mawrth 2026 lle mae risg sylweddol y cânt eu haddasu'n sylweddol yn y flwyddyn ariannol i ddod fel a ganlyn:

Eitem	**Elfennau ansicr**	**Effaith os bydd y gwir ganlyniadau'n wahanol i'r tybiaethau**
Gwerth presennol actiwaraidd o fudd-daliadau ymddeol a addawyd	Mae'r amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd yr amcangyfrifir y bydd cyflogau'n codi, newidiadau i oed ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r enillion a ddisgwylir ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwarïaid ymgynghorol wedi cael ei gyflogi i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod am y tybiaethau i gael eu defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau i dybiaethau unigol ar y rhwymedigaeth bensiynau net. Fodd bynnag, mae'r tybiaethau'n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Eiddo – Buddsoddiadau Partneriaeth Gyfyngedig	Mae'r buddsoddiadau eiddo mewn Partneriaethau Gyfyngedig yn cael eu prisio yn unol a chanllawiau a ddefnyddir yn eang drwy'r ddiwydiant. Nid yw'r buddsoddiadau yma wedi'u rhestri'n gyhoeddus felly mae yna radd o amcangyfrif yn y prisiad.	Cyfanswm o'r buddsoddiadau eiddo mewn Partneriaethau Gyfyngedig yw £35.2 miliwn. Mae yna risg fod y prisiad yma wedi'i dan-brisio neu gor-brisio yn y cyfrifon.

Dewisiadau amgen – Cronfa Incwm Amgen Strategol (SAIF) a Choedwigaeth Gresham House.	Caiff y buddsoddiadau SAIF eu prisio yn unol â'r canllawiau a ddefnyddir yn eang yn y diwydiant. Nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi'u rhestru'n gyhoeddus ac felly mae rhywfaint o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad.	Mae'r buddsoddiadau amgen gyda'r Gronfa Incwm Amgen Strategol a Choedwigaeth Gresham House yn werth £130.8 miliwn a £23.1 miliwn yn y drefn honno. Mae perygl y gallai'r buddsoddiadau hyn gael eu datgan yn rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon.
Marchnadoedd Preifat – Partneriaeth Pensiwn Cymru Buddsoddiadau Seilwaith a Chredyd Preifat	Caiff y buddsoddiadau eu prisio yn unol â'r canllawiau a ddefnyddir yn eang yn y diwydiant. Nid yw'r buddsoddiadau hyn wedi'u rhestru'n gyhoeddus ac felly mae rhywfaint o amcangyfrif yn gysylltiedig â'r prisiad.	Mae'r buddsoddiadau seilwaith gyda GCM Grosvenor a Capital Dynamics yn werth £75.1 miliwn a £7.8 miliwn yn y drefn honno ac mae'r buddsoddiad credyd preifat gyda Russell Investments yn werth £93.5 miliwn. Mae perygl y gallai'r buddsoddiadau hyn gael eu datgan yn rhy isel neu'n rhy uchel yn y cyfrifon.

6 Trosglwyddiadau i fewn o gronfeydd pensiwn eraill

2024-25 £'000		2025-26 £'000
0	Trosglwyddiadau grŵp	0
8,544	Trosglwyddiadau unigol	11,676
8,544		**11,676**

7 Taliadau i Ymadawyr a Thaliadau Mewn Perthynas â Hwy

2024-25 £'000		2025-26 £'000
(276)	Ad-daliadau i aelodau yn gadael y gwasanaeth	(243)
(9,126)	Trosglwyddiadau unigol i gynlluniau eraill	(9,243)
(9,402)		**(9,486)**

8 Treuliau Rheoli

2024-25 £'000		2025-26 £'000
(1,763)	Costau gweinyddol	(2,029)
(9,836)	Treuliau rheoli buddsoddiadau	(8,016)
(667)	Costau goruchwylio a llywodraethu	(939)
(12,266)		**(10,984)**

Ffioedd archwilio o £41,083 am 2025-26 wedi'u cynnwys yn y costau goruwchwylio a llywodraethu. (£39,077 am 2024-25)

8.1 Treuliadau Rheoli'r Buddsoddiadau

2025-26	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cyfanswm	Ffioedd Rheoli	Ffioedd sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad	Costau Trafodion
Buddsoddiadau ar y cyd				
Ecwitïau	2,990	1,092	304	1,594
Bondiau Corfforaethol	274	274	0	0
Seilwaith	1,572	665	0	907
Credyd Preifat	496	496	0	0
Asedau amgen	1,150	799	0	351
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd				
Eiddo	1,264	1,109	0	155
	7,746	**4,435**	**304**	**3,007**
Ffioedd Ceidwad	270			
Cyfanswm	**8,016**			

2024-25	£'000	£'000	£'000	£'000
	Cyfanswm	Ffioedd Rheoli	Ffioedd sy'n Gysylltiedig â Pherfformiad	Costau Trafodion
Buddsoddiadau ar y cyd				
Ecwitïau*	5,934	3,707	382	1,845
Bondiau Corfforaethol*	249	249	0	0
Seilwaith	911	403	0	508
Credyd Preifat	374	374	0	0
Asedau amgen	774	654	0	120
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd				
Eiddo	1,326	1,116	0	210
	9,568	**6,503**	**382**	**2,683**
Ffioedd Ceidwad*	268			
Cyfanswm	**9,836**			

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu treuliau rheoli buddsoddiadau yn ôl math o asedau. Mae tabl 2024-25 wedi'i ailddatgan er mwyn ei gyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

*Mae tabl 2024-25 hefyd wedi'i ailddatgan i rannu'r ffioedd rheoli a'r ffioedd ceidwad ar gyfer Cronfa Twf Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru, Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru a Chronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy Partneriaeth Pensiwn Cymru.

8.2 Ffioedd Sylfaenol

Mae'r tabl isod yn cynrychioli ffioedd rheolwr sylfaenol, ni chaiff y ffioedd hyn eu codi ar y cyfrifon ond fe'u datgelir yma ar gyfer tryloywder. Nid yw'r adenillion ar gyfer y mandadau hyn yn cynnwys costau rheolwr sylfaenol; mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Newid yn y Gwerth ar y Farchnad.

2024-25 £'000		2025-26 £'000
613	BlackRock	580
2,380	Schroders	2,774
6	Partners Group	104
2,642	Partneriaeth Pensiwn Cymru	6,524
5,641		**9,982**

9 Incwm ar Fuddsoddiadau

2024-25 £'000		2025-26 £'000
19,811	Incwm o Ecwitïau	20,248
13,965	Incwm o Eiddo	15,690
13,574	Incwm o Bondiau Corfforaethol	13,645
414	Incwm o Seilwaith	659
8,079	Incwm o Asedau amgen	7,143
287	Llog ar adneuon Arian Parod	2,805
56,130		**60,190**

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu incwm ar fuddsoddiadau yn ôl math o asedau. Mae gwybodaeth 2024-25 wedi'i hailddatgan er mwyn ei chyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

10 Treth

2024-25 £'000		2025-26 £'000
0	Treth Ataliedig - buddsoddi ar y cyd	0
0		**0**

11 Buddsoddiadau

11.1 Asedau buddsoddi net

Gwerth teg 31/03/2025 £'000		Gwerth teg 31/03/2026 £'000
	Buddsoddiadau Tymor Hir	
0	Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Cyf PPC	159
0		**159**
	Asedau buddsoddi	
	Buddsoddi ar y cyd	
425,821	Ecwitiau DU	492,982
1,142,787	Ecwitiau byd-eang	1,240,514
181,911	Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	205,990
52,222	Ecwitïau Ewropeaidd	51,995
139,054	Ecwitïau Japan	0
210,131	Ecwitïau Marchnadoedd Datblygol	267,909
404,034	ACS Cronfa Olrhain Ecwiti Carbon Isel y Byd	0
0	Cronfa Ecwiti Mewnwelediadau ESG y Byd PPC	472,180
336,993	Bondiau Corfforaethol	397,603
131,559	Asedau Amgen	153,917
56,448	Seilwaith	82,914
69,806	Credyd Preifat	93,511
404,300	Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	500,059
3,555,066		**3,959,574**
7,279	**Adneuon Arian Parod**	15,913
475	**Incwm buddsoddi sy'n ddyledus**	1,048
0	**Symiau derbyniadwy ar gyfer gwerthiannau**	0
7,754		**16,961**
3,562,820	**Cyfanswm asedau buddsoddi**	**3,976,535**
	Rhwymedigaethau buddsoddi	
(340)	Symiau sy'n daladwy am bryniadau	0
(340)	Cyfanswm rhwymedigaethau buddsoddi	**0**
3,562,480	**Asedau buddsoddi net**	**3,976,694**

11.2 Dadansoddiad o symudiadau o'r buddsoddiadau

Yn ystod y flwyddyn, prynwyd cyfanswm o £174m o fuddsoddiadau a gwerthwyd cyfanswm o £104m. Mae costau prynu a gwerthu wedi'u cynnwys ym mhris prynu ac enillion gwerthu y buddsoddiad.

	Gwerth teg 31/03/2025	Cost	Werthu	Ffioedd wedi cynnwys yn NAV	Symudiad ariannol	Cynyddion/ (Colledion) heb ei realeiddio	Gwerth teg 31/03/2026
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau ar y cyd							
Ecwitïau	2,555,960	495,260	(387,346)	(2,657)	0	70,353	2,731,570
Bondiau Corfforaethol	336,993	37,003	0	(325)	0	23,932	397,603
Seilwaith	56,448	21,835	(619)	(1,572)	0	6,822	82,914
Credyd Preifat	69,806	19,816	0	(496)	0	4,385	93,511
Asedau amgen	131,559	24,832	0	(1,475)	0	(999)	153,917
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd							
Eiddo	404,300	376,389	(242,045)	(555)	0	(38,030)	500,059
Buddsoddiadau Tymor Hir Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Cyf PPC	0	159	0	0	0	0	159
	3,555,066	**975,294**	**(630,010)**	**(7,080)**	**0**	**66,463**	**3,959,733**
Balansau buddsoddi eraill							
Adnau ariannol	7,279	0	0	0	8,634	0	15,913
Symiau i'w derbyn o werthiannau buddsoddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn	474	0	0	0	574	0	1,048
Ad-daliadau treth i'w derbyn	1	0	0	0	(1)	0	0
Symiau sy'n daladwy am bryniadau buddsoddiadau	(340)	0	0	0	340	0	0
	3,562,480	**975,294**	**(630,010)**	**(7,080)**	**9,547**	**66,463**	**3,976,694**

	Gwerth teg 31/03/2024	Cost	Werthu	Ffioedd wedi cynnwys yn NAV	Symudiad ariannol	Cynyddion/ (Colledion) heb ei realeiddio	Gwerth teg 31/03/2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau ar y cyd							
Ecwitïau	2,549,832	26,377	(51,226)	(5,435)	0	36,412	2,555,960
Bondiau Corfforaethol	321,959	13,574	0	(292)	0	1,752	336,993
Seilwaith	27,460	28,577	(1,165)	(911)	0	2,487	56,448
Credyd Preifat	13,944	51,577	0	(374)	0	4,659	69,806
Asedau amgen	130,905	4,108	0	(1,102)	0	(2,352)	131,559
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd							
Eiddo	409,627	50,250	(51,815)	(668)	0	(3,094)	404,300
	3,453,727	**174,463**	**(104,206)**	**(8,782)**	**0**	**39,864**	**3,555,066**

Balansau buddsoddi eraill							
Adnau ariannol	13,693	0	0	0	(6,414)	0	7,279
Symiau i'w derbyn o werthiannau buddsoddiadau	0	0	0	0	0	0	0
Incwm ar fuddsoddiadau i'w derbyn	83	0	0	0	391	0	474
Ad-daliadau treth i'w derbyn	59	0	0	0	(58)	0	1
Symiau sy'n daladwy am bryniadau buddsoddiadau	0	0	0	0	(340)	0	(340)
	3,467,562	**174,463**	**(104,206)**	**(8,782)**	**(6,421)**	**39,864**	**3,562,480**

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu yn ôl math o asedau. Mae gwybodaeth 2024-25 wedi'i hailddatgan er mwyn ei chyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

11.3 Cynyddion a gostyngiadau wedi eu realeiddio

2024-25 £'000		**2025-26 £'000**
32,327	Buddsoddiadau cyfun – Ecwitïau	288,036
0	Buddsoddiadau cyfun - Seilwaith	125
1,611	Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	31,471
33,938		**319,632**

11.4 Dadansoddiad rheolwyr y Gronfa

Gwerth y farchnad 31/03/25 £'000	**%**	**Dadansoddiad rheolwr y gronfa**	**%**	**Gwerth y farchnad 31/03/26 £'000**
1,142,789	32.1	Partneriaeth Pensiwn Cymru - Cronfa Twf Byd-eang	31.2	1,240,513
336,993	9.5	Partneriaeth Pensiwn Cymru - Cronfa Credyd Byd-eang	10.0	397,603
181,911	5.1	Partneriaeth Pensiwn Cymru - Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	5.2	205,990
4,464	0.1	Capital Dynamics - Seilwaith	0.2	7,776
51,983	1.5	GCM Grosvenor - Seilwaith	1.9	75,138
69,806	1.9	Russell Investments - Credyd Preifat Byd-eang	2.4	93,511
0	0.0	Eiddo tirol ACS Partneriaeth Pensiwn Cymru Schroders	6.0	239,822
0	0.0	Coedwigaeth Gresham House – Asedau amgen	0.6	23,132
1,787,946	**50.2**		**57.5**	**2,283,485**
1,362,824	38.3	BlackRock	35.8	1,425,087
371,738	10.4	Schroders	5.8	229,904
39,972	1.1	Partners Group	0.9	38,059
1,774,534	**49.8**		**42.5**	**1,693,050**
3,562,480	**100.0**		**100.0**	**3,976,535**

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu dadansoddiad rheolwr y gronfa yn ôl cronfa fuddsoddi. Mae gwybodaeth 2024-25 wedi'i hailddatgan er mwyn ei chyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

11.5 Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Mae'r Treuliau Rheoli (Tabl 8) yn cynnwys cost ein gwaith fel rhan o'r trefniadau ar y cyd i gyfuno buddsoddiadau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Y costau Goruchwylio a Llywodraethu yw costau cynnal blynyddol y gronfa sy'n cynnwys costau'r Awdurdod Cynnal a chostau eraill Ymgynghorwyr Allanol. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Treuliau Rheoli Buddsoddiadau yn ffioedd sy'n daladwy i Waystone (gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwr y gronfa (sydd hefyd yn cynnwys ffioedd y gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd ceidwad. Mae'r costau hyn wedi'u seilio ar gyfran ganrannol pob Cronfa o asedau cyfun Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'u didynnir o'r Gwerth Asedau Net. Nid yw'r ffioedd rheolwr sylfaenol o £6.5 miliwn (2024-25: £2.6 miliwn) wedi'u cynnwys yn y tabl isod ac fe'u datgelir ar wahân yn dilyn y tabl.

Mae costau Partneriaeth Pensiwn Cymru a gafodd eu cynnwys yng nghyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2025-26:

Partneriaeth Pensiwn Cymru

2024-25 £'000		2025-26 £'000
	Costau Goruchwylio a Llywodraethu y PPC	
241	Costau rhedeg	272
	Treuliau Rheoli Buddsoddiadau y PPC	
4,427	Ffioedd Rheolwyr y Gronfa	2,469
1,575	Costau Trafodion	2,047
231	Ffioedd Ceidwad	229
6,474		**5,017**

Partneriaeth Pensiwn Cymru - Ffioedd Sylfaenol

2024-25 £'000		2025-26 £'000
673	Cronfa Twf Byd-eang	2,691
262	Cronfa Credyd Byd-Eang	306
550	Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy	590
1,157	Marchnadoedd Preifat	2,937
2,642		**6,524**

12 Crynhoi buddsoddiadau

Roedd y buddsoddiadau canlynol yn cynrychioli mwy na 5% o gyfanswm asedau net y Gronfa ar 31 Mawrth 2026 a 31 Mawrth 2025:

	Eu gwerth ar 31/03/2026 Ailddatganwyd £'000	Y gyfran o'r portffolio o fuddsoddiadau %
Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Twf Byd-Eang)	1,240,513	31.19
Cronfa 'BlackRock Aquila Life UK Equity'	492,982	12.39
Cronfa 'BlackRock ACS World Low Carbon Tracker'	472,180	11.87
Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Credyd Byd-Eang)	397,603	10.00
Cronfa 'BlackRock iShares Emerging Markets'	267,909	6.74
Eiddo tirol ACS Partneriaeth Pensiwn Cymru Schroders	239,822	6.03
Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Credyd Byd-Eang)	205,990	5.18

	Eu gwerth ar 31/03/2025 £'000	Y gyfran o'r portffolio o fuddsoddiadau %
Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Twf Byd-Eang)	1,142,788	32.08
Cronfa 'BlackRock Aquila Life UK Equity'	425,820	11.95
Cronfa 'BlackRock ACS World Low Carbon Tracker'	404,034	11.34
Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Credyd Byd-Eang)	336,993	9.46
Cronfa 'BlackRock iShares Emerging Markets'	210,131	5.90
Partneriaeth Pensiwn Cymru (Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy)	181,911	5.11

13 Offerynnau Ariannol

13.1 Dosbarthiad o offerynnau ariannol

Mae polisïau cyfrifyddu yn disgrifio sut y mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau yn cael eu mesur, a sut y mae incwm a gwariant, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi symiau cario yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol (ac eithrio arian) yn ôl categori a phenawdau'r datganiad asedau net.

2024-25					2025-26			
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	**Benthicia- dau a symiau sy'n dderbynia- dwy**	**Cost rhwy med- igaeth au ariann ol**	**Cyfanswm**		**Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled**	**Benthicia- dau a symiau sy'n dderbynia- dwy**	**Cost rhwy med- igaeth au ariann ol**	**Cyfanswm**
£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**		**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
				Asedau ariannol				
2,555,960	0	0	2,555,960	Ecwitïau	2,731,570	0	0	2,731,570
336,993	0	0	336,993	Bondiau Corfforaethol	397,603	0	0	397,603
56,448	0	0	56,448	Seilwaith	82,914	0	0	82,914
69,806	0	0	69,806	Credyd Preifat	93,511	0	0	93,511
131,559	0	0	131,559	Asedau amgen	153,917	0	0	153,917
404,300	0	0	404,300	Eiddo	500,059	0	0	500,059
0	0	0	0	Buddsoddiadau Tymor Hir	159	0	0	159
0	15,058	0	15,058	Arian Parod	0	28,474	0	28,474
475	0	0	475	Balansau buddsoddi eraill	1,048	0	0	1,048
0	9,685	0	9,685	Dyledwyr	0	9,881	0	9,881
3,555,541	**24,743**	**0**	**3,580,284**		**3,960,781**	**38,355**	**0**	**3,999,136**
				Rhwymedigaethau ariannol				
(340)	0	0	(340)	Balansau buddsoddi eraill	0	0	0	0
0	0	(5,052)	(5,052)	Credydwyr	0	0	(3,449)	(3,449)
(340)	**0**	**(5,052)**	**(5,392)**		**0**	**0**	**(3,449)**	**(3,449)**
3,555,201	**24,743**	**(5,052)**	**3,574,892**	**Cyfanswm**	**3,960,781**	**38,355**	**(3,449)**	**3,995,687**

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu'r dosbarthiadau yn ôl math o asedau. Mae gwybodaeth 2024-25 wedi'i hailddatgan er mwyn ei chyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

13.2 Elw a cholledion net o offerynnau ariannol

2024-25 £'000		2025-26 £'000
	Asedau ariannol	
73,802	Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	386,095
73,802	**Cyfanswm asedau ariannol**	**386,095**
0	**Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol**	**0**
73,802	**Cyfanswm**	**386,095**

13.3 Gwerth teg o offerynnau ariannol a rhwymedigaethau

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth cario yr asedau ariannol a'r rhwymedigaethau ariannol yn ôl dosbarth yr offeryn o'u cymharu â'u gwerthoedd teg:

Swm a gariwyd 31/03/25 £'000	Gwerth teg 31/03/25 £'000		Swm a gariwyd 31/03/26 £'000	Gwerth teg 31/03/26 £'000
		Asedau ariannol		
2,757,043	3,555,541	Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	3,102,741	3,960,622
24,743	24,743	Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy	38,355	38,355
0	0	Buddsoddiadau Tymor Hir	159	159
2,781,786	**3,580,284**	**Cyfanswm asedau ariannol**	**3,141,255**	**3,999,136**
		Rhwymedigaethau ariannol		
(340)	(340)	Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	0	0
(5,052)	(5,052)	Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio	(3,449)	(3,449)
(5,392)	**(5,392)**	**Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol**	**(3,449)**	**(3,449)**
2,776,394	**3,574,892**	**Cyfanswm**	**3,137,806**	**3,995,687**

13.4 Prisio offerynnau ariannol yn cael eu cario yn ôl gwerth teg

Rhennir prisiad offerynnau ariannol yn dri dosbarth yn ôl ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddir i bennu'r gwerth teg. Mae trosglwyddiadau rhwng lefelau yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn y maent yn digwydd.

Lefel 1

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 1 yw'r rheiny lle daw eu gwerth teg o'r prisiau rhestredig nas addaswyd ar farchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau cwbl debyg. Mae'r nwyddau a ddosberthir i lefel 1 yn cynnwys ecwitis a restrir, gwarannau llog sefydlog a restrir, gwarannau mynegrifol a restrir a ymddiriedolaethau uned neilltuol.

Dangosir y buddsoddiadau a restrir yn ôl y pris cynnig. Seilir gwerth cynnig y buddsoddiad yn ôl y cynnig a restrir ar farchnad y gyfnewidfa stoc berthnasol.

Lefel 2

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 2 yw'r rheiny lle nad oes prisiau ar eu cyfer wedi'u rhestru ar y farchnad; er enghraifft lle caiff offeryn ei werthu ar farchnad na fernir ei bod yn weithredol, neu pan ddefnyddir technegau prisio i bennu'r gwerth teg ac mae'r technegau hynny'n defnyddio mewnbynnau sy'n seiliedig i raddau helaeth ar ddata gweladwy'r farchnad.

Lefel 3

Yr offerynnau ariannol a ddosberthir i Lefel 3 yw'r rheiny lle mae un o leiaf o'r mewnbynnau a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn, heb fod wedi'i seilio ar ddata gweladwy'r farchnad. Byddai'r cyfryw offerynnau yn cynnwys partneriaethau cyfyngedig, lle pennir y gwerth teg gan brisiannau cyfnodol a ddarperir gan y rheiny sy'n rheoli'r bartneriaeth. Mae archwiliad annibynnol o'r bartneriaeth yn rhoi sicrwydd ynghylch y prisiad.

13.5 Sylfaen y Prisio Gwerth Teg

Disgrifiad o'r ased	**Hierarchaeth brisio**	**Sylfaen y prisio**	**Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi**	**Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y prisiadau a roddwyd**
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	Lefel 1	Bernir bod gwerth cario-ymlaen yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn	Heb fod yn ofynnol	Heb fod yn ofynnol
Buddsoddiadau eiddo cyfun:	Lefel 1	Ymddiriedolaeth uned. Mae'n defnyddio pris cynnig y farchnad ar ddiwrnod olaf y cyfnod cyfrifyddu.	Heb fod yn ofynnol	Heb fod yn ofynnol
Buddsoddiadau cyfun: cronfeydd ecwiti	Lefel 2	Cyfrifir y Gwerth Asedau Net ar sail gwerth marchnadol yr asedau sylfaenol	Ffrydiau prisiau wedi'u gwerthuso	Heb fod yn ofynnol
Buddsoddiadau cyfun: cronfeydd incwm sefydlog	Lefel 2	Cyfrifir y Gwerth Asedau Net ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol	Ffrydiau prisiau wedi'u gwerthuso	Heb fod yn ofynnol
Cronfeydd eiddo cyfun	Lefel 3	Ceir gwerth teg o brisiadau cyfnodol a ddarperir gan y rhai sy'n rheoli'r bartneriaeth	Mewnbynnau arsylladwy-mae'r pris yn dibynnu ar wybodaeth nad yw ar	Gallai newidiadau i lif arian disgwyliedig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a

			gael i'r cyhoedd	chyfrifon heb eu harchwilio effeithio ar brisiadau
Buddsoddiadau cyfun: asedau amgen	Lefel 3	Ceir gwerth teg o brisiadau cyfnodol a ddarperir gan reolwr cronfa asedau	Mewnbynnau na ellir eu harsylwi - mae'r gronfa'n agored i warant ac asedau eraill na fydd ganddynt werthoedd marchnadol y gellir eu hasesu'n rhwydd	Gall prisiadau ddibynnu ar fodelau prisio mewnol ac allanol. Gall newidiadau mewn safonau, polisïau neu arferion cyfrifyddu effeithio arnynt hefyd
Buddsoddiadau cyfun: Marchnadoedd Preifat (Seilwaith a Chredyd Preifat)	Lefel 3	Ceir gwerth teg o brisiadau cyfnodol a ddarperir gan reolwr cronfa asedau	Mewnbynnau na ellir eu harsylwi - mae'r gronfa'n agored i warant ac asedau eraill na fydd ganddynt werthoedd marchnadol y gellir eu hasesu'n rhwydd	Gall prisiadau ddibynnu ar fodelau prisio mewnol ac allanol. Gall newidiadau mewn safonau, polisïau neu arferion cyfrifyddu effeithio arnynt hefyd

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa sydd wedi'u cynnwys yn y grwpiau 1 i 3, ar sail y gwerth y daw'r gwerth teg yn weladwy.

Gwerth teg ar 31 Mawrth 2026	Pris rhestredig y farchnad Lefel 1 £'000	Defnyddio mewnbynnau gweladwy Lefel 2 £'000	Gyda mewnbynnau sylweddol sy'n anweladwy Lefel 3 £'000	Cyfanswm £'000
Asedau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	102,021	3,129,173	729,428	3,960,622
Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy	38,355	0	0	38,355
Buddsoddiadau Tymor Hir	0	0	159	159
Cyfanswm asedau ariannol	**140,376**	**3,129,173**	**729,587**	**3,999,136**
Rhwymedigaethau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	0	0	0	0
Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio	(3,449)	0	0	(3,449)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	**(3,449)**	**0**	**0**	**(3,449)**
Asedau ariannol net	**136,927**	**3,129,173**	**729,587**	**3,995,687**

Gwerth teg ar 31 Mawrth 2025	Pris rhestredig y farchnad Lefel 1 £'000	Defnyddio mewnbynnau gweladwy Lefel 2 £'000	Gyda mewnbynnau sylweddol sy'n anweladwy Lefel 3 £'000	Cyfanswm £'000
Asedau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	6,613	2,912,387	636,541	3,555,541
Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy	24,743	0	0	24,743
Cyfanswm asedau ariannol	**31,356**	**2,912,387**	**636,541**	**3,580,284**

Rhwymedigaethau ariannol				
Dynodedig ar werth teg trwy elw a cholled	(340)	0	0	(340)
Rhwymedigaethau ariannol am gost wedi ei amorteiddio	(5,052)	0	0	(5,052)
Cyfanswm rhwymedigaethau ariannol	**(5,392)**	**0**	**0**	**(5,392)**
Asedau ariannol net	**25,964**	**2,912,387**	**636,541**	**3,574,892**

13.6 Cysoni mesuriadau gwerth teg o fewn lefel 3

2025-26

Math o Ased	**Gwerth y farchnad 1 Ebrill 2025**	**Pryniadau**	**Gwerth-iannau**	**Enillion / (Colledion) heb eu gwireddu**	**Enillion / (Colledion) wedi eu gwireddu**	**Gwerth y farchnad 31 Mawrth 2026**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Asedau Amgen	131,559	24,832	0	(2,474)	0	153,917
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	378,727	2,234	(26,571)	34,920	9,775	399,085
Seilwaith	56,448	21,835	(745)	5,251	125	82,914
Credyd Preifat	69,806	19,816	0	3,889	0	93,511
Buddsoddiadau Tymor Hir	0	159	0	0	0	159
Cyfanswm	**636,540**	**68,876**	**(27,316)**	**41,586**	**9,900**	**729,586**

2024-25

Math o Ased	**Gwerth y farchnad 1 Ebrill 2024**	**Pryniadau**	**Gwerth-iannau**	**Enillion / (Colledion) heb eu gwireddu**	**Enillion / (Colledion) wedi eu gwireddu**	**Gwerth y farchnad 31 Mawrth 2025**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Asedau Amgen	130,905	4,108	0	(3,454)	0	131,559
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	397,416	18,291	(11,390)	(25,027)	(563)	378,727
Seilwaith	27,460	28,577	(1,165)	1,576	0	56,448
Credyd Preifat	13,944	51,577	0	4,285	0	69,806
Cyfanswm	**569,725**	**102,553**	**(12,555)**	**(22,620)**	**(563)**	**636,540**

13.7 Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Nid oedd dim trosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2025-26.

14 Natur a maint y risg a berir gan offerynnau ariannol

14.1 Risg a rheoli risg

Mae'r Gronfa wedi datblygu proses ffurfiol o asesu risg ac mae'n cadw cofrestr ffurfiol o risgiau sy'n cael ei ddiweddaru yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau fod y risgiau yn cael eu clustnodi'n

briodol ac yn cael eu hasesu a'u rheoli yn effeithiol. Am ragor of fanylion, dylir cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

Prif risg hirdymor y Gronfa yw na fydd asedau'r Gronfa yn ddigon i dalu ei rhwymedigaethau (h.y. y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo i'r aelodau). Nod y gwaith o reoli'r risgiau buddsoddi felly yw lleihau cymaint â phosib ar y risg y bydd lleihad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a chynyddu cymaint â phosib ar y cyfleoedd i wneud enillion ar draws y portffolio cyfan. Drwy amrywio'r asedau mae'r Gronfa'n lleihau dylanwad risg y farchnad (risg prisiau, risg arian breiniol a risg cyfraddau llog) a risg credyd, a'i gadw i lefel dderbyniol. Mae'r Gronfa hefyd yn rheoli ei risg hylifedd i sicrhau y bydd digon o hylifedd i fodloni'r llif arian y rhagwelwyd y bydd ei angen ar y Gronfa. Rheolir y risgiau buddsoddi hyn gan yr Awdurdod yn rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risgiau'r Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Pennir polisïau rheoli risg i glustnodi a dadansoddi'r risgiau a wynebir gan weithrediadau pensiwn yr Awdurdod. Adolygir y polisïau yn rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn gweithgareddau ac amodau'r farchnad.

14.2 Risg y farchnad

Risg y Farchnad yw'r risg o golledion yn sgil newidiadau ym mhrisiau ecwitis, cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae gweithgareddau buddsoddi y Gronfa yn golygu ei bod yn agored i risg y farchnad yn neilltuol o ran yr ecwitis y mae'n eu dal. Mae lefel y risg y mae'r Gronfa yn agored iddo yn dibynnu ar amodau'r farchnad, y disgwyliadau o ran newidiadau mewn prisiau ac elw yn y dyfodol a chymysgedd yr asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw clustnodi a rheoli risg y farchnad a'i gadw o fewn terfynau derbyniol a hynny mewn modd sy'n optimeiddio'r enillion ar risg.

Yn gyffredinol rheolir anwadalwch eithafol yn risg y farchnad drwy gael portffolio sy'n amrywiol o ran sectorau daearyddol a diwydiannol a gwarannau unigol. I liniaru risg y farchnad mae'r Pwyllgor a'i ymgynghorydd annibynnol yn dilyn modd priodol o fonitro amodau'r farchnad a dadansoddi'r meincnod.

Mae gan y Gronfa dair ffordd o reoli'r risgiau hyn:

- Defnyddir dadansoddiad o ffactorau risg i fonitro risg y farchnad y mae'r Gronfa yn agored iddo i sicrhau fod y risg o fewn terfynau goddefol
- Cyfyngir ar risgiau neilltuol drwy bennu uchafswm, wedi'i bwysoli ar sail risg, ar gyfer rhai buddsoddiadau unigol
- Drwy fuddsoddi mewn portffolio sy'n amrywiol o ran rheolwyr a buddsoddiadau ac eto drwy i ragolygon yr actiwari gyfeirio at elw cymharol bwyllog dros yr hirdymor er lleihau'r posibilrwydd o danberfformio

14.3 Risg prisiau eraill

Y risgiau eraill yw'r rhai sy'n ymwneud â'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhrisiau'r farchnad (ar wahân i'r rheiny a berir gan risg cyfraddau llog a risg cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau hynny'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol, ei gyhoeddiad neu i ffactorau sy'n effeithio'r holl gyfryw offerynnau yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae hyn yn ymwneud â buddsoddiadau nad oes sicrwydd ynghylch eu prisiau yn y dyfodol. Mae risg o golled gyfalafol ynghlwm wrth bob buddsoddiad mewn gwarannau. Pennir uchafswm y risg a berir gan offerynnau ariannol gan eu gwerth teg.

Nid yw pensiynau buddiannau diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn gysylltiedig â pherfformiad y farchnad stoc, fe'u nodir mewn statud. Er y gall gwerthoedd buddsoddi byrdymor amrywio, caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel buddsoddwr hirdymor ei reoli'n ddiogel er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau tymor hwy.

Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn lleihau'r risg prisiau drwy amrywio'r portffolio ac mae'r Pwyllgor yn monitro'r gwarannau a'r offerynnau ariannol eraill a ddewisir i sicrhau eu bod o fewn y terfynau a bennwyd yn strategaeth fuddsoddi y Gronfa.

14.4 Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Pennir newidiadau posib mewn prisiau ar sail yr anwadalwch hanesyddol a welwyd mewn elw gan ddosbarth o ased. Mae'r anwadalwch posib a nodir isod yn gyson ag un symudiad gwyro safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau yn ystod y tair blynedd ddiweddaraf:

Math o Ased	Symudiad potensial y farchnad (+/-)
Ecwitis	9.60%
Bondiau	5.00%
Eiddo	1.80%
Asedau Amgen	2.30%
Seilwaith	2.30%
Credyd Preifat	10.00%
Arian parod	1.40%

Pe byddai pris y Gronfa ar y farchnad wedi codi/disgyn yn unol â'r uchod byddai'r newid yn yr asedau net ar gael i dalu buddion fel a ganlyn:

Math o Ased	Gwerth ar 31 Mawrth 2026	Newid	Gwerth ar gynydd	Gwerth ar ostyngiad
	£'000	%	£'000	£'000
Arian parod	15,913	1.40%	16,136	15,690
Ecwitis DU	492,982	9.60%	540,308	445,656
Ecwitis Tramor	792,085	9.60%	868,125	716,045
Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU	1,446,503	9.60%	1,585,367	1,307,639
Bondiau Corfforaethol	397,603	5.00%	417,483	377,723
Eiddo	500,059	1.80%	509,060	491,058
Asedau Amgen	153,917	2.30%	157,457	150,377
Seilwaith	82,914	2.30%	84,821	81,007
Credyd Preifat	93,511	10.00%	102,862	84,160
Gwerthiannau i'w derbyn	0	0.00%	0	0
Pryniadau i'w talu	0	0.00%	0	0
Buddsoddiadau Tymor Hir	159	0.00%	159	159
Incwm i'w derbyn	1,048	0.00%	1,048	1,048
Cyfanswm Asedau	**3,976,694**		**4,282,826**	**3,670,562**

Math o Ased	Gwerth ar 31 Mawrth 2025	Newid	Gwerth ar gynydd	Gwerth ar ostyngiad
	£'000	%	£'000	£'000
Arian parod	7,279	1.20%	7,366	7,192
Ecwitis DU	425,821	10.80%	471,810	379,832
Ecwitis Tramor	805,441	10.80%	892,428	718,453
Ecwitis Cyfun Byd-eang gan gynnwys y DU	1,324,698	10.80%	1,467,765	1,181,630
Bondiau Corfforaethol	336,993	7.50%	362,268	311,719
Eiddo	404,300	5.00%	424,515	384,085
Asedau Amgen	131,559	3.50%	136,164	126,955
Seilwaith	56,448	3.50%	58,423	54,472
Credyd Preifat	69,806	3.50%	72,249	67,363
Gwerthiannau i'w derbyn	0	0.00%	0	0
Pryniadau i'w talu	(340)	0.00%	(340)	(340)
Incwm i'w derbyn	475	0.00%	475	475
Cyfanswm Asedau	**3,562,480**		**3,893,123**	**3,231,836**

14.4.1 Sensitifrwydd asedau y rhoddir gwerth lefel 3 iddynt

Math o Ased	Gwerth ar 31 March 2026	Newid	Gwerth ar gynydd	Gwerth ar ostyngiad
	£'000	%	£'000	£'000
Asedau amgen	153,917	2.30%	157,457	150,377
Buddsoddiadau eiddo ar y cyd	399,085	1.80%	406,268	391,901
Seilwaith	82,914	2.30%	84,821	81,007
Credyd Preifat	93,511	10.00%	102,862	84,160
Buddsoddiadau Tymor Hir	159	0.00%	159	159
Cyfanswm	**729,586**		**751,567**	**707,604**

14.5 Risg cyfraddau llog

Prif ddiben y Gronfa wrth fuddsoddi mewn asedau ariannol yw ennill elw ar y buddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog sef y risg y bydd gwerth teg neu lif arian offeryn ariannol yn y dyfodol, yn amrywio oherwydd newid yng nghyfraddau llog y farchnad.

Caiff risg cyfraddau llog y Gronfa ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro'r hyn fuddsoddwyd mewn asedau ariannol yn erbyn y meincnodau perthnasol.

Yn rhan o'i brisiad tair blynedd, ac yn unol â gorchmynion y Datganiad Strategaeth Gyllido, bydd yr Actiwari ond yn rhagweld elw cymharol bwyllog dros yr hirdymor er lleihau'r risg o danberfformio. Caiff y cynnydd ei ddadansoddi mewn prisiadau teirblwydd ar gyfer pob cyflogwr.

Mae ymwneud uniongyrchol y Gronfa â symudiadau yn y cyfraddau llog ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026 wedi'u nodi isod. Mae'r datgeliadau hyn yn dangos risg cyfraddau llog yn ôl gwerth teg yr asedau ariannol sy'n sail iddynt:

31/03/25	Math o Ased	31/03/26
£'000		£'000
7,279	Arian cyfwerth ag arian parod	15,913
7,779	Arian parod gyda CSG	12,561
336,993	Bondiau	397,603
352,051	**Cyfanswm**	**426,077**

14.6 Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Gall cyfraddau llog amrywio a gallant effeithio incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn neilltuol cyfraddau cyfnewid, yn aros yn gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion yn ôl newid +/- 1% yn y cyfraddau llog:

Math o Ased	Gwerth ar 31/03/26	Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian cyfwerth ag arian parod	15,913	159	(159)
Arian gyda CSC	12,561	126	(126)
Bondiau	397,603	3,976	(3,976)
Cyfanswm newid mewn asedau	**426,077**	**4,261**	**(4,261)**

Math o Ased	Gwerth ar 31/03/25	Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau	
		+1%	-1%
	£'000	£'000	£'000
Arian cyfwerth ag arian parod	7,279	73	(73)
Arian gyda CSC	7,779	78	(78)
Bondiau	336,993	3,370	(3,370)
Cyfanswm newid mewn asedau	**352,051**	**3,521**	**(3,521)**

Mae'r Gronfa hefyd yn dal buddsoddiadau sy'n sensitif i raddau i gyfraddau llog, ond nad yw eu gwerthoedd yn symud mewn ffordd ragweladwy gyda chyfraddau llog, ac sydd hefyd yn elwa o gyfraddau llog amrywiol a/neu ffrydiau enillion heblaw incwm llog syml (e.e. ailbrisio asedau). Mae'r rhain yn cynnwys seilwaith, credyd preifat, ac eiddo tirol.

14.7 Cyfraddau Disgownt

Mae'r modd yr amcangyfrifir y rhwymedigaethau net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ystyriaethau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddir, cyfradd y codiad a ragwelir mewn cyflogau, newid yn yr oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau a'r elw disgwyliedig ar asedau'r gronfa. Cyflogir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i roi cyngor arbenigol i'r Awdurdod ynghylch y tybiaethau i'w defnyddio.

14.8 Risg Arian Breiniol

Risg arian breiniol yw'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn amrywio yn y dyfodol oherwydd y newid yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa yn agored i risg breiniol o ran offerynnau ariannol sy'n cael eu dal mewn unrhyw arian heblaw arian ymarferol y Gronfa (£ Sterling Prydain).Mae'r Gronfa'n dal asedau ariannol ac anariannol mewn ffurfiau arian heblaw am £ Sterling Prydain.

Caiff risg arian breiniol y Gronfa ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, gan gynnwys monitro i ba raddau y mae'n gael ei heffeithio gan gyfraddfeydd arian yn amrywio.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi buddsoddiadau'r Gronfa mewn arian breiniol ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026:

Gwerth teg 31/03/25 £'000	Math o Ased	Gwerth teg 31/03/26 £'000
2,130,140	Ecwitïau Byd-eang	2,238,588
336,993	Bondiau corfforaethol byd-eang	397,603
51,983	Seilwaith Byd-eang	75,138
69,806	Credyd Preifat Byd-eang	93,511
36,396	Eiddo tramor	35,182
2,625,318	**Cyfanswm asedau tramor**	**2,840,022**

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu'r cysylltiad arian cyfred yn ôl math o asedau. Mae gwybodaeth 2024-25 wedi'i hailddatgan er mwyn ei chyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

14.9 Dadansoddiad sensitifrwydd risg arian breiniol

Y risg arian cyfanredol o fuddsoddiadau tramor o fewn y Gronfa ar 31 Mawrth 2026 oedd 4.8% (2024-25: 5.9%).

Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl newidynnau eraill, yn neilltuol cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

Pe byddai'r bunt yn cryfhau/gwanhau yn ôl 4.8% yn erbyn yr amrywiol arian y mae gan y Gronfa fuddsoddiadau ynddynt, byddai'r asedau net ar gael i dalu buddion yn cynyddu/lleihau fel a ganlyn:

Math o Ased	Gwerth teg 31/03/26	Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau	
		+4.8%	-4.8%
	£'000	£'000	£'000
Ecwitïau Byd-eang	2,238,588	107,452	(107,452)
Bondiau corfforaethol byd-eang	397,603	19,085	(19,085)
Seilwaith Byd-eang	75,138	3,607	(3,607)
Credyd Preifat Byd-eang	93,511	4,489	(4,489)
Eiddo tramor	35,182	1,689	(1,689)
Cyfanswm newid mewn asedau	**2,840,022**	**136,322**	**(136,322)**

Math o Ased	Gwerth teg 31/03/25	Newid yn y flwyddyn o asedau net ar gael i dalu budd-daliadau	
		+5.9%	-5.9%
	£'000	£'000	£'000
Ecwitïau Byd-eang	2,130,140	125,677	(125,677)
Bondiau corfforaethol byd-eang	336,993	19,883	(19,883)
Seilwaith Byd-eang	51,983	3,067	(3,067)
Credyd Preifat Byd-eang	69,806	4,119	(4,119)
Eiddo tramor	36,396	2,147	(2,147)
Cyfanswm newid mewn asedau	**2,625,318**	**154,893**	**(154,893)**

Mae'r tabl uchod wedi'i ddiweddaru i rannu'r cysylltiad arian cyfred yn ôl math o asedau. Mae gwybodaeth 2024-25 wedi'i hailddatgan er mwyn ei chyflwyno mewn modd y gellir cymharu â 2025-26. Nid yw'r cyfansymiau cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi newid.

14.10 Risg credyd

Risg credyd yw'r risg y bydd partïon eraill sy'n rhan o drafodion neu offeryn ariannol yn methu â thalu arian sy'n ddyledus i'r Gronfa gan beri i'r Gronfa ddioddef colled ariannol. Fel arfer mae gwerth marchnad y buddsoddiadau yn cynnwys asesiad o gredyd yn eu prisiau ac felly darparwyd yn benodol ar gyfer y risg o golled yng ngwerth asedau a rhwymedigaethau ariannol y Gronfa.

Yn ei hanfod mae holl bortffolio buddsoddi y Gronfa yn agored i risg credyd o ryw fath. Fodd bynnag bydd dewis partïon contract, broceriaid a sefydliadau ariannol o safon uchel yn lleihau cymaint â phosib ar y risg credyd a allai godi drwy fethu â chwblhau trafodion yn brydlon.

Ar hyn o bryd ni asesir teilyngdod credyd y Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa ac nid oes terfynau credyd unigol yn cael eu gosod. Y risg posib yw y methir â chasglu cyfraniadau oddi wrth gyflogwyr sydd heb aelodau yn cyfrannu (e.e. risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr â nifer ddirywiol fechan o aelodau yn cyfrannu) felly mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn monitro newidiadau yn yr aelodaeth yn flynyddol.

Rhaid i gyflogwyr sydd yn ymuno â'r Gronfa o'r newydd gytuno i ddarparu bond i atal y risg o golled ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol os bydd iddo fethu â bodloni ei rwymedigaethau pensiwn

ar derfynu'r cynllun. Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwarantu i fodloni unrhyw rwymedigaeth y bydd y Gronfa yn gyfrifol amdani yn y dyfodol o ganlyniad i derfynu'r cynllun. Gwneir hyn er sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adennill actiwaraidd yn cael eu cadw'n rhesymol ar gyfer cyflogwyr llai.

Ni ddelir gwarant gyfochrog i sicrhau asedau ariannol. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin fel arfer yn caniatáu credyd i gyflogwyr.

Caiff pob buddsoddiad a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi – Northern Trust, ei ddal yn enw Cronfa Bensiwn Dyfed ac felly os bydd y rheolwr buddsoddi yn methu ni fydd buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu rhestru ymhlith asedau'r rheolwr hwnnw.

Caiff unrhyw arian parod sy'n cael ei ddal gan Cyngor Sir Gaerfyrddin ei fuddsoddi yn unol a'r rhestr graddio credyd gwrthbartion sydd wedi ei gymeradwyo.

14.11 Risg hylifedd

Mae hwn yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai'r Gronfa fod heb ddigon o arian i fodloni ei hymrwymiadau i wneud taliadau.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin system gynhwysfawr o reoli llif arian sy'n sicrhau y bydd arian ar gael os bydd ei angen.

Mae'r swm a ddelir yng nghyfrif banc y Gronfa yn ddigon i fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa a chaiff unrhyw arian dros ben ei fuddsoddi. Actiwariaid y Gronfa sy'n pennu'r cyfraniadau y mae'n rhaid eu talu i sicrhau y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Natur hylifol sydd i'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Gronfa er y gallai unrhyw orfodaeth i droi'r buddsoddiadau yn arian beri colled ariannol.

15 Asedau cyfredol

2024-25 £'000		2025-26 £'000
	Cyfraniadau dyledus gan gyflogwyr	
6,191	- Cyflogwyr	6,581
2,315	- Gweithwyr	2,477
7,779	Balansau arian parod	12,561
1,179	Dyledwyr	823
17,464		**22,442**

15.1 Dadansoddiad o Asedau Cyfredol

2024-25 £'000		2025-26 £'000
15,384	Awdurdodau lleol	20,246
0	Cyrff Llwodraeth Ganolog	4
2,080	Cyrff eraill ac unigolion	2,192
17,464		**22,442**

16 Rhwymedigaethau cyfredol

2024-25 £'000		2025-26 £'000
(3,258)	Budd-daliadau heb eu talu	(1,561)
(1,794)	Credydwyr	(1,888)
(5,052)		**(3,449)**

16.1 Dadansoddiad o Rhwymedigaethau Cyfredol

2024-25 £'000		2025-26 £'000
(1,349)	Refeniw a Thollau EF	(1,520)
(385)	Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	(285)
(3,318)	Cyrff eraill ac unigolion	(1,644)
(5,052)		**(3,449)**

17 Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'n statudol ofynnol i Gynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddarparu trefniadau mewnol o ran Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY). Mae gan Gronfa Bensiwn Dyfed ddarparwyr ar y cyd: Prudential, Standard Life, ac UTMOST lle mae ystod o ddewisiadau o ran buddsoddi ar gael.

Aelodau unigol y Cynllun sydd i bennu faint y maent am gyfrannu (yn amodol ar derfynau a bennwyd gan Refeniw a Thollau EF) ac ar elfennau neu gynnwys y buddsoddiad.

Mae'r cyfraniadau i gynlluniau CGY a fuddsoddir ar wahan a gwerth y buddsoddiadau hynny ar ddyddiad y fantolen, wedi'u nodi isod:

Darparwyr CGY	Gwerth ar 31/03/25 £ '000	Cyfraniadau £ '000	Gwariant £ '000	Newid yng ngwerth y farchnad £ '000	Gwerth ar 31/03/26 £ '000
Prudential	13,344	3,953	(2,141)	1,526	16,682
UTMOST	386	0	(133)	17	270
Standard Life	3,605	1,128	(434)	328	4,627
Cyfanswm	**17,335**	**5,081**	**(2,708)**	**1,871**	**21,579**

18 Trefniadau ariannu

Er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, mae actiwari'r Gronfa yn cynnal prisiant actiwaraidd llawn bob tair mlynedd er mwyn sefydlu lefel cyfraniadau'r cyflogwyr am y tair mlynedd nesaf. Mae'r ffigyrau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yma wedi'u seilio ar y prisiad 31 Mawrth 2022.

Am fwy o fanylion, ac i weld y Datganiad Strategath Gyllido (DSG), dylid cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

19 Trosglwyddiadau Partion Perthnasol

Mae'r Gronfa yn cael ei weinyddu gan Cyngor Sir Caerfyrddin, ac o ganlyniad mae yna berthnyas cryf rhwng yr Awdurdod a'r Gronfa. Yn ogystal, mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Awdurdod yn gyfrifol am gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.

Gwnaeth yr Awdurdod ddioddef costau o £1.486 miliwn (2024-25: £1.336 miliwn) ynglyn â gweinyddiath y Gronfa ac fe wnaeth y Gronfa ad-dalu'r costau yma.

Yr Awdurdod yw'r cyflogwr mwyaf o'r holl gyflogwyr yn y Gronfa ac fe wnaeth gyfraniadau o £47.404 miliwn i'r Gronfa yn 2025-26 (2024-25: £44.804 miliwn).

Mae'r Gronfa yn dal rhan o'i arian parod gyda'r Awdurdod er mwyn cyfarfod a thaliadau dyddiol y Gronfa. Mae'r arian yma yn cael ei fuddsoddi ar y Farchnadoedd Arian gan adran Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, roedd gan y Gronfa falans buddsoddi ar gyfartaledd o £15.9 miliwn (2024-25: £10.2 miliwn) yn ennill llog o £641,825 (2024-25: £500,758).

Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru Cyfyngedig (Rhif Cwmni 16645479) (Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC)

Ffurfiwyd Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn ystod 2025-26 gyda'r disgwyliad y bydd yn rheoli ac yn goruchwylio buddsoddiadau pob Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru gan ddechrau yn 2026-27. Mae pob Cronfa yn berchen ar 12.5% o Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC. Rhoddodd Cronfa Bensiwn Dyfed gyfraniad ymlaen llaw o £158,825 yn ystod 2025-26 i ariannu'r costau sefydlu cychwynnol y cwmni.

Bydd Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn dod yn gyflogwr sy'n cyfrannu yng Nghronfa Bensiwn Dyfed yn ystod 2026-27. Roedd £1,176 yn ddyledus gan Gwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC i Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2026 mewn perthynas â gwasanaethau proffesiynol i bennu cyfradd gyfrannu'r cyflogwr.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol (Swyddog Adran 151 y Gronfa) wedi'i nodi fel cyfarwyddwr Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae'n aelod o Fwrdd Pontio'r cwmni.

19.1 Llywodraethu

Pwyllgor Pensiwn

Mae gan y Gronfa dri aelod ac un dirprwy aelod ar y Pwyllgor Pensiwn. Yn ystod 2025-26, rhain oedd Cynghorydd Elwyn Williams, Cynghorydd Dai Thomas, Cynghorydd Philip Warlow a'r Cynghorydd Neil Lewis oedd y dirprwy aelod.

Bu gan Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Mr Chris Moore, sydd yn Swyddog Adran 151 i'r Awdurdod, ran allweddol yn rheolaeth ariannol y Gronfa. Mae ef yn aelod gweithredol o'r Gronfa.

Mae'n ofynnol i aelodau'r Pwyllgor, a'r Uwch Swyddogion sy'n cynghori'r Pwyllgor, i ddatgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt ym mhob cyfarfod. Mae aelodau'r Pwyllgor a Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn cronni eu budd-daliadau mewn cydymffurfiaeth a'r rheolau sy'n amgylchynnu cynghoryddion a gweithwyr cyrff cyflogi y Gronfa.

Y Bwrdd Pensiwn

Cafodd Bwrdd Pensiwn ei gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 11 Chwefror 2015 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2015 ymlaen yn unol â Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae'n cynnwys tri cynrychiolydd cyflogwr, tri cynrychiolydd aelodau, a chadeirydd annibynnol.

Am fwy o fanylion, ac i weld y Polisi Llywodraethu dylir cyfeirio at wefan y Gronfa – www.cronfabensiwndyfed.org.uk

19.2 Prif Bersonél Rheoli

Swyddog Adran 151 y gronfa yw prif bersonél rheoli'r gronfa. Nodir isod gyfanswm y taliadau sy'n daladwy i'r prif bersonél rheoli:

2024-25 £'000		2025-26 £'000
16	Budd-daliadau tymor byr	17
3	Budd-daliadau ôl-gyflogaeth	3
19		**20**

20 Cyfraddau cyfrannu y cyrff cyflogi, y budd-daliadau a thalwyd a'r cyfraniadau a dderbyniwyd

2024-25				2025-26		
Cyfradd cyfrannu %	Cyfraniadau £'000	Budd-daliadau a talwyd £'000		Cyfradd cyfrannu %	Cyfraniadau £'000	Budd-daliadau a talwyd £'000
			Cyrff Rhestredig			
16.2	44,804	55,091	Cyngor Sir Caerfyrddin	16.2	47,404	55,203
15.5	26,084	27,275	Cyngor Sir Benfro	15.5	26,621	29,288
14.6	14,641	17,205	Cyngor Sir Ceredigion	14.6	15,640	18,041
16.8	7,979	4,738	Swyddfa y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys	16.8	8,643	5,352
15.1	2,345	2,147	Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	15.1	2,305	2,707
20.2	309	370	Coleg Ceredigion	20.2	370	584
19.8	2,395	1,581	Coleg Sir Gar	19.8	2,349	2,263
10.4	795	1,157	Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	10.4	815	1,194
19.1	2,021	1,124	Coleg Sir Benfro	19.1	2,102	892
	101,373	110,688			106,249	115,524
			Cyrff Dynodedig			
18.7	35	54	Cyngor Tref Aberystwyth	18.7	45	21
14.5	129	128	Cyngor Tref Caerfyrddin	14.5	119	128
22.8	47	15	Cyngor Tref Cwmaman	22.8	50	6
27.6	55	0	Cyngor Cymunud Llanedi	27.6	57	206
28.2	8	8	Cyngor Cymuned Gorslas	28.2	8	9
21.7	20	15	Cyngor Tref Cydweli	21.7	18	38
27.0	4	3	Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr	27.0	12	3
19.8	2	1	Cyngor Cymuned Llanarthne	19.8	2	1
13.7	273	505	Cyngor Gwledig Llanelli	13.7	283	359
19.2	88	152	Cyngor Tref Llanelli	19.2	91	169
25.4	23	0	Cyngor Cymuned Llangennech	25.4	25	0
20.3	46	39	Cyngor Cymuned Llannon	20.3	60	30
18.3	91	26	Cyngor Tref Penbre a Phorth Tywyn	18.3	97	27
8.5	12	13	Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod	8.5	13	13
26.4	22	1	Cyngor Tref Penfro	26.4	24	7
21.7	19	0	Cyngor Tref Doc Penfro	21.7	20	0
22.2	9	0	Cyngor Cymuned Cwarter Bach	22.2	11	0
22.0	24	0	Cyngor Cymuned Betws	22.0	5	0
	907	960			940	1,017

2024-25				2025-26		
Cyfradd cyfrannu %	Cyfraniadau £'000	Buddaliadau thalwyd £'000		Cyfradd cyfrannu %	Cyfraniadau £'000	Buddaliadau thalwyd £'000
			Cyrff a Dderbyniwyd Cyrff Cymunedol a Dderbyniwyd			
23.1	58	39	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Ceredigion	23.1	56	43
20.6	1,479	1,764	Gyrfa Cymru	20.6	1,295	1,971
19.7	26	81	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin	19.7	27	68
0.0	2	16	Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin	0.0	2	16
22.6	66	56	Iaith Cyf (Cwmni Iaith)	22.6	31	87
20.6	98	25	Menter Bro Dinefwr	20.6	92	25
23.0	35	45	Menter Cwm Gwendraeth	23.0	36	47
19.2	89	18	Menter Gorllewin Sir Gar	19.2	76	2
13.1	16	13	Menter Iaith Castell Nedd a Port Talbot	13.1	16	13
0.0	1	12	Cymdeithas Cymuned a Chwaraeon Arberth a'r Cylch	0.0	1	13
24.0	62	179	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	24.0	56	123
18.3	87	153	PLANED	18.3	94	52
22.3	249	758	Barcud	22.3	236	395
22.0	578	738	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	22.0	578	703
0.0	17	413	Prifysgol Aberystwyth	0.0	6	274
18.3	347	508	Cyngor Llyfrau Cymru	18.3	347	621
23.9	28	63	Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru	23.9	28	103
21.5	26	54	Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru	21.5	29	55
	3,264	4,935			3,006	4,611
			Cyrff trosglwyddo a dderbyniwyd			
16.1	1,222	117	Llesiant Delta Wellbeing	16.1	1,083	86
22.5	11	0	Burry Port Marina Ltd	22.5	0	0
35.5	9	0	Adapt Business Services	35.5	10	28
20.5	6	0	Visit Pembrokeshire	20.5	6	0
20.1	17	0	Victim Support	20.1	44	1
0.0	0	0	Haverfordwest Aiport Ltd	24.2	20	0
	1,265	117			1,163	115

2024-25				2025-26		
Cyfradd cyfrannu	Cyfraniadau	Buddaliadau thalwyd		Cyfradd cyfrannu	Cyfraniadau	Buddaliadau thalwyd
%	£'000	£'000		%	£'000	£'000
			Asiantaeth Trwyddedau			
0.0	6	7	Gyrwyr a Cherbydau	0.0	1	2
			Ymddiriedolaeth Pwll Nofio			
0.0	0	16	Aberteifi	0.0	0	16
0.0	0	89	PRISM	0.0	0	91
			Pwyllgor Llysoedd Ynadon			
0.0	50	392	Dyfed-Powys	0.0	49	388
0.0	3	9	Canolfan y Teulu, Caerfyrddin	0.0	3	9
0.0	3	5	Cyngor Tref Aberdaugleddau	0.0	3	5
0.0	0	17	Mencap	0.0	0	17
0.0	0	6,246	Cyngor Sir Dyfed	0.0	0	5,986
			Cymdeithas Gwasanaethau			
0.0	0	12	Gwirfoddol Dyfed	0.0	0	3
0.0	5	20	Awdurdod Dwr Cymru	0.0	5	20
0.0	0	9	Cwm Environmental	0.0	0	9
0.0	0	9	Cartrefi Cymru	0.0	0	9
			Gwasanaeth Swyddogion			
0.0	1	1	Rhenti	0.0	1	1
0.0	14	40	Cyngor Tref Hwlffordd	0.0	14	40
0.0	0	40	Bwrdd Claddu Llanelli	0.0	0	41
0.0	0	17	DANFO	0.0	0	17
0.0	0	176	Human Support Group (HSG)	0.0	0	127
			Compass Contract Services			
0.0	0	1	Ltd	0.0	0	1
0.0	0	1	Garnant Golf Club Ltd	0.0	0	1
0.0	0	19	Cartref Cheshire y Cwm	0.0	0	19
0.0	0	85	Pobl Group	0.0	0	61
	82	7,211			76	6,863
	106,891	**123,911**	**Cyfanswm**		**111,434**	**128,130**

20.1 Cyrff Eraill Perthnasol Heb Weithwyr Pensiynadwy lle mae cynnydd pensiwn yn cael ei adennill

Cymerwyd yn ganiataol, yn achos y cyrff hyn heb weithwyr pensiynadwy, y bydd y gyfran o godiadau pensiwn a nodir isod yn parhau i gael eu hadennill.

	Cyfran i'w hadennill %
Asiantaeth Trwyddedau Gyrwyr a Cherbydau	100
Cyngor Tref Aberdaugleddau	100
Canolfan y Teulu, Caerfyrddin	100
Dwr Cymru	50

21 Rhoi Benthyg Stoc


Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn caniatáu rhoi benthyg stoc yn amodol ar gymeradwyaeth benodol. Yn ystod 2025-26, yr incwm enillwyd drwy'r Gronfa drwy roi benthyg stoc oedd £81,045 (2024-25: £111,184). Ar 31 Mawrth 2026 roedd gan y Gronfa £53.6 miliwn allan ar fenthyg (2024-25: £40.6 miliwn).

22 Datganiad Actiwaraidd

Darparwyd y datganiad hwn i fodloni gofynion Rheoliad 57(1)(d) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd o Gronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2025 i bennu'r cyfraddau cyfrannu o 1 Ebrill 2026 i 31 Mawrth 2029.

Ar sail y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd roedd asedau'r Gronfa ar ddyddiad y prisiad yn £3,575 miliwn, sef 128% o'r £2,786 miliwn (y "Targed Cyllido Solfedd") oedd wedi'i ymrwymo am wasanaeth a roddwyd. Felly, y gwarged adeg y prisiad oedd £789 miliwn.



Roedd y prisiad hefyd yn dangos bod angen i gyflogwyr dalu cyfradd gyfrannu sylfaenol o 16.5% o'r tâl pensiynadwy bob blwyddyn. Cyfrifir bod y gyfradd sylfaenol, ynghyd â'r cyfraniadau a delir gan aelodau, yn ddigonol i fodloni'r holl rwymedigaethau fydd yn codi o ran gwasanaeth ar ôl dyddiad y prisiad.

Yr amcan cyllido fel y nodwyd yn y Datganiad Strategaeth Gyllido yw cyflawni a chynnal lefel gyllido solfedd o 100% o rwymedigaethau (y targed cyllido solfedd). Yn unol â'r Datganiad Strategaeth Gyllido, lle bo diffyg ariannol ar ddiwrnod gweithredu'r prisiad, bydd cynllun adfer diffyg ariannol yn cael ei roi ar waith sy'n gofyn am gyfraniadau ychwanegol i unioni'r diffyg ariannol. Yn yr un modd, lle bo gwarged, gall fod yn briodol gwrthbwyso hwn yn erbyn

cyfraniadau ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol, ac os felly bydd gostyngiadau cyfrannu yn cael eu rhoi ar waith er mwyn caniatáu ar gyfer hyn.

Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido yn pennu'r broses ar gyfer penderfynu ar gyfraniadau mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg/gwarged ar gyfer pob cyflogwr. Ym mhrisiad actiwaraidd 2025, y cyfnod adfer arferol a fabwysiadwyd ar gyfer cyflogwyr mewn diffyg oedd 11 mlynedd, a'r cyfnod rhyddhau gwarged ar gyfer cyflogwyr â gwarged adferadwy oedd 19 mlynedd. Roedd hyn yn golygu mai cyfanswm y "Gyfradd Eilaidd" ar gyfer 2026/29 oedd gwarged gwrthbwyso ar gyfartaledd o rhwng tua £18miliwn a £23 miliwn y flwyddyn (sy'n caniatáu ar gyfer y cynlluniau cyfrannu sydd wedi'u pennu i gyflogwyr unigol o dan ddarpariaethau'r Datganiad Strategaeth Gyllido), er bod hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Mae rhagor o fanylion ynghylch canlyniadau'r prisiad wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ffurfiol ynghylch y prisiad actiwaraidd dyddiedig Mawrth 2026.

Yn ymarferol, caiff safle pob cyflogwr unigol ei asesu ar wahân ac mae'r cyfraniadau sydd eu hangen wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal â'r cyfraddau cyfrannu ardystiedig, bydd y cyflogwyr yn gwneud taliadau i'r Gronfa i ganiatáu ar gyfer rhwymedigaethau ychwanegol sy'n codi yn sgil ymddeoliad cynnar (ar wahân i rai a achosir gan afiechyd)

Cynhaliwyd y prisiad gan ddefnyddio'r dull actiwaraidd rhagamcanu unedau. Defnyddiwyd cromliniau arenillion llawn wrth gyfrifo'r rhwymedigaethau a'r cyfraddau sengl cyfwerth yn fras ar gyfer y prif ragdybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu'r Targed Cyllido Solfedd a'r Gyfradd Gyfrannu Sylfaenol fel a ganlyn:

	Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y gorffennol (Targed Cyllido Solfedd)	Ar gyfer rhwymedigaethau gwasanaeth yn y dyfodol (Cyfraddau cyfrannu sylfaenol)
Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (cyfradd ddisgownt)		
Y Strategaeth fuddsoddi safonol	5.30% y flwyddyn	4.85% y flwyddyn
Strategaeth fuddsoddi dybiannol ddisgresiynol cyflogwyr	5.15% fesul flwyddyn	5.15% y flwyddyn
Cyfradd y codiad mewn cyflogau (hirdymor)		
Y strategaeth fuddsoddi safonol	4.10% y flwyddyn	4.10% y flwyddyn
Strategaeth fuddsoddi dybiannol ddisgresiynol cyflogwyr	4.60% y flwyddyn	4.60% y flwyddyn

Cyfradd y codiad mewn pensiynau (yn uwch na'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig)		
Y strategaeth fuddsoddi safonol	2.60% y flwyddyn	2.60% y flwyddyn
Strategaeth fuddsoddi dybiannol ddisgresiynol cyflogwyr	3.10% y flwyddyn	3.10% y flwyddyn

Aseswyd yr asedau yn ôl gwerth y farchnad.

Cynhelir prisiad actiwaraidd teirblwydd nesaf y Gronfa ar 31 Mawrth 2028. Ar sail canlyniadau'r prisiad hwn, bydd y cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan y cyflogwyr unigol yn cael eu hailasesu ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2029.

Gwerth Actiwaraidd Presennol Buddion Ymddeol Addawedig at Ddibenion IAS 26

Mae'n ofynnol, yn ôl IAS 26, fod gwerth presennol buddion ymddeol addawedig y Gronfa yn cael eu datgelu, ac i'r diben hwnnw rhaid defnyddio'r rhagdybiaethau actiwaraidd a'r fethodoleg sy'n seiliedig ar IAS 19 yn hytrach na'r rhagdybiaethau a'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer dibenion cyllido. Dangosir y rhagdybiaethau a fabwysiadwyd yn Atodiad B.

Mae'r symudiad yng ngwerth buddion ymddeol addawedig y Gronfa ar gyfer IAS 26 fel a ganlyn:

	£miliwn
Rhwymedigaethau dechrau cyfnod	2,588
Llog ar rwymedigaethau	150
Buddion net a gronnwyd/talwyd dros y cyfnod*	(35)
(enillion)/colledion actiwaraidd (gweler isod)	19
Rhwymedigaethau diwedd cyfnod	**2,722**

**Mae hyn yn cynnwys unrhyw gynnydd mewn rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i ymddeoliadau cynnar*

Y ffactorau allweddol sy'n arwain at enillion actiwaraidd uchod yw:

- **Newid mewn rhagdybiaethau ariannol:** Cynyddodd arenillion bond corfforaethol dros y flwyddyn, gyda chynnydd cyfatebol yn y gyfradd ddisgownt o 5.9% y flwyddyn i 6.2% y flwyddyn. Cynyddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a dybiwyd dros y flwyddyn hefyd o 2.6% y flwyddyn i 2.9% y flwyddyn. Mae'r effaith net ar rwymedigaethau yn niwtral yn gyffredinol.

- **Newid mewn rhagdybiaethau demograffig:** Fel y nodwyd yn Atodiad B, mae'r rhagdybiaethau o ran marwolaethau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r astudiaeth ddiweddaraf ynghylch marwolaethau a gwblhawyd ar gyfer prisiad actiwaraidd 2025. Effaith hyn yw lleihau'r rhwymedigaethau ychydig.

- **Cynnydd mewn pensiynau / profiad o ran chwyddiant:** Mae'r ffigurau'n darparu ar gyfer effaith Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) gwirioneddol dros y flwyddyn o gymharu â rhagdybiaeth dechrau'r cyfnod (roedd profiad hyd at fis Medi 2025 yn cael ei gynnwys yng nghodiad pensiwn Ebrill 2026 o 3.8%, a bydd chwyddiant gwirioneddol o'r pwynt hwnnw yn cael ei gynnwys yng nghodiad 2027). Gan fod chwyddiant dros y flwyddyn yn uwch na'r rhagdybiaeth hirdymor, mae hyn yn cynyddu'r rhwymedigaethau ychydig.

- **Caniatáu ar gyfer canlyniadau prisiad actiwaraidd 2025**: Mae'r ffigurau'n caniatáu ar gyfer prisiad actiwaraidd 2025 y Gronfa sydd bellach wedi'i gwblhau. Effaith hyn yw cynnydd mewn rhwymedigaethau.

Clive Lewis
FIA C.Act

Mark Wilson
FIA C.Act

Mercer Limited
Mehefin 2026

Atodiad A - ystyriaethau ychwanegol

Y "dyfarniad McCloud": Mae'r ffigurau uchod yn caniatáu ar gyfer effaith y dyfarniad yn seiliedig ar y rhwymedi a'r data a ddarparwyd ar gyfer prisiad actiwaraidd 2025.

Mynegeio Isafswm Pensiwn Gwarantedig: Mae'r ffigurau uchod yn caniatáu ar gyfer darparu codiadau pensiwn CPI llawn ar fuddion yr Isafswm Pensiwn Gwarantedig i aelodau sy'n cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar ôl 6 Ebrill 2016.

Anwadalrwydd y farchnad: Cafwyd anwadalrwydd sylweddol mewn marchnadoedd ychydig cyn ac ar ôl y dyddiad cyfrifyddu. Mae'r ffigurau diwedd cyfnod yn adlewyrchu amodau'r farchnad ar y dyddiad cyfrifyddu, ond nid ydynt yn caniatáu ar gyfer unrhyw brofiad dilynol.

Achos Llys Virgin Media: Yn ôl yr hyn a ddeallwn ar hyn o bryd, er bod Trysorlys EF yn dal i asesu'r goblygiadau, nid ydynt yn credu bod yr achos yn berthnasol i gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus. O wybod hyn, a'r effaith anhysbys ar fuddion hyd yn oed pe bai'n angenrheidiol, nid ydym wedi caniatáu ar gyfer dyfarniad Virgin Media o gwbl.

Atodiad B - rhagdybiaethau ariannol a demograffig

I asesu gwerth y buddion o ran rhwymedigaethau, rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaethau canlynol ar 31 Mawrth 2026 (mae'r rhagdybiaethau ar 31 Mawrth 2025 wedi'u cynnwys fel cymhariaeth):

Rhagdybiaethau ariannol

	31 Mawrth 2025	31 Mawrth 2026
Cyfradd yr elw ar fuddsoddiadau (cyfradd ddisgownt)	5.90% y flwyddyn	6.20% y flwyddyn
Cyfradd chwyddiant CPI/ailbrisio buddion CARE	2.60% y flwyddyn	2.90% y flwyddyn
Cyfradd y codiad mewn cyflogau	4.10% y flwyddyn	4.40% y flwyddyn
Cynnydd mewn pensiynau (yn uwch na'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig) / Ailbrisio gohiriedig	2.70% y flwyddyn	3.00% y flwyddyn

Marwoldeb ar ôl ymddeol (iechyd normal)

	31 Mawrth 2025 (G/B)	31 Mawrth 2026 (G/B)
Tabl marwoldeb sylfaenol	SAPS 4 / SAPS 4 - canol	SAPS 4 / SAPS 4 - canol
Gwelliannau yn y dyfodol	CMI 23 1.5%	CMI 24 1.5%
Dewisiadau eraill	S=7, A=0 W20=W21=0%, W22=W23=15%	Craidd Sylfaenol
Aelodau nad ydynt wedi ymddeol (sef 45 oed ar hyn o bryd):		
Pwysoliadau	103% / 97%	115% / 104%
Disgwyliad oes yn 65 oed	22.9 / 25.7	22.4 / 25.3
Aelodau sydd wedi ymddeol (sef 65 oed ar hyn o bryd):		
Pwysoliadau	100% / 97%	109% / 103%
Disgwyliad oes yn 65 oed	21.5 / 23.9	21.2 / 23.6

Mae rhagdybiaeth dechrau'r cyfnod yn seiliedig ar y dadansoddiad diweddaraf ynghylch marwolaethau ar y dyddiad cyfrifyddu blaenorol (felly o brisiad actiwaraidd 2022, ond mae'n cynnwys:

- amcangyfrif gorau o gyfradd gwella hirdymor o 1.5%
- diweddariad i'r model gwella yn y dyfodol (CMI 2023)
- diweddariad i'r tablau sylfaenol (tablau S4, gan ailbwysoli i gynnal cysondeb â'r dadansoddiad sylfaenol ynghylch marwolaethau)

Mae tablau sylfaenol diwedd y cyfnod yn seiliedig ar y dadansoddiad wedi'i ddiweddaru a gynhaliwyd fel rhan o brisiad actiwaraidd 2025 (nodwch mai'r gyfradd gwella o 1.5% yw ein tybiaeth amcangyfrif gorau o hyd).

Rhagdybiaethau demograffig eraill

Mae'r rhagdybiaethau demograffig eraill yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad cyllido actiwaraidd 2022 – gellir gweld manylion llawn yn yr adroddiad ffurfiol ar y prisiad actiwaraidd dyddiedig Mawrth 2023.

Mae'r rhai ar ddiwedd y cyfnod yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiad cyllido actiwaraidd 2025 – gellir gweld manylion llawn yn yr adroddiad ffurfiol ar y prisiad actiwaraidd dyddiedig Mawrth 2026.

23 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen

Mae'r Gronfa wedi dod ynghyd â'r 7 Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol arall yng Nghymru i ffurfio Cwmni Rheoli Buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru (Rhif Cwmni 16645479) (Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC), y mae pob Cronfa yn berchen ar 1/8 rhan ohono.

Mae Cwmni Rheoli Buddsoddiadau PPC yn ceisio cael ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a dechrau darparu gwasanaethau i bob Cronfa yn ystod 2026-27. Ar ôl cael y statws rheoleiddiedig angenrheidiol, bydd y Cwmni Rheoli Buddsoddiadau yn cymryd cyfrifoldeb am reoli a goruchwylio buddsoddiadau pob Cronfa.

Bydd yn ofynnol i bob Cronfa ddarparu cyfalaf rheoleiddiol yn ystod 2026-27 ac, yn barhaus, codir ffioedd yn dibynnu ar y gwasanaethau a ddefnyddir a'r asedau dan reolaeth.

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin fel awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed yn cynnwys Cyfrif y Gronfa, y Datganiad Asedau Net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2026 ac o'i swm a gwarediad ei asedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Gronfa Bensiwn Dyfed yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cronfa Bensiwn Dyfed i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu fel arall pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad blynyddol wedi'i baratoi yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynghylch Cronfa Bensiwn Dyfed a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;

- asesu gallu Cronfa Bensiwn Dyfed i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai fod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob tro yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymholi i reolwyr, Archwilio Mewnol Cronfa Bensiwn Dyfed a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: diystyru gan reolwyr a chofnodi dyddlyfrau anarferol.
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gronfa Bensiwn Dyfed yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Dyfed.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll yn sgil rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu nad oes a wnelont â busnes arferol.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Dyfed a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu canfod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

6 Tachwedd 2026

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Cronfa Bensiwn Dyfed yw cynnal gwefan Cronfa Bensiwn Dyfed a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

Adran 7 – Polisïau a Strategaethau

Datganiad Polisi a Chydymffurfiaeth Llywodraethu

Mae'r Polisi Llywodraethu yn nodi gweithdrefnau'r Gronfa yn ymwneud â:

- Llywodraethu'r Gronfa
- Y Pwyllgor Pensiwn (cylch gorchwyl, aelodaeth a chyfarfodydd)
- Hyfforddiant
- Y Bwrdd Pensiwn

Mae'r Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu yn nodi cydymffurfiaeth y Gronfa ag egwyddorion arferion gorau. Darperir cyfiawnhad dros unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio fel rhan o'r datganiad.

Dolen - Llywodraethu | Cronfa Bensiwn Dyfed

Datganiad Strategaeth Gyllido

Mae'r Datganiad Strategaeth Gyllido yn cyflwyno strategaeth gyllido eglur a thryloyw sy'n nodi sut y bydd rhwymedigaethau pensiwn pob un o gyflogwyr y Gronfa yn cael eu bodloni yn y dyfodol. Mae'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Strategaeth Gyllido hwn yn cael effaith ariannol a gweithredol ar yr holl gyflogwyr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Dyfed.

Dolen - Strategaeth Gyllido | Cronfa Bensiwn Dyfed

Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn amlinellu strategaeth fuddsoddi bresennol y Gronfa, mae'n darparu tryloywder o ran sut mae buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu rheoli, mae'n gweithredu'n gofrestr risgiau lefel uchel a'r bwriad yw ei fod yn cynnig gwybodaeth i bob rhanddeiliad.

Dolen - Datganiad Strategaeth Fuddsoddi | Cronfa Bensiwn Dyfed

Y Gofrestr Risg

Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen a ddefnyddir i nodi, blaenoriaethu, rheoli a monitro risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa mewn modd effeithiol. Mae'r gofrestr wedi'i rhannu'n risgiau Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau Cyllid a Buddsoddiad a risgiau Gweithredol. Felly, mae'n cynnwys gweinyddiaeth, buddsoddiadau a threfniadau llywodraethu'r Gronfa.

Mae'n cynorthwyo'r Gronfa drwy:

- nodi risgiau a reolir a rhai sydd heb eu rheoli
- darparu dull systematig o reoli risgiau
- gweithredu rheolaeth effeithiol ac effeithlon
- nodi cyfrifoldebau
- nodi risgiau yn ystod y cam cynllunio a monitro'r risgiau
- helpu'r Gronfa i gyflawni ei hamcanion

Dolen - Y Gofrestr Risg | Cronfa Bensiwn Dyfed

Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor sy'n anelu at ddarparu cronfa bensiwn gynaliadwy ar gyfer yr holl randdeiliaid ac mae ganddi ddyletswydd ymddiriedol i weithredu er budd pennaf, hirdymor cyflogwyr y Gronfa ac aelodau'r cynllun. Mae Buddsoddi Cyfrifol yn rhan sylfaenol o strategaeth fuddsoddi gyffredinol y Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Dolen - Buddsoddi Cyfrifol | Cronfa Bensiwn Dyfed

Datganiad Polisi Cyfathrebu

Mae'r Gronfa yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid, a hynny yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posib mewn amgylchedd pensiynau sy'n newid yn barhaus.

Nod y Gronfa yw defnyddio'r dull cyfathrebu mwyaf priodol ar gyfer y cynulleidfaoedd sy'n derbyn y wybodaeth, a allai olygu defnyddio mwy nag un dull cyfathrebu.

Mae'n sicrhau bod yr holl ofynion rheoleiddiol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am y Cynllun yn cael eu bodloni a'u hasesu'n barhaus.

Dolen - Polisi Cyfathrebu | Cronfa Bensiwn Dyfed

Gellir gweld dogfennau polisi eraill y Gronfa drwy ddilyn y ddolen ganlynol - Polisïau | Cronfa Bensiwn Dyfed

Adran 8 - Geirfa

Rheolaeth Weithredol – Dull o Reoli Buddsoddiadau sy'n ceisio perfformio'n well na'r Meincnod perthnasol drwy Ddyrannu Asedau, Amseru'r Farchnad neu Ddewis y Stoc (neu gyfuniad o'r rhain). Mae'n gwbl groes i Reolaeth Oddefol.

Actiwari – Ymgynghorydd annibynnol sy'n rhoi cyngor o ran gallu'r gronfa i dalu ei ffordd. Mae'r actiwari'n adolygu asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bob tair blynedd ac yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Sir, sef yr awdurdod gweinyddu, ar y sefyllfa ariannol, ac yn argymell cyfraddau cyfrannu'r cyflogwyr. Gelwir hyn yn brisiant actiwaraidd.

Dosbarth o Asedau – Buddsoddi mewn maes penodol neu fath penodol ar fuddsoddi e.e. Ecwitis y DU, Ecwitis Byd-eang, Incwm Sefydlog, Eiddo Tirol, Seilwaith, Credyd Preifat, Arian.

Elw Meincnod – Yr elw meincnod yw'r elw y byddai Rheolwr y Gronfa wedi'i gyflawni heblaw iddo wrth y pwysau a roddwyd i bob dosbarth o asedau gan y Pwyllgor Pensiwn ac wedi llwyddo i wneud elw ym mhob un o'r dosbarthiadau hyn o asedau yn unol a chyfartaledd yr elw a wnaed gan bob Cronfa Awdurdod Lleol yn y dosbarthiadau hynny. Mae pwysau Meincnod y dosbarthiadau o asedau wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi.

Llywodraethu Corfforaethol – Materion sy'n ymwneud a'r ffordd y mae cwmni yn sicrhau ei fod yn rhoi'r pwysigrwydd mwyaf i les ei randdalwyr a sut y gall rhanddalwyr ddylanwadu ar reolaeth.

Ecwitis – Cyfranddaliadau cyffredin mewn cwmnïau Prydeinig a chwmnïau tramor a fasnachwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Mae gan gyfranddalwyr fudd yn elw'r cwmni ac fel rheol bydd ganddynt hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyfranddalwyr.

Incwm/Bondiau Sefydlog – Buddsoddir yn bennaf mewn stociau'r llywodraeth, sy'n gwarantu cyfradd llog sefydlog. Mae'r gwarannau'n fenthyciadau sydd i'w had-dalu ar ddyddiad penodol yn y dyfodol ond gellir eu gwerthu ar y Farchnad Stoc yn y cyfamser.

Rheolwr y Gronfa/Buddsoddi – Unigolyn neu gwmni y mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo iddo/iddi y gwaith o fuddsoddi holl asedau cronfa neu ran o'r asedau hynny.

Buddsoddi – Caffael ased at y diben o gynhyrchu incwm ac Enillion Cyfalaf I'w berchennog.

Ymgynghorydd Buddsoddi Unigolyn – neu gwmni a chymwysterau proffesiynol y mae ei brif fywoliaeth yn seiliedig ar ddarparu cyngor buddsoddi gwrthrychol a diduedd i gwmnïau, cronfeydd pensiwn neu unigolion a hynny am ffi benodol.

Dangosyddion y Farchnad – (i) Mae'r symudiadau yn y Farchnad Stoc yn cael eu monitro yn barhaus drwy gyfrwng Mynegai o brisiau cyfredol detholiad cynrychioliadol o stoc. (ii) Newid yn y cyfraddau o ran cyfnewid arian.

Gwerth ar y Farchnad – Y pris a geir o werthu buddsoddiad ar ddyddiad arbennig.

Perfformio'n Well / Tanberfformio – Y gwahaniaeth rhwng elw y mae cronfa neilltuol wedi ei ennill ac elw Cronfa 'Gyfartalog' neu Fynegai dros gyfnod penodol o amser, h.y. efallai mai targed cronfa yw perfformio'n well na Meincnod dros gyfnod o 3 blynedd.

Rheolaeth Oddefol – (fe'i gelwir hefyd yn Mynegeio/Olrhain Mynegai) Math o Reolaeth Buddsoddi sy'n anelu at lunio Portffolio mewn ffordd sy'n darparu'r un elw ag a ddarperir gan Fynegai a ddewiswyd, h.y. mae stociau yn cael eu prynu i adlewyrchu cymaint a phosib gyfansoddiad y Mynegai. Mae'n gwbl groes i Reolaeth Weithredol.

Perfformiad – Mesur, sy'n cael ei gyfleu gan amlaf ar ffurf canran, sy'n dangos cystal yw llwyddiant cronfa dros gyfnod penodol o amser – nail ai mewn termau absoliwt neu wedi ei fesur yn ôl Cronfa 'Gyfartalog' neu Feincnod arbennig.

Mesur Perfformiad – Gwasanaeth a luniwyd i gynorthwyo buddsoddwyr i werthuso perfformiad eu buddsoddiadau. Fel arfer mae hyn yn cynnwys cymharu perfformiad cronfa gyda Meincnod a ddewiswyd a/neu gydag Universe o gronfeydd tebyg. Y prif Gwmnïau Mesur Perfformiad yw Northern Trust, y mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn ei ddefnyddio, a PIRC.

Portffolio – Term torfol am y buddsoddiadau a ddelir mewn cronfa, marchnad neu sector.

Budd-daliadau Cadwedig – Y budd-daliadau pensiwn sy'n daladwy i aelod o'r Gronfa ar gyrraedd oedran ymddeol arferol sydd wedi stopio cyfrannu o ganlyniad i adael ei waith neu ddewis gadael y Cynllun Pensiwn cyn oedran ymddeol arferol.

Elw – Cyfanswm yr enillion o ddal buddsoddiad am gyfnod penodol, yn cynnwys incwm a chynnydd (gostyngiad) yng ngwerth y farchnad.

Risg – Fel arfer mae'n cyfeirio at Amrywiant yr Elw. Rhaid i fuddsoddiadau a'r risg mwyaf addo elw uwch na'r buddsoddiadau mwy 'sefydlog' cyn y bydd buddsoddwyr yn eu prynu.

Trosglwyddo Gwerth Cyfraniadau – Dyma werth y taliadau rhwng cronfeydd pan fydd cyfranwyr yn ymadael a gwasanaeth un cyflogwr ac yn penderfynu mynd a gwerth eu cyfraniadau pensiwn i gronfa eu cyflogwr newydd.

Cynnydd/(Gostyngiad) heb ei realeiddio yn y Gwerth ar y Farchnad – Y cynnydd (gostyngiad) a fu ers dyddiad y pryniant, ar werth ar y farchnad y buddsoddiadau hynny a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Dwysedd Carbon Cyfartalog wedi'i Bwysoli – Amlygiad y portffolio i gwmnïau carbon-ddwys, mewn tunellau CO2e / refeniw $m. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1 a Chwmpas 2 yn cael eu dyrannu yn seiliedig ar bwysau portffolio (gwerth cyfredol y buddsoddiad mewn perthynas â gwerth presennol y portffolio)

Cysylltu a'r Gronfa

Chris Moore
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
CMoore@sirgar.gov.uk

Randal Hemingway
Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
RHemingway@sirgar.gov.uk

Buddsoddiadau y Gronfa

Martin Owens
Swyddog Buddsoddiadau Pensiwn
MSOwens@sirgar.gov.uk

Jason Williams
Cyfrifydd Cynorthwyol
JasWilliams@sirgar.gov.uk

Tina Leigh
Technegydd Cyfrifon
TLeigh@sirgar.gov.uk

Gweinyddiaeth y Gronfa

Kevin Gerard
Rheolwr Pensiynau
KGerard@sirgar.gov.uk

Martin Morgan
Dirprwy Rheolwr Pensiynau
MMorgan@sirgar.gov.uk

Jessica Guy
Uwch Swyddog Cyfathrebu a Chyswllt Cyflogaeth
JTurnbull-Guy@sirgar.gov.uk

Fel arall, ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch **Budd-daliadau Aelodau**, e-bostiwch pensiynau@sirgar.gov.uk neu ffoniwch:

Cyfenw A – G	01267 224625
Cyfenw H – O	01267 224909
Cyfenw P – Z	01267 224125